# ECO'R WYDDFA

Rhif 102 EBRILL 1985 Pris 20c

# EI ANRHYDEDDU AM EI GYWAITH



Yr oedd nos Fawrth, Mawrth 5 yn noson arbennig i Alwyn Jones, Racca, Penisarwaun, sy'n Reolwr Gweithdy Trafnidiaeth, Swyddfa'r Post yn Ffynnon Tâf, ger Caerdydd. Derbyniodd Dystysgrif Diploma yr 'Institute of Road Transport Engineers' yng Ngholeg Addysg Bellach, Casnewydd, Gwent am y cywaith gorau. Yr oedd y Prosiect yn rhan o'r Arholiadau ar ddiwedd ei gwrs blwyddyn yn y Coleg. Enillodd y marciau uchaf yn yr arholiad trwy Dde Cymru a daeth yn bumed trwy wledydd Prydain. Yn dilyn y llwyddiant yma, gwahoddir ef i Lundain ym mis Hydref i dderbyn Diploma Cenedlaethol.

Ein llongyfarchiadau cynhesaf i Alwyn ar ei lwyddiant a phob dymuniad da i'r dyfodol.

## LLWYDDIANT SEINDORF

**A'r Eco ar fin mynd i'r wasg daeth y newydd o'r enwog Guild Hall, Preston am lwyddiant Seindorf Arian Llanrug – yng nghystadleuaeth Bandiau Prês rhanbarth y Gogledd Orllewin – rhanbarth a ystyrir yn un o gadarnleoedd byd y bandiau.**

**Llanrug a ddyfarnwyd yn orau o 13 o fandiau yn Adran 4 gan y beirniad Roy Newsome gan ennill 183 o farciau. Bu'r darn prawf 'Malvern Suite' yn gryn sialens iddynt yn enwedig o ystyried mai dyma'r tro cyntaf i dri o'u haelodau ieuengaf gystadlu gyda'r Seindorf.**

**Credir mai dyma'r tro cyntaf i Seindorf o Ogledd Cymru ennill y bencampwriaeth hon.**

**Yn dilyn y llwyddiant hwn, byddant yn cael cystadlu yn y Bencampwriaeth Genedlaethol yn Neuadd Albert, Llundain ddechrau Hydref nesaf.**

## CYNHELIR
## CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL ECO'R WYDDFA

**Yn Ysgol Gynradd Llanrug**

**Nos Lun Ebrill 15**

**am 7.30 p.m.**

**Croeso i unrhyw un sydd â diddordeb yn nyfodol ein Papur Bro**

# CYNRYCHIOLI CYMRU

**Llongyfarchiadau i Steven Owen a Gwynfryn Williams, dau o fechgyn Ysgol Brynrefail, ar gael eu dewis i chwarae peldroed a chodi pwysau dros Gymru yn ddiweddar.**



*Cymharu capiau — Steven (chwith) gyda 'seren' arall o Ysgol Brynrefail — Malcolm Allen o Ddeiniolen*



*Gwynfryn yn arddangos ei fedal ddiweddaraf*

Llongyfarchiadau i Steven Owen ar gael ei ddewis i chwarae i dîm Ysgolion Cymru dan 18 oed yn Aberteleri yn erbyn Ysgolion yr Alban ar Mawrth 16eg. Yn anffodus ar ôl dechrau addawol i'r gêm, colli wnaeth Cymru 4-1. Fe fydd Steven yn chwarae eto i dîm yr Ysgolion yn ystod gwyliau'r Pasg yn Wrecsam yn erbyn tîm Ieuenctid yr Unol Daleithiau.

Yn ystod y mis daeth y newydd hefyd for Steven wedi ei ddewis i ymuno â'r garfan ieuenctid broffesiynol ar gyfer y gêm yn erbyn Yr Iseldiroedd yn Y Rhyl ar Fawrth 19. Yn yr un gêm, roedd Malcolm Allen o Ddeiniolen yn ennill ei bedwerydd cap i Gymru.

Fe aeth llond bws o gefnogwyr o'r ysgol i'r Rhyl i weld y gêm. Colli 1-0 wnaeth Cymru mewn gêm siomedig ar y cyfan ond fe ddangosodd Malcolm mai ef oedd blaenwr gorau Cymru ar y dydd. Eilydd oedd Steven yn y gêm yma; efallai y daw ei gyfle o rhyw ben cyn diwedd y tymor.

Daeth Gwynfryn Williams, Penisarwaun yn ail ym Mhencampwriaeth Codi Pwysau Bechgyn Ysgol Prydain (dan 16) a gynhaliwyd yn Milton Keynes.

Cododd mewn dau ddull – snatch a clean & jerk. Cyfanswm y pwysau a gododd oedd 137.5kg.

Rhaid oedd i bawb a ymgeisiai yn y bencampwriaeth fod wedi codi dros ddwywaith eu pwysau eu hunain.

Mae Gwynfryn yn bencampwr dan 14 Bechgyn Ysgol Cymru yn barod. Bydd yn cystadlu ym mhencampwriaeth dan 18 Cymru yng Nghaerdydd ym mis Mai.

Bydd yn ymarfer 3 gwaith yr wythnos am 2 awr a hanner ar y tro.

# TALENTAU YSGOL BRYNREFAIL



*Dyma lun arbennig iawn. Nid oes llawer o ysgolion uwchradd yng Nghymru yn medru ymhyfrydu yn y ffaith fod ganddynt ddim llai na saith o'u disgyblion wedi cynrychioli eu gwlad mewn pedair camp — a hynny yn yr un flwyddyn ysgol. Yn sefyll, o'r chwith i'r dde — Steven Owen, Cwm y Glo (peldroed); Gwynfryn Williams, Penisarwaun (codi pwysau); Michael Roberts, Cwm y Glo (athletau). Yn eistedd, o'r chwith i'r dde, Mathew a Philip Ingle, Dinorwig a Kirsty a Robina Mc Cann, Ceunant (y pedwar yn sgïo).*

*Trowch i dudalennau 10-11 am ragor o dalentau ifanc y fro.*

# ECO'R WYDDFA

MAI 2
EBRILL 23

*Argraffwyd gan Wasg Gwynedd Cibyn, Caernarfon*

*Cyhoeddwyd gyda chymorth Cymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru*

## SWYDDOGION A GOHEBWYR

**GOLYGYDD NEWYDDION CYFFREDINOL**: Twrog Jones, 23 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)
**GOLYGYDD ERTHYGLAU**: Dafydd Whiteside Tomas, Bron y Nant, Pontrhythallt, Llanrug (C'fon 3515)
**GOLYGYDD NEWYDDION**: Tony Elliot, Crud y Wawr, Bryneglwys, Penisarwaun (Llanberis 872438)
**TREFNYDD NEWYDDION YSGOLION**: Iwan Lloyd Williams, Bryn Idris, Llanberis (870515)
**DYDDIADUR Y MIS**: Mrs. Jane Roberts, 'Rallt Isaf, 3 Peny Bont, Ffordd Capel Coch, Llanberis. (871561)
**FFOTOGRAFFYDD**: Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4669). Gwyndaf Hughes, 20 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 77163). Islwyn L. Jones, Y Garn, Bryn Moelyn, Llanrug. (C'fon 5874)
**TREFNYDD HYSBYSEBION**: John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug (C'fon 5605)
**TREFNYDD GWERTHIANT**: Arwyn Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf, Llanrug (C'fon 5510)
**TREFNYDD ARIANNOL**: Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (C'fon 4839)
**TREFNYDD GWERTHIANT POST**: Mrs E. Whiteside Thomas, Dolwar, Llanrug. (C'fon. 4778)
**GOHEBWYR PENTREFI**: Dyma'r bobl i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd:
**BETHEL**: Geraint Elis, Cilgeran (Portdinorwic 670726).
**BRYNREFAIL**: D.G. Ellis, Gweledfa (Llanberis 871223)
**CEUNANT**: Ifan Parry, Morwel, (Waunfawr 321)
**CWM-Y-GLO**: Mrs Iris Rowlands, Glarafon (Llanberis 872275)
**DEINIOLEN**: W.O.Williams 6 Rhyd fadog, Deiniolen (Llanberis 871259)
**DINORWIG**: O.R. Williams, 2 Bro Elidir (Llanberis 870671)
**LLANBERIS**: Mrs Jane Roberts, 'Rallt Isaf, 3 Pen y Bont, Ffordd Capel Coch, Llanberis (871561)
**LLANRUG**: Mrs Eirlys Pierce, Swyn-yr-Awel (C'fon 3776)
**NANT PERIS**: Mrs J.E. Elis, 8 Glanrafon, Nant Peris. (Llanberis 870 733).
**PENISARWAUN**: Mrs Ann Evans, 9 Sycharth, (Llanberis 872407)
**TAN-Y-COED**: Miss Megan Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed (Llanberis 870030)
**WAUNFAWR**: Mrs G. Jones, Rhandir Mwyn (Waunfawr 626)
**TREFNYDD PLYGU**: Edward Elias, 21 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 3719)

## Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
**Mai 2**
Deunydd i law'r golygyddion perthnasol
**NOS FAWRTH**
**Ebrill 23**
os gwelwch yn dda

# LLYTHYRAU

## MATHEMATEG: CWRS CRAIDD AR GYFER SAFON UWCH

*Annwyl Olygydd,*

*Cynhwysaf ychydig wybodaeth parthed llyfr newydd a gyhoeddir gennym ar Fawrth y cyntaf eleni, rhag ofn yr hoffech gynnwys manylion am y cyhoeddiad newydd arloesol yma. Cyfieithwyd Mathemateg: Cwrs Craidd ar gyfer Safon Uwch (Bostock & Chandler) gan Banel Cambria. Dyma'r gyfrol gyntaf o dair a fydd yn cynnig gwerslyfrau safonol ar gyfer Mathemateg Bur yn y Chweched Dosbarth cyn diwedd y flwyddyn. Is-dîm i dîm cynhyrchu Cyfres Cumbria a fu'n gyfrifol am y cyfieithu, a gwnaed y cyfieithu i gyd yn wirfoddol. Cynhyrchwyd a chyhoeddwyd y deunydd gan Ganolfan Adnoddau Addysg, Y Gyfadran Addysg, Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth.*

*Onid Mathemateg yw un o'r pynciau hawsaf i'w ddysgu trwy'r Gymraeg? Mae nifer y disgyblion sy'n sefyll arholiadau Mathemateg Safon Gyffredin a T.A.U. trwy'r Gymraeg wedi cynyddu'n sylweddol yn ddiweddar. Bellach mae deunydd Mathemateg ar gael ar gyfer plant Cymru o oed meithrin hyd y Chweched Dosbarth.*

*Gyda phob dymuniad da*
*Yn gywir*
*Glyn Saunders Jones*
*Y Ganolfan Adnoddau*
*Y Gyfadran Addysg,*
*Yr Hen Goleg,*
*Aberystwyth*

## CWRS DRAMA IEUENCTID CYMRU

*Annwyl Olygydd*

*Cwrs Drama Ieuenctid Cymru*

*Byddwn yn ddiolchgar o gyfle i dynnu sylw at Gwrs Drama Ieuenctid Cymru a gynhelir yn Y Coleg Normal, Bangor, o'r 23ain Gorffennaf hyd y 3ydd Awst, 1985. Anelir y cwrs preswyl hwn at Ieuenctid rhwng 16 a 25 oed a gofynir i bawb sydd â diddordeb anfon at Ysgrifennydd y cwrs am fanylion pellach a ffurflen gais. Yr Ysgrifennydd yw Mr. Emyr Jones, Swyddfa Addysg Ranbarthol, Dolgellau. Ffôn: Dolgellau 423191. Bydd cyfle i aelodau'r cwrs gyflwyno perfformiad yn Theatr y Maes yn Eisteddfod Genedlaethol Y Rhyl.*

*Gobeithio y bydd ymateb da gan ieuenctid pob cylch yng Nghymru.*

*Yn gywir*
*J. Clifford Jones*
*ar ran y Pwyllgor Trefnu*

## APÊL AT YRRWYR BEICIAU MODUR YM METHEL

*Annwyl Olygydd,*

*Ysgrifennwn, yn griw o famau o Fethel, i ofyn am gyfle yn Eco'r Wyddfa i wneud apêl at yr hogiau sy'n gyrru eu beiciau modur ar gymaint o wib heibio i'n cartrefi.*

*Mae'r ffordd o Dre Gof heibio i'r Neuadd a draw am Gorra Linn yn syth, ac y mae'n demtasiwn mawr i roi eich troed i lawr a gyrru ar ei hyd. Ond mae'r ffordd hefyd yn gul a thai ar bob ochr iddi. Wyddoch chi bod dros 20 o blant dan saith oed yn byw ar hyd y darn yna o'r ffordd rhwng y Neuadd a Chorra Linn?*

*Cyn hir byddwn yn troi'r cloc ac wrth i'r dyddiau ymestyn bydd rhai o'r plant bach yn chwarae o gwmpas y tai gyda'r nos. Fe wnawn ein gorau i'w cadw mewn lle diogel, ond mae'n amhosibl eu cadw rhag crwydro o un tŷ i'r llall, ac ar eu beiciau o gwmpas y lle.*

*Felly, os gwelwch yn dda, hogiau, cymerwch ofal mawr wrth fynd a dod i'r Neuadd, ac* **arafwch** *wrth fynd heibio. Does yna neb eisiau gweld na phlentyn bach na hogyn ifanc ar gefn beic modur yn cael damwain.*

*Yn gywir iawn,*
*Mair Read, Llwydiarth*
*June Owen, Cadnant*
*Eluned Davies, Garth*
*Eluned Davies, Eran*
*Kay Williams*
*J. White, Tŷ Catrin*
*Medwen Green, Medfryn, Corra Lin*
*Margaret Rees, 6 Y Rhos*
*Ellen Jones, Sycharth*
*Glenda Ann Owen, Snowdonia*
*A.L. Morgan, Bryn Alun*
*J. Jones, Wenallt*
*Jiwn Jones, 4 Corra Linn*
*K. Bardsley, Windy Corner*
*Julia Pritchard, Fron Helyg*
*Eunice Roberts, 4 Y Rhos.*

## PROCIO'R CÔF

*Annwyl Olygydd,*

*Rwyf yn byw yng nghylch Treffynnon ers un mlynedd ar bymtheg, ond yn dal i ymweld â bro'r 'Eco' ar fy nhro. Rwyf yn derbyn Eco'r Wyddfa trwy garedigrwydd y teulu, ac yn cael blas ar ei ddarllen. Cefais bleser arbennig o ddarllen rhifyn mis Mawrth lle'r oedd John Harvey yn rhoddi peth o hanes ardal y Waunfawr, lle'r oeddwn i'n byw yn blentyn.*

*Cofiaf yn dda am Mr. a Mrs. Harvey a'u tri plentyn John, Joan ac Elizabeth yn byw yn Rhesdai Glynafon, a gwyddwn am John fel cystadleuydd peryglus yn yr Eisteddfodau cyfagos. Credaf iddynt ymadael i Gyffordd Llandudno pan yn blant ac ni chlywais glep o'u hanes byth, nes derbyn Eco'r mis hwn.*

*Pob dymuniad da i'r Eco, a'm cofion cynnes at drigolion Llanrug a'r Waunfawr.*

*Yn gywir*
*Elizabeth Edwards*
*6 Saithaelwyd Park,*
*Carmel,*
*Treffynnon*

*Anfonodd Mrs. Edwards rai o'i hatgofion hithau am ardal y Waunfawr — fe'i cyhoeddir yn y dyfodol agos. Un erthygl yn procio un arall i sgwennu! Daliwch i brocio, bawb!!*

## 'GUIDE BOOKS' LLANBERIS

*Annwyl Olygydd,*

*Tybed a fydd hwn o unrhyw ddiddordeb i'r Eco? Tom Owen, Glasfryn, neu 'Twm Yanks' fel y'i gelwir gan hen drigolion Llanberis oedd ysgrifennydd y Cyngor Plwyf ar y pryd. Ymfudodd i Sir Frycheiniog, a bu farw yno, ond fe'i claddwyd yn Nant Peris.*

*LLANBERIS PARISH COUNCIL*

*To whom it may concern*

*It is regretted that the supply of Guide Books giving local information regarding accommodation for visitors, etc., has been exhausted and there appears to be no probability of a re-print being acquired. Herewith is a list of addresses in Llanberis, that used to cater for visitors before the war.*

*Royal Victoria Hotel - Mrs. D. Cullini*
*Padarn Villa Hotel - Mrs. McGregor*
*Dolbadarn Hotel - Mrs. Benson*
*Prince of Wales Hotel - Mrs. Wakeham*
*Glyn Afon Temperance - Mrs. J. Hughes*
*12 Vaynol Cottages - Mrs. A.C. Williams*
*Islwyn House - Mrs. W. Price*
*Afon House - Mrs. H. Jones*
*Brook House - Mrs. O. Roberts*
*Glan Aber - Mrs. E. Roberts*
*London House - Miss Nell Jones*
*Bod Awen - Mrs. G.R. Williams*
*Idan House - Mrs. W. Evans*
*Havanah House - Mrs. W. Bryan*
*Halford Hill - Mrs. L. Griffith*

*Yn gywir*
*Menna Byrne*
*Pantau*
*Llanfilo*
*Aberhonddu*

*Tybed a oes un o'r 'Guide Books' ym meddiant rhywun heddiw? — ac at ba ryfel y mae'r Clerc yn cyfeirio ati uchod? Gol.*

## ANGEN LLUNIAU O WAUN CWM BRWYNOG

Annwyl Olygydd,

Ym mis Mehefin eleni bydd *Cyhoeddiadau Mei* yn cyhoeddi llyfr o'r enw **Cyfaredd Gwaun Cwm Brwynog** gan Catrin Parri Huws.

Cynnwys y llyfr yw hanes y gymdeithas a fu unwaith ar lethrau'r Wyddfa.

Mae'r awdur a'r cyhoeddwyr yn awyddus i gynnwys lluniau yn y llyfr hwn, a buasem yn falch pe bai gan unrhyw un o ddarllenwyr yr Eco unrhyw luniau yn gysylltiedig â'r ardal yma (boed adeiladau neu bobl neu olygfeydd) y gallem fenthyg ar gyfer eu cynnwys.

Buasem yn ofalus iawn o bob llun, ac er na allwn dalu am fenthyg y lluniau, rhoddir copi am ddim o'r llyfr i berchennog unrhyw lun a ddefnyddir.

Os oes posib, mae angen y lluniau erbyn diwedd Ebrill. Gellir eu gyrru i: Mei, Penygroes, Caernarfon.

Diolch yn fawr.

Yn gywir, ar ran *Cyhoeddiau Mei*,
Dafydd Meirion.

# RHODDION

Diolch i'r canlynol am eu rhoddion tuag at gostau cynhyrchu'r Eco.
£5 Di-enw Waunfawr
Mr. a Mrs. Neville Roberts, 1 West Ave., Bryn Newydd, Prestatyn.
Mr. E.J. Owen, Falmouth, 'Llongyfarchiadau ar gyrraedd y cant!'
£4 Mrs. Jenny Williams, Cil-y-Don, Borth y Gest, Porthmadog.
£3.50 Mr. a Mrs. Moi Parry, Canada
£3.00 Mr. a Mrs. O.W. Humphreys, Gwastadnant, Nant Peris
£3 Mr. Meurig Owen, Llundain
Dorothy a Gwenda Roberts, Maude Street, Y Rhyl, (ynghŷd â'u chwiorydd, Mabel, Mary, Elsie a Katie)
£2.50 Mrs. h.o. owen, Plwmp, Llandysul
Mrs. McCarthy, Childwall, Lerpwl
£2 Mr. Ronnie Ll. Williams, Caerlŷr
Miss Emily Huws, Caeathro
Linda a Nigel, 12 Stryd Turner, Llanberis
Di-enw
Di-enw
Mrs. Megan Morris, Minffordd, Dinorwig
Mrs. Mair Jones, 8 Victoria Street, Caernarfon.
Mr. a Mrs. G. Owen, 46 Maes Padarn, Llanberis
Mr. Sion Roberts, 46 Rhydfadog, Deiniolen
Mrs. Mary Price, Porth y Gogledd, Deiniolen
Mrs. J. Eirlys Williams, 3 Pentre Helen, Deiniolen

*(Parhad ar dudalen 5)*

# CYFARFOD CYNTAF CYMDEITHAS HANES BRO ECO'R WYDDFA

Ar nos Fercher, 17 Ebrill, cynhelir cyfarfod cyntaf Cymdeithas Hanes Bro Eco'r Wyddfa, yn Narlithfa foethus Oriel Eryri, Llanberis. Y gŵr gwadd yw Dr. Maldwyn Thomas, Bangor a fydd yn sgwrsio ar 'Ddiwylliant Bro'. Gŵyr pawb a glywodd Maldwyn Thomas na cheir mo'i ddifyrrach – felly dewch yn llu i'r Gymdeithas Hanes gael cychwyn da.

Bydd y Gymdeithas yn cyfarfod yn rheolaidd bob trydydd nos Fercher ymhob cwr o'r Fro. Dyma raglen y flwyddyn gyntaf hyd at Fawrth 1986:

**Ebrill 17 Oriel Eryri Llanberis 7.30 p.m.**
Darlith Dr. Maldwyn Thomas, 'Diwylliant Bro'

**Mai 15 Ysgol Gynradd Llanrug 7.30**
Noson Gymdeithasol a Chyfarfod Cyffredinol yng ngofal Dafydd Whiteside Thomas.

**Mehefin 19 Taith Hanesyddol** gan orffen gyda Bwyd Basged a Sgwrs. Cychwyn oddeutu 6.30p.m.

**Gorffennaf Awst - Gweithgaredd Pentref** i'w drefnu o fewn pob pentref gan aelodau'r Gymdeithas. Cewch syniadau yng nghyfarfod mis Mai.

**Medi 18 Y Ganolfan Waunfawr 7.30**
Darlith gan ŵr adnabyddus (na cheir mo'i enwi nes iddo gadarnhau ei fod yn dod!)

**Hydref 16 am 7.15 p.m. Ymweliad ag Archifdy Gwynedd, Caernarfon** yng nghwmni Gareth Haulfryn Williams, i weld y casgliad archifau a dysgu sut i fynd ati i hel gwybodaeth

**Tachwedd 20 Y Ganolfan, Deiniolen 7.30 p.m.**
Cwis a sleidiau 'Pwy sy'n Adnabod Cymru?' gyda Mrs. Mary Vaughan Jones, Waunfawr.

**Rhagfyr 18 Swper Nadolig** a sgwrs ar 'Draddodiadau Nadolig' gan John Owen Huws, Waunfawr (naill ai yn Llanberis neu Lanrug yn dibynnu ar y nifer)

**Ionawr 15, 1986 am 7.30 p.m. Canolfan yr Ysgol, Cwm y Glo**
Noson yng nghwmni'r aelodau yn cael ei llywio gan Arwel Jones. Y syniad yw fod pawb sy'n dymuno (ac ni fydd gorfodaeth) yn cyflwyno sgyrsiau byr 5 neu 10 munud ar bwt o ymchwil a wnaethant dros y gaeaf, (a sbardunwyd efallai gan yr ymweliad a'r Archifdy ym mis Hydref.)

**Chwefror 19, 1986 7.30 p.m. Ysgol Gynradd, Bethel**
Olrhain Achau gydag Iwan Roberts, Llanrug, Swyddog Prosiect gyda Chymdeithas Hanes Teuluoedd Gwynedd.

**Mawrth 19, 1986 7.30 p.m. Oriel Eryri, Llanberis**
Dafydd Roberts, Amgueddfa Lechi Gogledd Cymru ar destun yn ymwneud â'r Chwarel.

I'r rhai sydd heb ymaelodi eisoes bydd ffurflen bwrpasol ar gael yn y cyfarfod cyntaf. Serch hynny byddai'n hwyluso gwaith cryn dipyn pe bai pawb sydd â diddordeb **yn llenwi'r ffurflen isod a'i hanfon ar unwaith at yr Ysgrifennydd neu'r Trysorydd.** Mi gewch chithau wedyn gerdyn aelodaeth drwy'r post, a anfonir cyn gynted ag y bydd rhaglen y flwyddyn yn gyflawn.

Cofiwch felly'r dyddiad – 17 Ebrill am 7.30 p.m. Oriel Eryri, Llanberis. Dewch yn llu i greu hanes eich hun drwy fod yno yn y cyfarfod cyntaf oll.

**CYMDEITHAS HANES BRO ECO'R WYDDFA**

ENW/ENWAU: ....................................................

....................................................

....................................................

CYFEIRIAD: ....................................................

....................................................

....................................................

RHIF FFÔN: ....................................................

Dymunaf/Dymunwn ymaelodi â'r Gymdeithas uchod. Amgeuir tâl priodol, sef:-

Teulu (Rhieni a'u plant mewn addysg llawn amser) – £5
Oedolyn (mewn gwaith llawn amser) – £3
Henoed, myfyrwyr, disgyblion ysgol, rhai heb fod mewn gwaith llawn amser – £1
Sieciau yn daladwy i 'Cymdeithas Hanes Bro Eco'r Wyddfa'.

Anfoner at:- Ysgrifennydd Cymdeithas Hanes Bro Eco'r Wyddfa, Bedw Gwynion, Ffordd Glanffynnon, Llanrug, neu'r Trysorydd, Cyndeithas Hanes Bro Eco'r Wyddfa, Moss Bank, Llanberis.

# 'PAN RWYGA'R LLEN'



'Pan Rwyga'r Llen yw teitl drama newydd o waith y cyn-weinidog o Gastell Newydd Emlyn, T. James Jones: drama wedi ei seilio ar gefnlen y traddodiad crefyddol yma yng Nghymru. Drama y Groglith a'r Pasg yw hi, ac nid cyd-ddigwyddiad yw ei bod yn teithio o gwmpas theatrau a chanolfannau yng nghyfnod y Grawys.

Y mae T. James Jones – neu Jim Parcnest i'r rhan fwyaf o bobl – yn falch iawn o'r ffaith mai fe roes ddau o brif actorion y ddrama ar lwyfan yn gyntaf: Sharon Morgan yn 'Hollti Blew' a Huw Ceredig yn ei gynhyrchiad o 'Wrth Aros Godot'. Yn ngeiriau Elan Closs Stephens, y mae'n ddrama sy'n:
'gymysg oll i gyd o dristwch a doniolwch – fel ninnau'

Nid yw'n addas i blant dan bymtheg oed, ond cred y cwmni y bydd ei gwylio yn brofiad go ysgytwol i bob oedolyn.

Gellir gweld 'Pan Rwyga'r Llen' yn ein hardal ni yn:
Theatr Gwynedd ar Mawrth 28, 29 a 30.

## PRISIAU UWCH

Byddwch chwi ddefnyddwyr bysus Crosville yr ardal yn gorfod talu'n ddrytach am bris tocyn o ddiwedd y mis hwn. Byd prisiau y cwmni yn codi 6 y cant ar gyfartaledd. Codiad mewn costau oherwydd chwyddiant (beth arall!) sydd yn cael y bai.

**Seindorf Arian Deiniolen yn 150 oed**

**Cyngerdd Dathlu**
yn
Eglwys Ebeneser, Deiniolen ar Ebrill 19, 1985 am 7 o'r gloch


Awdurdod Datblygu Cymru

**A ydych chi mewn busnes?**
**A ydych chi'n meddwl cychwyn ar eich pen eich hun?**

**Mae Uned Diwydiannau Bychan yr Awdurdod yma i'ch helpu i fod yn llwyddiannus.**

**Fe gewch gyngor gan arbenigwyr profiadol ym mhob agwedd o redeg busnes. Yr ydym wedi dysgu sut i ddewis y ffordd orau i lwyddo ac yn gwybod am yr anawsterau.**

**Gallwch fanteisio ar ein cysylltiadau niferus gyda mudiadau eraill sydd yn awyddus i'ch cynghori, ac mae benthyciadau ar log isel ar gael i rai mathau o weithgareddau.**

**Mae eich swyddfa leol ym Mangor. Cysylltwch â ni i drefnu cyfarfod gydag un o'n cynghorwyr; cewch drafod eich syniadau a'ch gofynion yn rhad ac am ddim.**

Uned Diwydiannau Bychan,
Awdurdod Datblygu Cymru,
Llys Garth, Ffordd Garth,
Bangor. Ffôn: Bangor 352606

Welsh Development Agency

# BETHEL

**Gohebydd: Geraint Elis, Cilgeran (Portdinorwig 670726)**

YR YSGOL FEITHRIN – Cynhaliwyd noson o 'Gawl a Chân' yn y Neuadd Goffa nos Fercher Mawrth 6 tuag at yr Ysgol Feithrin. Roedd yn noson lwyddiannus iawn, fe hoffem ddiolch yn fawr iawn i Ann Hopcyn, Glenys Griffiths a Chôr Merched y Wawr, am eu cyfraniad i'r noson. Enillydd y ddwy raffl oedd Caryl, Stad Eryri, a Mair Williams, Y Ddôl. Mae Cyfarfod Cyhoeddus gan yr Ysgol nos Fercher, Ebrill 17 yn y Neuadd Goffa am 8 o'r gloch. Mae Disco i blant bach Ysgol Feithrin ac Ysgol Gynradd Bethel nos Fercher Ebrill 3 am 6 o'r gloch yn y Neuadd Goffa, mynediad 20c. Mae cystadleuaeth ar y noson i unrhyw blentyn i addurno het basg. Dewch atom ni i gael tipyn o hwyl.

Y Calendr:
Ebrill 3 – Disgo yn y Neuadd am 6.
Ebrill 17 – Cyfarfod Cyhoeddus am 8 yn y Neuadd.
Mai 1 – Bingo – yn y Neuadd Goffa am 8.
Mehefin 8 – Taith Gerdded i ben yr Wyddfa.



*Ann Hopcyn yn diddori'r gynulleidfa yn Noson Gawl a Chân yr Ysgol Feithrin.*

DIOLCH – Dymuna Mrs Eirlys Hughes, Siabod, Tanycae, ddiolch yn fawr iawn i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am bob caredigrwydd a ddangoswyd tuag ati tra yn Ysbyty Gwynedd ac ar ôl dod adref.

DIOLCH – Dymuna Hywel a Phylis Owen, 18 Cremlyn, ddiolch i'r holl gymdogion, ffrindiau a phawb am y cardiau, anrhegion a dymuniadau da ar ddathliad eu priodas arian ar Fawrth 5.

DIOLCHIADAU – Dymuna Eurwen a Bethan ddiolch yn fawr i bawb a fu yn holi amdanynt ar ôl y ddamwain, a hefyd diolch i'r Heddlu, Ambiwlans a staff Ysbyty Gwynedd a Glan Clwyd.

CAPEL Y CYSEGR – Ddydd Mawrth, Chwefror 19 cyfarfu Cyfarfod Misol Henaduriaeth Arfon yn y Cysegr. Yng nghyfarfod y prynhawn, cafwyd adroddiad ar waith Eglwys Gymunedol Noddfa a hefyd hanes yr Achos yn y Cysegr.

Roedd cyfarfod y nos yn agored i'r cyhoedd pryd y cafwyd anerchiad diddorol iawn ar yr Ysgol Sul gan Rheinallt Thomas, Llanfairpwllgwyngyll.

EISTEDDFOD YR URDD – Bu aelodau o'r gangen yn brysur eto eleni yn paratoi at yr Eisteddfod. Daeth y Côr Adrodd o 12-15 oed yn gyntaf yn y cylch ac yn 3ydd yn yr Eisteddfod Sir. Llongyfarchiadau iddynt hwy, hefyd i Meinir Williams a lwyddodd wrth chwarae'r piano, adrodd a deuawd.

Cafodd Côr Adran dan 12 oed lwyddiant hefyd. Mae'n diolch yn fawr iawn i Mrs Glenys Griffiths a Mrs Rita Williams am yr oriau o waith yn hyfforddi'r plant.

Pob lwc i blant Bethel sydd yng nghôr dan 15 Ysgol Brynrefail a'r Parti Canu Deulais fydd yn cystadlu yng Nghaerdydd ym mis Mehefin.

LLONGYFARCHION i Mr. a Mrs. John Roberts, 'Rhos', ar ddathlu eu priodas Ruddem. Cafwyd swper i'r teulu a ffrindiau ym 'Mhlas Menai' i ddathlu yr achlysur.

LLONGYFARCHIADAU i Aled Jones, Y Fachell, ar ddod yn ail yn y ras nofio dull broga dan 15 oed mewn cystadleuaeth a drefnwyd gan yr Urdd.

DALIER SYLW – Rhoddir sylw ar y dudalen llythyrau i beryglon ynglŷn â beiciau modur yn gyrru trwy ran o'r pentref. Chwi yrrwyr beiciau modur, gwnewch sylw o'r apêl.

Y NEUADD – Gyda chost rhedeg y Neuadd yn cynyddu bob dydd, penderfynwyd trefnu Clwb Cant yn y pentref i gasglu arian. Bydd manylion am y cynllun yn cael eu dosbarthu o dŷ i dŷ gyda hyn.

Erfynnir ar i bawb gefnogi'r fenter newydd yma, a wyddoch chi ddim, efallai mai chi fydd yn lwcus!

Y CARNIFAL – Cafwyd noson goffi lwyddiannus yn y Neuadd nos Wener, Mawrth 15. Dewiswyd Anwen Jones, 16 Tan y Cae yn Frenhines am eleni, ac Eirian Wyn Hughes, Ysgoldy yn forwyn. Enillwyr y raffl oedd Mrs Gwyneth Jones, Fachell a Mrs Jones, Bryn Banon. Am ddyfalu faint o bys mewn pot, yr enillydd oedd Anthony Owen, 23 Bro Rhos. Hoffai'r Pwyllgor ddiolch i bawb.

Ar ôl dechrau braidd yn araf mae trefniadau'r Carnifal yn mynd ymlaen yn hwylus. Penderfynwyd cynnal carnifal wythnos unwaith eto gan ddechrau gyda Chymanfa nos Sul, Gorffennaf 7 a gorffen gyda'r Carnifal ddydd Sadwrn Gorffennaf 13.

EISTEDDFOD SIR YR URDD – Llongyfarchiadau i Manon Williams ar ddod yn 3ydd yn y gystadleuaeth Adrodd dan 19 oed. Daeth y Côr Adran dan 12 oed yn gyntaf. Pob lwc i'r côr yng Nghaerydd.



## YSGOL FEITHRIN YN DATHLU GŴYL DDEWI



*Cyflwyno blodau i Mrs. Glenys Griffith a Mrs. Ann Hopcyn gan un o enethod yr Ysgol Feithrin, yn dilyn cyngerdd i godi arian i'r Mudiad.*

## DATHLU PENBLWYDD MERCHED Y WAWR



*Swyddogion a chyn-swyddogion Cangen Merched y Wawr yn dathlu eu penblwydd yn ddeg oed.*

**BILL ac EILEEN GRIFFITHS**



**Antiques**
**Ivy Cottage**
**BETHEL**
*Ffôn:*
*Y FELINHELI 670556*

**PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU**
*Telir prisiau da*
*Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol*




**STRYD FAWR, DEINIOLEN** Ffôn Llanberis **871210**
**Crefftau llechi**: arlunwaith, clociau, calendrau, raciau llythyrau ac ati. Hefyd **crefftau lleol eraill:** crochenwaith, gwaith coed, blodau addurnol.
**Arddangosfa o hen luniau chwarel.**
HEFYD YN SIOP
**FFYN A CHERRIG**
**STRYD FAWR, LLANBERIS**

# SIBRYDION O'R YSGOLION

## YSGOL BRYNREFAIL

Eisteddfod Sir yr Urdd
Ar Sadwrn, Mawrth 16, cynhaliwyd Eisteddfod Sir yr Urdd yn Ysgol Dyffryn Nantlle, Pen y Groes. Roedd cynrychiolaeth dda o'r Ysgol yno, a rhaid llongyfarch pawb a fu'n cystadlu. Cydymdeimlwn â'r Parti Bechgyn a fethodd â dod i'r llwyfan, ond dywedwn da iawn wrth y canlynol:-

Unawd Merched: 3ydd Ffion Williams
Deuawd: 3ydd Ffion Williams a Meinir Williams
Parti Cerdd Dant: 3ydd
Parti Adrodd: 2il
Parti Adrodd i Gyfeiliant: 2il

A'n llongyfarchiadau gwresog a phob dymuniad da i'r sawl fydd yn ein cynrychioli yng Nghaerdydd ym mis Mai, sef Graham Williams, cyntaf ar yr Unawd Pres, a'r Parti Merched a'r Côr a ddaeth hefyd yn gyntaf.

Hoffem longyfarch a diolch i Mrs. Megan Roberts, Mrs. Carys Jones a Mrs. Esyllt Maelor Jones am eu gwaith caled yn hyfforddi'r cystadleuwyr.

YMRYSON SIARAD CYHOEDDUS – Cynhaliwyd Ymryson Siarad Cyhoedus yn yr Ysgol, dydd Llun, Mawrth 18. Rhan ydoedd o gystadleuaeth Areithio i Ysgolion Uwchradd ar gyfer Eisteddfod yr Urdd yng Nghaerdydd eleni. Y beirniad oedd Mr. Gareth Evans, Prifathro Ysgol Bro Myrddin, Caerfyrddin. Y mae tri ar ddeg o dimau wedi cystadlu eleni – ac y mae Mr. Evans yn teithio o amgylch Cymru i wrando ar bob un.

Wedi clywed Ysgol Dyffryn Nantlle yn areithio yn y prynhawn, clywodd dimau o Ysgol Brynrefail ac Ysgol Syr Huw Owen gyda'r nos.

Yn cynrychioli tîm Ysgol Brynrefail A roedd Bethan Jones, Manon Williams ac Einir Parri oedd y gadeiryddes. Eu testun hwy oedd 'Ai diwedd y gân yw'r geiniog?'

Siaradodd yr ail dîm o Brynrefail ar y testun dadleuol, 'Bwchadanas ynte Boy George?' Yn areithio roedd Dafydd Maredudd a Stuart Willilams, a Dewi Lewis yn cadeirio.

Beth bynnag fydd dyfarniad Mr. Evans, cawsom noson ddifyr iawn, ac ymhen blwyddyn neu ddwy, bydd siaradwyr o fri yn Ysgol Brynrefail! Llywydd y noson oedd Mrs. Esyllt Maelor Jones.

Cyfarfod Traws Gwlad Ysgolion Cymru
Dewiswyd pedwar o fechgyn yr ysgol i fynd i gystadlu yn y cyfarfod yma yng Nghaerdydd ar yr 2il o Fawrth. Roedd tua wyth deg o redwyr ymhob adran. Paul Grant (Llanrug) wnaeth orau drwy ddod i mewn yn 17eg yn y ras dan 15 oed. 30ain oedd Paul Prydderch (Llanberis) yn yr un ras. Yn y ras dan 17eg oed roedd Mathew Ward (Llanrug) yn 35ain a Russell Williams (Caernarfon) yn 45ain.

PEL DROED
Llangefni (gartref)
Bechgyn hŷn – cyfartal 1-1
Dan 15 – ennill 3-0
Dan 14 – cyfartal 1-1
Coleg Glynllifon (gartref)
Ysgol Brynrefail 5 – Coleg Glynllifon 3
Rownd Gyn-Derfynol Cwpan Ivor Tuck
(Cwpan Ysgolion Cymru)
Coleg Kelsterton 6 – Ysgol Brynrefail 4

Colli a fu hanes bechgyn hŷn yr ysgol yn y rownd gyn-derfynnol ond roedd hwn yn berfformiad canmoladwy dros ben gan y bechgyn. Mae'n rhaid cofio fod yr ysgol wedi colli mewn cystadleuaeth gwpan yn gynharach yn y tymor o 8 gôl i un yn erbyn Coleg Kelsterton.

Ar ôl pum munud o'r ail hanner, roedd y bechgyn dair gôl i lawr ond roeddynt wedi methu tri chyfle da i sgorio eu hunain yn yr hanner cyntaf ac ail gôl y coleg, hyd yn oed ym marn eu hathro eu hunain, wedi ei sgorio gan chwaraewr a oedd yn camochri pan dderbyniodd y bêl.

Yn sicr roedd pethau'n edrych ar ben i'r ysgol pan ddaeth cyfnod mwyaf anhygoel y gêm. O fewn chwarter awr roedd y bechgyn wedi sgorio bedair gwaith drwy Steven Owen, dwy waith, ac Iestyn Jones a Martin Williams i fod ar y blaen 4-3.

Yn chwarter awr ola'r gêm fe brofodd cryfder a medrusrwydd bechgyn y coleg yn ormod i'r ysgol ac hefo'r blinder yn amlwg mewn rhai coesau, yn enwedig yn yr amddiffyn fe sgoriodd y coleg dair gwaith yn hwyr yn y gêm i selio pethau. Er hynny, gêm fythgofiadwy a fydd yn destun siarad ymŷsg y bechgyn hŷn yn yr ysgol am flynyddoedd.

Mae Coleg Kelsterton felly, wedi rhoi'r ysgol allan o ddwy gystadleuaeth gwpan eleni. ('Anheg' ydi barn llawer o athrawon fod y Colegau Technegol a'r Colegau 6ed dosbarth yn cael chwarae yn yr un cystadleuthau â'r ysgolion) Mae hwn, fodd bynnag, wedi bod yn dymor llwyddiannus iawn ar y cyfan hefo'r bechgyn yn bencampwyr Gwynedd ac heb golli yn erbyn yr un tîm ysgol.

## "CELWYDD"

Dyma gyflwyniad diweddaraf Theatr Bara Caws – a berfformir yn Neuadd Ysgol Brynrefail ar Ebrill 16. Math ar fiwsical ydyw, gan Cefin Roberts a Falmai Jones, sy'n ymdrin â sefyllfa bresennol y Theatr Gymraeg. Cofwich y dyddiad: dyma'r unig berfformiad o fewn cyrraedd cymharol hwylus i bobl Bro'r Eco. Ymhlith yr actorion mae Sioned Mair, Bryn Fôn a Gillian Elisa Thomas.

Gwyliwch y posteri yn y siopau am ragor o fanylion.

# NANT PERIS

**Gohebydd: Mrs J.E. Ellis, 8 Glanrafon, (870733)**

DYDD GWEDDI – Cynhaliwyd Dydd Gweddi Byd-eang y chwiorydd yn Rehoboth dydd Gwener Mawrth 1. Cymerwyd yr arweiniad gan Mrs Myfanwy Thomas a chymerwyd rhan gan chwiorydd Rehoboth ac Eglwys Sant Peris.

GWELLA – Wedi cyfnod o bryder mawr am iechyd Mr O.W. Humphreys, Gwastadnant, yr ydym yn falch iawn o'i groesawu yn ôl gartref wedi triniaeth lawfeddygol ar ei galon yn Ysbyty'r Heath, Caerdydd. Dymunir iddo adferiad llwyr yn fuan.

CYDYMDEIMLAD – Estynnir ein cydymdeimlad llwyr â Mrs Florence Williams, Terfyn a'r teulu yn eu profedigaeth o golli chwaer yn ddiweddar.

LLONGYFARCHIADAU i Neil Price, Glyn Peris, ar ei ben-blwydd yn ddeunaw oed.

DIOLCH – Dymuna Owen W. Humphreys, Gwastadnant, ddiolch yn gynnes iawn, i'w deulu, cymdogion a'i ffrindiau yn ardal yr Eco, am eu cardiau, anrhegion a phob caredigrwydd a gafodd tra bu yn yr ysbyty yng Nghaerdydd, ac wedi iddo ddod adref.

# BRYNREFAIL

**Gohebydd: Dafydd Ellis, Gweledfa (871223)**

CYDYMDEIMLAD – â Miss Blodwen E. Owen, 2 Tai Orwig ar farwolaeth ei chwaer, Mrs. Grace Olwen Danadian, a fu farw ar ôl cystudd hir a blin. Roedd yn ferch i'r diweddar Mr. a Mrs. Morris Owen, Brynrefail, a bu'n byw yn Grappenhall, ger Warrington am dros 44 o flynyddoedd. Gedy ferch a mab-yng-nghyfraith, a thair wyres – Emma, Charlotte a Sophie, sy'n byw yn Southampton. Ein cydymdeimlad â'r teulu oll yn eu profedigaeth.

LLONGYFARCHIADAU – i Ceris Williams, gynt o 3 Tai Orwig, ar ei lwyddiant yn ennill gradd D.Phil Prifysgol Rhydychen. Mae hyn yn dilyn ei lwyddiant cynharach yn cael graddau B.Sc. yn Aberystwyth ac M.Phil yn Rhydychen.

Mae Ceris, sydd yn 27 oed ac yn briod, yn gweithio fel economegydd gyda Sefydliad Henley yn Llundain.

GWASANAETH DERBYN A BEDYDDIO
– Yn ystod y gwasanaeth yng Nghapel Brynrefail M.C., bnawn Sul, Mawrth 10, fe dderbyniwyd wyth o bobl ifanc yn gyflawn aelodau o'r Eglwys, sef Meinir Jones, Alwen Jones, Eluned Roberts, Jacqueline Walters, Noel Walters, Niel Roberts, Richard Ellis ac Arfon Evans. Derbyniodd pob un Destament Newydd yn rhodd gan yr Eglwys.

Yn ogystal bedyddiwyd dau blentyn, sef Dion Sion, mab Mr. a Mrs. John Owen, Bryn Garth a Rhian Elisabeth Ann Owen, merch Mr. a Mrs. Bleddyn Owen Tros yr Afon, a dau o'r bobl ifanc, sef Meinir Jones ac Arfon Evans.

Uchafbwynt y gwasanaeth oedd gweinyddu y Cymun Sanctaidd gan y gweinidog y Parch John Morris. Yr organyddes oedd Miss Lowri Prys Roberts.

GWASANAETH YR ANABL – Cynhaliwyd cyfarfod arbennig gan Ieuenctid Capel Brynrefail M.C. ar bnawn Sul, Chwefror 24 ar y thema 'Yr Anabl'. Roedd y bobl ifanc yn awyddus iawn i gymryd rhan yn y gwasanaeth hwn ac yn falch o'r cyfle i bortreadu anghenion ac anawsterau'r anabl yn y gymdeithas. Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan Meinir Jones, Alwen Jones, Eluned Roberts, Jacqueline Walters, Niel Roberts, a'r Parch John Morris. Cyfeiliwyd gan Mrs. Heulwen Evans.



## RHODDION

£1 Mr. P.W. Williams, Corby, Northants
Di-enw, Llanberis
Mrs. Enid Lloyd Roberts, 56 Maes Padarn, Llanberis
Di -enw
Mrs. Marsli Mclouchlin, St. Helens
Dylan Trefor Lewis, 36 Rhydfadog, Deiniolen
Mrs. Nellie Hughes, 4 Gwyrfai Terrace, Deiniolen
Mr. a Mrs. G. Owen, Greenwich, Llundain (Tŷ Capel Disgwylfa, Deiniolen gynt)
50c. Mrs. Griffith, Dolanog, Llanrug.

### *MÂN HYSBYSEB*

Am y nesa peth i ddim i'r cyntaf i'w chludo ymaith – Soffa, lliw brown, 3 sedd.
Ffoniwch: Caernarfon 5605


**E.W. Pritchard**
**CENTRAL GARAGE**
**Llanberis**
Ffôn: 870202

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

# PENISARWAUN

**Gohebydd: Mrs. Ann Evans, Sycharth, Bryn Eglwys (Ffôn 872406)**

YSGOL TAN-Y-COED

YMWELIADAU – Yn Ysgol Cwm y Glo cafodd plant safon 3 a 4 wylio performiad gan gwmni Theatr mewn Addysg. 'Cadwyn Frau' oedd enw'r sioe a'r thema oedd y modd y gall dyn amharu ar gyd-bwysedd byd natur.

Yn Ffatri Clog, Clwt-y-Bont, cafodd y plant hynaf gyfle i weld yr offer dringo arbennig yn cael ei wneud. Hyderir iddynt gael amwer difyr ac addysgiadol yno. Diolch i Mrs. Avril Williams am helpu i gludo'r plant.

PEL DROED – Gêm yn erbyn Ysgol Cwm-y-Glo a'n hogia ni yn gwisgo'u dillad newydd sbon. Bu'r lliw oren llachar yn ddigon i ddallu hogia Cwm, oherwydd cawsom 4 gôl yn erbyn eu 2 hwy.

YR URDD– Ar Chwefror 27 daeth ymwelwyr arbennig iawn i'r ysgol, sef Mr. Arthur Rowlands a'i gi-tywys, Davy. Diddorol oedd gwrando ar Mr. Rowlands yn adrodd hanes ei gŵn – tri i gyd, y modd yr oeddynt yn cael eu hyfforddi i'w dywys o fan i fan yn ddiogel. Gwrandawai'r plant yn astud a'r labrador melyn yn gorwedd yn ufudd wrth ochr ei feistr.

Ar ddiwedd y sgwrs ddifyr cafodd y plant gyfle i holi Mr. Rowlands. Gofynwyd cwestiynau am Davy y ci, ei bwysau, ei oed a'i fwyd. Yn dilyn y cwestiwn am fwyd y ci gofynodd un bachgen bach beth a gâi Mr. Rowlands i fwyd, a'r ateb dysyn ffraeth oedd 'Rwbeth gâ'i, nhwas i, rydwi'n gwbod yn iawn lle mae ngheg i.'

Diolch i Mr. Rowlands a'i gi am bnawn cofiadwy. Ein diolch i Mrs. E. Jones am gludo Mr. Rowlands a Davy.

Noson o chwysu caled a gafwyd yn y Gampfa yng Nghaernarfon ar Fawrth 6. Bu'r bechgyn yn chwarae pêl droed, 5 bob ochr gyda Mr. Tony Eliot a Dafydd Evans, a'r genod yn mwynhau eu hunain yn chwarae pêl rwyd hefo Iola Jones, Elinor Williams, Mary Eliot, Elen Lewis, Elisabeth Jones ac Ann Evans. Diolch i Mary ac Elisabeth am wneud y trefniadau.

Mawrth 13 (nid 12) daeth Mr. Leslie Larsen i ddangos sleidiau o lefydd didorol a hanesyddol i'r plant. Dangoswyd lluniau bendigedig o'r mynyddoedd dan eira, Tre'r Ceiri, Bryn Gelli Ddu a'r llynnoedd o'n cwmpas. Diolch i chi Mr. Larsen am eich parodrwydd bob amser.

Mae plant Penisarwaun a phlant Cymru gyfan yn gwybod am lyfrau adar Mr. Islwyn Williams. Mawrth 20, daeth Mr. Islwyn Williams i'w hen ysgol i ddangos i'r plant sut mae'n mynd at i wneud y lluniau. Bu wrthi'n tynnu llun yr aderyn mwyaf lliwgar sydd gennym, sef Glas-y-Dorlan. Safai'r plant yn gylch o gwmpas a'u llygaid wedi eu heolio ar yr arlunydd medrus. Arwyddodd y llun a'i gyflwyno i'r ysgol. Diolch Islwyn am roi eich amser inni ac edrychwn ymlaen at eich nawfed llyfr 'Adar Prin', yn ystod Eisteddfod Genedlaethol y Rhyl.

Y mae tymor gweithgareddau'r Urdd yn dirwyn i ben yr wyhtnos nesaf gyda Helfa Drysor. Gobeithio y byd y tywydd yn ffafriol.

CAPEL BOSRA – NOs Fercher, Chwefror 27 am 6.30 o'r gloch yng Nghapel Bosra cynhaliwyd Dydd Gwedi Byd Eang y Chwiorydd dan ofal Mrs. Pat Larsen. Yr organyddes oedd Mrs. Nansi Jones a'r arweinydd oedd Miss Mair Foulkes. Anerchwyd eleni gan Mrs. Nant Roberts.

Daeth cynulleidfa deilwng a'r rhai a gymerodd ran oed Mrs. Pat Larsen, Eluned Jones, Bessie Williams, Eirlys Jones, Beti Hughes, Eluned Porter, Katie Williams, Mrs. Percy Williams, Eiriona Williams, Pat Jones, Phyllis Ellis, Elisabeth Jones, Nesta Jones, Betty Evans, Hazel Turner ac Ann Evans.

Bnawn Sul, Mawrth 17 aeth plant ac athrawon Ysgol Sul Bosra ac Eglwys Santes Helen i Ddeiniolen i Gapel Ebeneser. Yno cafwyd pnawn o 'Ganu'n Llon' – llond capel o blant yn canu a chlapio. Gwnaed casgliad at newynog Ethiopia. Diolch i Mrs. E. Jones am drefnu'r bws.

EGLWYS SANTES HELEN – Mawrth 17, sef Sul y Mamau, cafwyd gwasanaeth o Gymun Bendigaid. Rhoddwyd blodyn i bob plentyn a cherdyn i'w gyflwyno i'w mam am ei gofal tyner a di-ddiwedd. Diolch i Miss Mair Foulkes am ei charedigrwydd o brynu a pharatoi'r blodau.

Dyma drefn y gwasanaethau yn ystod Mis Ebrill:

Sul y Blodau – Mawrth 31 am 10.15 a.m.: Gwasanaeth y Palmwydd. Gorymdaith i ddechrau o 'Siop Gron'.

Dydd Gwener y Groglith – Litani a myfyrdod am 10.30 a.m.

Sul y Pasg – 10.00 Cymun

4.30 Gosber Cymraeg

Croeso cynnes i bawb i'r Gwasanaethau hyn.

CLWB YR HEULWEN – Ar Fawrth 20, cafwyd cyfarfod cyntaf y flwyddyn. Dymunwyd gwellhad buan i amryw oedd wedi bod yn wael. Llongyfarchwyd Mrs. K. Williams a Mrs. Rees Thomas ar fod yn hen nain eto. Cafwyd yr adroddiad blynyddol gan Mrs. K. Williams a diolchwyd i'r swyddogion am eu gwaith gan Mrs. J.P., Jones. Rhoddwyd y tê gan Mrs. J.May Jones a Mrs. P. Williams. Diolchwyd iddynt gan Mrs. B. Evans. Bydd y cyfarfod nesaf at Ebrill 16. Y gŵr gwadd fydd Mr. O.R. Williams, Dinorwig.

(Dyddiadur y mis hefyd)

EISTEDDFOD Y PENTREF – Cafwyd noson hwyliog iawn yng nghwmni Arwel Hogia'r Wyddfa, nos Wener, Mwrth 15, plant a phobl mewn oed yn morio canu yr hen ffefrynnau a rhai o'r henoed heini yn dangos y rhai iau i fyny wrth bedlo fel coblyn wrth ganu Hen Feic Penny Farthing. Cafwyd Cawl cennin poeth a thafell o fara ffres yn ystod yr egwyl. Diolch i Douglas ac Eric Jones am eu cyfraniad hwythau gyda'u gitarau. Enillwyr y raffl oedd 1. Eurgain Haf, 2. Mrs. Rowena Williams, Llwyn Derw. Gwnaed elw o dros £40. Diolch i bawb a helpodd i wneud y noson yn llwyddiannus. Mae testunau'r Eisteddfod ar gael yn awr gan yr ysgrifenyddes, Mrs. Carolyn Roberts, Pen Dinas Mawr. Prynwch a chefnogwch!

CYDYMDEIMLAD – Cydymdeimlwn â Miss Mair Foulkes, 3 Bryn Hyfryd o golli ei chefnder yn Sir Fôn. Hefyd, Mrs. Heddwen Hughes, Ty'r Ardd Waun, o golli ei thaid Mr. Robert Roberts, Bro Rhiwen, Rhiwlas.

LLONGYFARCHIADAU A DYMUNIADAU DA – Llongyfarchiadau i Mrs. Gwyneth Jones, Cae Hywel ar fod yn nain i Sion Rhys, mab Mr. a Mrs. Gwynfor Jones o Lanrug, ac i Mrs L. Williams, Cae Hywel ar fod yn nen nain.

Dymuniadau da i Mrs. Tom Wyn Griffith a'i fab Ieuan sy'n mynd i'r Eidal i weld bedd tad Mr. Griffiths a laddwyd yn y rhyfel cyntaf.

GWELLHAD – Gyda'r tywydd yn tyneru, dymunwn adferiad iechyd i bawb sydd wedi bod yn cwyno. Rydym yn falch o glywed fod Meirion Jones a Iorwerth Thomas yn brysur wella.

BINGO – Cofiwch am y Bingo yn Neuadd yr Eglwys, Ebrill 26, am 6.30 o'r gloch. Mynediad 25c. Oedolion; 10c plant. Ticed 25c – Yr elw at gronfa Neuadd y Pentref.

CLWB 100

Enillwyr y Mis

1. £18 Mrs M. Green, Glan Alaw

a. £12 Mrs R. Williams, Llwyn Derw

3. £7.50 Mr a Mrs P. Pritchard, 10 Llys y Gwynt

Cofiwch fod Ann Evans yn trio colli pwysau at Gronfa'r Neuadd – bydd yn falch o noddwyr!

# CEUNANT

LLONGYFARCHIADAU i John a Gwyneth Owen, Tyddyn Ni ar enedigaeth merch, Gemma Louise, ar 27 o Chwefror, 1985.

MARWOLAETH – Bu farw Miss Beryl Milligan, Gwynfryn ar y 18 o Chwefror. Bu'r angladd ym mynwent Llanrug ar Chwefror 21. Estynnwn ein cydymdeimlad â'i brawd John a'r teulu oll.

## YR HOGIA YN EU CRYSAU NEWYDD



*Tîm pêl droed ysgol Tan y Coed, Penisarwaun yn eu crysau newydd.*

# TAN-Y-COED

GWAELEDD – Y mae Mr. Michael Williams, Cartref, yn Ysbyty Gwynedd. Cofion ato a dymuniadau da'r fro iddo. Boed iddo adferiad iechyd buan.

MARWOLAETH – Mawrth 15 bu farw Mrs. Elizabeth Olwen Walburton, priod y diweddar Mr. John Edwin Walburton. Merch ydoedd i'r diweddar Mr. a Mrs. W.J. Williams, Cefn Llwyd a chwaer Mrs. Meira Pritchard, Garnedd a Mr. W.J. Williams, Prysgol. Estynwn ein cydymdeimlad â Mrs. Pritchard a Mr. Williams a'r teulu oll yn eu galar a'u hiraeth.

CAPEL TANYCOED – Pnawn Sul, Mawrth 17 yng Nghapel Tanycoed, a'r gweinidog yn gwasanaethu, derbyniwyd pedwar o ieuenctid yr eglwys yn gyflawn aelodau:

Gareth Lloyd Jones, Hafod Owen

Carys Lloyd Jones, Hafod Owen

Glenda Roberts, 1 Tai Minffordd

Hefina Roberts, 16 Glan Moelyn

Daeth cynulliad da ynghŷd i'r cyfarfod arbennig hwn ac estynnwyd croeso cynnes i'r ieuenctid.

Bu rhai o blant yr Ysgol Sul yn brysur iawn yr wythnosau diwethaf. Rhai yn paratoi ar gyfer Eisteddfod yr Urdd ac yn cystadlu yn Eisteddfod y Cylch ac Eisteddfod y Sir.

Safodd Lona Roberts, Annwen Parry, John Elwyn Jones, Aled Parry, Mark a Tudor Wyn Jones yr Arholiad Sirol a'r Arholiad Ysgrifenedig ar Fawrth 8 a'r 15.

Pnawn Sul, Mawrth 17, aeth Neelum Chohan ac Imran Chohan gyda phlant ysgolion Sul y cylch i Ŵyl yr Ysgol Sul yng Nghapel Ebeneser, Deiniolen.

Treuliodd Aled Parry, Tudor Wyn Jones, Mark Wyn Jones ac Imran Chohan ben-wythnos yng Nghanolfan Rhyd-Ddu o Fawrth 5ed i'r 7ed – y penwythnos wedi ei threfnu gan Bwyllgor Ymgynghorol Ysgolion Sul Arfon.

## CYMRU – LLOEGR

Bydd bws yn cychwyn o Lanrug ar ddydd Gwener, Ebrill 19 i fynd lawr i'r gêm ryngwladol yng Nghaerdydd ar Sadwrn, Ebrill 20fed. Dychwelyd o Gaerdydd dydd Sul.

Manylion gan Kevin Jones, Bro Rhyddallt, Llanrug neu Penbont.


AM DDEWIS HAEL A
GWASANAETH CYFEILLGAR
DEWCH I

**SIOP GRON**

**A SWYDDFA'R POST**

**PENISARWAUN**

**Ffôn:**

**Llanberis 871272**



CANOLOG I'R FRO

# ATGOFION CYNNAR AM ARDAL Y WAENFAWR

## (gan John Owen Harvey, Llangefni)

## "PAWB A'I BLESER"

Byddai fy modryb yn hoff iawn o Eisteddfod, Cyngerdd, Drama a Chyfarfod Pregethu ac oherwydd fy mod wedi cael byw gyda hi am flynyddoedd cyn y rhyfel diwetha, cefais fynd i lawer ohonynt yn gwmni iddi.

Unwaith, tra yn aros ar y fferm fechan Cae Sais, Rhosgadfan, aethom i gyfarfod pregethu Capel y Foel. I gyrraedd cofiaf droedio'r llwybrau troellog rhwng waliau cerrig y caeau bychain. Yna hyd ffordd gul a'r grug i'w weld ym mhobman, a phob cam yn dod a ni yn uwch ac yn nes at y Capel noeth a'r fynwent fechan yng nghesail y bryn. Yr oedd hi yn ddiwrnod braf a'r haul yn gryf drwy'r ffenestri. Gan ein bod wedi gwneud ymdrech i gyraedd ddigon buan cawsom le i eistedd yn un o'r seti canol. Y Pregethwr poblogaidd Tom Nefyn Williams oedd yn dod y tro yma. Ymhell cyn amser cychwyn y cyfarfod gwelwyd y capel yn orlawn, gyda phobol yn dal i gyrraedd, a dim lle idynt. Daeth meibion yr eglwys a meinciau, ond nid oedd hynny yn ddigon. Yn sŵn miwsig yr organ, cerddodd yr annwyl Tom Nefyn i mewn. Aeth i weddi, a chan droi at y gynulleidfa dywedodd

"Awn allan ar y mynydd, gyfeillion"

Cawsom bregeth rymus yn yr awyr agored – gyda darn o graig yn cymryd lle pulpud.

Cofiaf fod yn y cyngerdd cyntaf gan Gôr Telyn Eryri yng nghapel Croes-y-Waen o lwyfan o goed dros y sêt fawr. Dwy delyn hardd a'r parti yn canu'n swynol yn eu gwisgoedd Cymreig a'u hetiau du uchel. Dyna Delynores Eryri, sef y diweddar Miss Evans yn gadael y llwyfan ac yn dychwelyd wedi gwisgo fel cardotyn carpiog, a ffon yn ei llaw. Wrth ganu y gân, dyna dynnu pibell a'i thanio. Cafwyd chwerthin wrth i'r canu arafu weithiau a rhyw smalio peswch gymryd lle. Cafodd y rhan fwyaf eu plesio ond nid pawb – am 'fod smocio wedi bod yn Nhŷ Dduw' – dyna ddywedai rhai o'r aelodau hynaf.

Yn y Groeslon, sef y rhan uchaf o'r Waunfawr y caem noson arbenig i ffarlwelio a'r hen flwyddyn. Pentrefwyr o dri enwad yn cyd-gyfarfod yng Nghapel yr Annibynwyr. Byddai swper i ddechrau yn y festri dros y ffordd, a phawb yn gadael y byrddau ar ôl bwyta i wneud lle i eraill. Yna i'r Capel a mwynhau cyngerdd o ganu ac adrodd am oriau. Cofiaf y cymeriad cynnes William Roberts yn canu unawd 'Y Gardotes Fach' a'i frawd, 'Crudd Bach Llanrug' yn cyfeilio, wyddoch chi, gwelais lawer llygad gwlyb wrth wrando ar y gân ddwys, a William bron yn ddall.

Gan fod Mr. a Mrs. William Roberts yn galw yn ein tŷ ni yn weddol reolaidd, ac yn ffrindiau, buan y cefais wybod am y piano oedd newydd gyrraedd o arwerthiant cyfagos.

"Rhaid i ti ddwad, John," meddai William wrthyf, "Tyrd i toi tiwn arni".

Wedyn rhaid oedd mynd, a dyna hwyl gawsom gyda'r pianos, organau a'r harmoniums. Oherwydd ei olwg gwael, byddai Mrs. Roberts yn gymorth mawr iddo i drwsio megin neu forthwyl piano.

"Beth am yr un fframn haearn yn y gegin", a ffwrdd a ni.

Cannwyll gan y wraig, ac un arall yn llaw modryb. Minnau yn ceisio chwarae alaw ar yr hen offeryn. Yn amal iawn, nid oedd pob nodyn yn hollol gywir ac yn amal byddai nodau yn fud. Rhaid oedd brolio ychydig cyn myned i ystafell arall at organ – a chwarae emyn dôn. Hono yn gwichian wrth i mi geisio cael fy nhraed i chwythu y fegin.

Un noson, cawsom fynd draw i Festri'r Waun i gyfarfod o'r Gymdeithas. Pwnc y noson oedd 'Storiau Bwgan'. Coeliwch fi, roedd y Festri fawr yn llawn o bobl y pentref, ac mae'r ystafell yna gymaint a llawer capel. Nid oedd trefn arbennig i'r cyfarfod, dim ond galw ar un aelod ymlaen i gychwyn – a dyna'r noson yn mynd yn ei blaen o nerth i nerth. Stori am ysbrydion, a llu o bethau rhyfedd welwyd, neu a glywyd dros y blynyddoedd. Mae'n siwr fod llawer menyw wedi troi ei phen yn ôl wrth gerdded adref trwy'r tywyllwch y noson honno.

Mae rhai sy'n cofio, yn bendant, mai y *brough Superior* oedd un o'r beics modur mwyaf wnaed erioed. Cofiaf weld un yn y 'Waun a'r fflamau yn dod allan o'r tu ôl wrth i'w berchenog ei yrru yn wyllt drwy'r pentref. Hyn, wrth gwrs, yn cymryd lle cyn amser y 'tri-deg-milltir-yr-awr'. Dyna oedd pleser mawr hogia ifanc. Cael gweld y gwahanol fathau o feics, a dwad i wybod pwy oed perchenog un newydd. Gwelais lawer dyn yn fedrus dros ben wrth dynnu peiriant yn ddarnau ac wedi'r trwsio a'r glanhau, yn ei roi yn ôl, ie, a'i gael i fynd.

Pleser rhywbeth yn debyg i rai fel fi oedd cael beic cyffredin, ac felly yn rhydd i fynd i unrhyw ran o'r ardal i chwarae. Ardal fawr, ar wasgar, uw y 'Waun a druan o'r bachgen os nad oedd ganddo ryw fath o feic. Yn wir, i ddechrau, 'sgrag beic' oedd gan lawer ohonom, rhai wedi eu gwneud o ddarnau ac yn cynnwys weithiau olwynion, seti, neu hyd yn oedd ffrâm a rhannau o wahanol feics – i gyd wedi eu casglu ynhell ac agos.

Gyda'r nos, pleser rhai chwarelwyr fyddai mynd i gae yr ysgol a chwarae taflu pedolau. Nid oedd hyn yn costio ceiniog, gan fod digon o hen bedolau i'w cael am ddim.

Ond os byddai'r tywydd yn wlyb neuoer, y lle poblogaidd fyddai y cwt billiards. Yn wir, yr oedd ganddom ddewis, un gyda dau fwrdd yn perthyn i Non, a'r llall gydag un – yn eiddo i Guto Bach. Wrth chwarae yn erbyn ffrind am hanner awr, y gôst oedd chwe cheiniog. Fe welwyd un neu ddau o chwaraewyr da iawn, ond eraill ddim cystal. Y pleser i ni'r hogiau fyddai gwylio ac yna ceisio chwarae yn well ar fwrdd arall a thalu tair ceiniog am chwarter awr.

Gwneud barcud fyddai yn bleser arbennig gan hogiau'r ysgol. Rhaid oedd chwilio am asen hen ymbarel, a chael darn llathen ei hyd o goedyn tennau rhyw chwarter modfedd sgwar. Yna, clymu'r weiran yn gryf i ben y coedyn a chysylltu'r ddau ben gyda llinyn tenau i'r pen arall drwy blygu y weiran yn chwarter cylch neu lai. Rhoi y cwbl ar ddarn o bapur llwyd, cryf, a phlygu drosodd yr ochrau a'r pen – gyda phâst blawd. Ar ôl i bopeth sychu, rhaid oedd gwneud cynffon tua pedair troedfedd o hyd gyda llinyn a darnau o bapur newydd. Y cam nesaf oedd cael pellan fawr o linyn, hen neu newydd, yna rhedeg gyda'r bracud, a'i ddal i fyny yn erbyn y gwynt, – a ffwrdd a fo.

Bu tymor o ddiddordeb mewn paffio, ac ar fferm Harry Wyn y cymerai hyn le gyda'r nos, yn y gaeaf wrth olau lantern. Mewn twll sgwar oedd wedi dwad yn naturiol wrth dorri i'r gwair y gwelwyd cwffio caled. Cofiaf fod y ddau bar o fenyg lledr yn rhai mawr, a chafwyd llawer trwyn coch ar ôl y slap cynta.

Hel wyau adar gwylltion fu ar un adeg yn beth pleserus ymysg rhai o'r plant. Yn ystafell dosbarth y Prifathro, sef Mr. Pritchard, yr oedd cwpwrdd uchel gyda ffenestri bach gwydr iddo yn llawn o bob math o greiriau. Ynddo gwelsom ddarnau o gerrig a llechi, neidr mewn potel, a bocs wedi ei wneud yn bwrpasol i ddal wyau. Pan ddaeth yr amser i mi fynd i'r Ysgol Sir yn y dref, rhoddais fy wyau i'r Prifathro. Mae'n siwr fod y cwbl wedi mynd erbyn hyn. Nid yw cymryd ŵy o nyth yn beth i'w wneud yn awr. Fe gofiwch, un ŵy yn unig fyddai y rheol ymysg y plant – a neb i ddweud lle gwelwyd y nyth.

# CYFLE I GYFEIRIANNU

Cyfle i beth? Cyfeiriannu neu 'Orienteering' yw math o gamp sy'n weddol newydd i'r wlad hon, ond yn boblogaidd iawn yng ngwledydd Sgandinafia ers blynyddoedd. Yn syml iawn, cystadleuaeth ydyw sy'n gyfuniad o ddarllen map a rhedeg. Mae'n gamp y gellir ei mwynhau gan rai o bob oed, o blant ifanc i oedolion gweddol heini. Nid yw medru rhedeg yn gyflym yn hollol angenrheidiol, oherwydd mae meddwl chwim yr un mor bwysig! Mae'n debyg y gellir ei chymharu i helfa drysor ar frys!

Mae Canolfan Cyfeiriannu Gogledd Cymru yn awyddus i ddenu mwy o blant a phobl i gymryd rhan yn y gamp hon, ac i'r diben hwnnw, maent wedi trefnu cyfres o gystadleuthau i ddysgwyr yn ystod misoedd Ebrill a Mai. Mae croeso i unrhyw un â diddordeb fynychu'r canolfannau canlynol:-

Ebrill 16 – Coedwig Bryn Engan, Capel Curig
Ebrill 23 – Coedwig y Glyn, Capel Curig
Erbill 30 – Hafodgwenllian, Dolwyddelan
Mai 7 – Coedwig Bryn Engan, Capel Curig
Mai 14 – Coedwig y Glyn, Capel Curig
Mai 21 – Hafodgwenllian, Dolwyddelan

Bydd pob cwrs yn cael ei gynnal ar nos Fawrth, a rhaid cofrestru rhwng 4.30 a 5.00. Bydd y rasus yn cychwyn o 5.00 i 7.00, a'r cwrs yn cael ei gau am 8.00

Bydd tri chwrs gwahanol – yn ôl oedran a phrofiad y cystadleuwyr:-

1. Cwrs 'Llinyn' – llai na 1km – i rai dan 8 oed. Dilyn llwybr wedi ei farcio a darganfod rhai pwyntiau wrth fynd.
2. Cwrs 'Gradd Wen' – tua 1 - 1.5km – hawdd iawn. Dyma gwrs da iawn i ddechreuwyr o 8 oed i 80 oed! Nid oes angen unrhyw wybodaeth o ddarllen map.
3. Cwrs 'Gradd Oren' – tua 2-2.5km. Hawdd eto, ond mantais i'r rhai sydd â pheth profiad o gyfeiriannu neu ddarllen map.

Beth sydd ei angen arnoch? Dillad addas i gerdded neu i redeg. Beiro goch i gopio'r nodiadau am y cwrs. Bag polythene i ddal map. Dwy bin ddiogel (safety pin) i ddal cerdyn. Chwiban – rhag ofn mynd ar goll! Ni fydd angen cwmpawd.

aOs am fwy o fanylion am y cyrsiau uchod – sy'n costio 30c i rai dan 21 oed, a 50c i eraill (gan gynnwys map) – yna cysyllter â Issie Inglis, 9 Rhes James, Bethesda (Ffôn: (0248)601520)


LLEUFER O. ac N. PRITCHARD
CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR

AR AGOR
9-7pm
9-5pm Sadwrn
AR GAU
SUL,
MERCHER.

Ffôn 291



(yn ystod oriau agor)

GWLÂU SENGL O £39 I FYNY
GWLÂU DWBL O £75 I FYNY

DEWIS EANG O '3 PIECE SUITES'
O £200 i £800

LLENNI 'VENETIAN' A LLENNI 'ROLER'

5000 LLATHEN SGWÂR O GARPEDI MEWN STOC
– ALLWCH CHI FFORDDIO PRYNU O BATRYMAU?



CARPEDI GLÂN!
Mynnwch driniaeth
STIMVAK
gyda'r offer mwyaf modern, diweddaraf, sydd ar gael. Am fanylion cysylltwch â
TEGID PRITCHARD
CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR 291
Hefyd ail-osod carpedi

# LLANBERIS

**Gohebydd: Mrs Jane Roberts, 'Rallt Isaf, Ffordd Capel Coch, (Llanberis 871561)**

DIOLCH – Dymuna Avril ac Eifion, Glan y Don, Cwm-y-Glo ddiolch i'w perthnasau, cymdogion a'u ffrindiau am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur genedigaeth eu merch fach, Carys.

LLONGYFARCHIADAU – I Jan a David Horwman ar enedigaeth bachgen bach yn Ysbyty Dewi Sant, Bangor, dydd Sadwrn, Mawrth 16. Llongyfarchiadau hefyd i nain a taid, Meirion a Margaret, 45 Dol Elidir, Llanberis a Lily a John, Venice, taid a nain Llanrug.

SEFYDLIAD Y MERCHED – Cynhaliwyd cyfarfod mis Chwefror yng Ngwesty Padarn Lake, lle buom yn dathlu gŵyl ein nawddsant. Cafwyd gwledd ardderchog wedi ei darparu ar ein cyfer. Roed yr adloniant dan ofal Mrs. Katie Griffith a Mrs. Glenys Jones. Llywyddwyd y cyfarfod gan Mrs. Hannah Jones a darllenwyd y cofnodion a'u derbyn. Croesawyd aelod newydd i'n plith, sef Miss Kathleen Pritchard.

PENBLWYDD – Llongyfarchiadau i Andrew, mab Mr. a Mrs. Dennis Williams, 23 Stryd Fawr, ar ddathlu ei benblwydd yn 18 oed ar Fawrth 15.

PRIODAS – Yng Nghapel Nant Peris, bore Sadwrn, Chwefror 16 priodwyd Eifion, mab Mr. a Mrs. Hugh Jones, Dorlan Goch, Clwt-y-Bont, Deiniolen ac Ann, merch Marie a Meurig Evans, Llys Gwyn, Caernarfon ( gynt o Gift Shop - Stryd Fawr). Gwasanaethwyd gan y Parch Gwynfor Williams, a Mr. Aled Owen wrth yr organ. Daeth 130 o gyfeillion i'r wledd briodasol yng Ngwesty'r Fictoria a threuliwyd y mis mel ym Mharis.
Dymunir bob bendith ar y ddau ifanc.

YN GWELLA – Da iawn yw deall fod amryw o'r ardalwyr sydd yn wael yn eu cartrefi ac eraill yn yr ysbyty yn gwella, er yn araf. Dymunir iddynt oll adferiad llwyr yn fuan iawn lle bynnag y bont.
Dyma rai ohonynt:-Mrs. Myfanwy Davies, Stryd yr Wyddfa yng Ngobowen.
Mrs. Maggie Price, Stryd Siarlot – Cartref Bryn Seiont, Llanrwst.
Mrs. Annie Martin Owen, Stryd Newton yng Nghartref Ceris, Treborth.
Mrs. Dilys Roberts – Dakota
Mrs. Katie Williams, Derwen Deg
Mrs. Walker, 26 Stryd Goodman
Mr. Eddie Jones (Blaen y Ddol gynt) ym Mhlas
Mrs. Mary Grace Grifith, Maes Eilian

GOFALAETH EGLWYS – Deallir fod y Parch Gwynfor Williams, Stryd Newton wedi ymgymeryd a gofalaeth Eglwys Jerusalem (Annibynwyr). Bydded llwyddiant iddo i'r dyfodol.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL UNDEBOL – Bu aelodau y Gymdeithas uchod yn mwynhau eu cinio blynyddol yng Ngwesty Gwyned nos Iau, Mawrth 14.

MARWOLAETH – Yn Ysbyty Gwynedd ar Chwefror 28 bu farw John Rees Jones, London House. Mab i'r diweddar Charles Jones, Rallt Goch, Stryd Ceunant ydoedd. Ers y rhyfel diwethaf bu yn fregus ei iechyd, ond yn ddi-rwgnach, ac yn dawel iawn dioddefodd ei salwch blin ar hyd y blynyddoedd. Bu yn weithgar iawn yn yr ardal yn ystod y blynyddoedd , yn glerc i'r Cyngor Plwyf ac yn aelod gweithgar gyda'r Blaid Lafur lleol, ac yn wir barod ei gymwynas i bawb â'i ato am gyngor neu unrhyw gynorthwy. Trefnwyd yr angladd fore Iau, Mawrth 7fed gyda gwasanaeth yn y tŷ ac yna yn yr Amlosgfa ym Mangor
Cydymdeimlir â Menna ei weddw, a fu'n ffyddlon iawn iddo yn ei flynyddoedd o afiechyd, hefyd ei unig ferch, Margaret Rees.

Robert Ellis Williams
Ar ddechrau'r mis, bu farw Robert Ellis Williams, 6 Vaynol Cottages yn 73 oed. Ni fu mewn iechyd boddhaol ers amser maith, ond byddai yn mynd o gwmpas yma ac acw gyda'i briod yn y car. Aeth i weithio i Chwarel Dinorwig wedi gadael yr ysgol a gorffennodd ei yrfa yno fel un o'r goruchwylwyr. Cymeriad hoffus iawn ydoedd gyda gwen i bawb bob amser. Roedd yn weithgar iawn ar hyd y blynyddoedd yn Eglwys Sant Padarn.

Roedd yn hannu o un o deuluoedd hynaf a mwyaf yr ardal, yn fab i'r diweddar Ellis Williams, Stryd Goodman. Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol yn Eglwys Sant Padarn, gyda'r Parch Alan Hawkins yn gwasanaethu, ac yna gwasanaeth byr yn yr Amlosgfa ym Mangor.
Estynnir ein cydymdeimlad dwysaf a'i briod, hefyd y Parch Hugh Llewelyn Williams, ei frawd a'r teulu i gyd, a'i unig fodryb Mrs. Jennie Thomas sydd yn fyw heddiw allan o deulu mawr, un o deuluoedd hynaf yr ardal.

Mary Hughes
Yng Nghartref Pen Gwaith, bore Mercher, Mawrth 13, yn dawel bu farw 'Mair' fel yr adwaenai pawb hi, Stryd Thomas, a gynt o Newton Hall. Roedd yn 73 oed, ac wedi byw'r rhan fwyaf o'i hoes yn 'Hermon', Llanrug, ond wedi claddu ei thad symudodd ei mam a'i chwiorydd i fyw i Newton Hall, lle roedd ganddynt siop hwylus iawn. 'Siop Bop Peth'. Wedi claddu'i chwaer olaf, symudodd Mair i fyd i Stryd Thomas, ond dirywiodd ei iechyd a gorfu iddi symud i'r Cartref. Roedd yn hoffus iawn gan bawb yno ac yn barod ei chymwynas bob amser.
Trefnwyd yr angladd dydd Sadwrn, a chladdwyd hi ym Mynwent Llanrug gyda gweiniodg ei chapel, y Parch Trefor Lewis yn gwasanaethu.
Cydymdeimlir a Gwyn ei nai sydd wedi ymddeol o'i swydd gyda'r heddlu yn Llundain, ond wedi aros yno i fyw.



*Dosbarth Safon 5, Ysgol Dolbadarn, Llanberis 1957 gyda'u hathrawes, Miss Bessie Roberts, a'r prifathro, Mr. R.E. Jones. Anfonwyd y llun gan Mrs. Gillian Jones, Arial Wen, Llangefni.*

LLONGYFARCHIADAU – I Linda a Nigel, 12 Stryd Turner ar enedigaeth merch fach, Caryl Wyn. Wrth gwrs, mae nain a taid, Beryl a Gordon Owen, Maes Padarn a hefyd yr hen nain, Mrs. Enid Roberts, Y Fflatiau, wedi llwyr wirioni.

UNDEB Y MAMAU – Ar Fawrth 5ed, cynhaliodd y Parch Alun Hawkins wasanaeth y mis gyda aelodau Undeb y Mamau, Nant Peris a Sant Padarn. Mwynhawyd araith ddifyr iawn gan Mrs. Evans, y Rheithordy, Deiniolen, a diolchwyd iddi ac i'r chwiorydd fu'n gofalu am y te gan Mrs. Marian Roberts a Mrs. W.H. Parry. Cydymdeimlwyd â theulu y diweddar Mrs. Symmonds, Nant Peris, a dymunwyd adferiad buan i Mr. Owen Humphreys, Nant Peris. Rhoddwyd y te gan Mrs. Brinley Roberts, Mrs. Enfys Parry, Mrs. W.O. Hughes a Mrs. Phillips.

DATHLU GŴYL DDEWI – Yng Ngwesty'r Victoria, pnawn Iau, Mawrth 7fed, bu aelodau o Glwb yr Henoed yn dathlu Gŵyl Ddewi drwy fwynhau cinio ardderchog. Daeth dros gant o aelodau o'r aelodau ynghŷd, ond gorfu i rai fethu presenoli eu hunain oherwydd afiechyd. Croesawyd yr aelodau i'r cinio gan gadeirydd y Clwb – Meira B. Hughes, ac estynnodd groeso cynnes iawn i'r gwr gwadd – Y Rheithor lleol – Y Parch Alun Hawkins. Newydd yw'r Rheithor i'r ardal hon, ac roedd yn gyfle i'r pensiynnwyr ddod i'w adnabod, ac iddo yntau ddod i gysylltiad a'r aelodau.

Wedi'r ciniawa, cafwyd rhyw ddwy awr o adloniant hyfryd iawn. Daeth Mr. John Hugh Hughes, Prifathro Ysgol Dolbadarb a Mrs. Pierce, athrawes a 30 o'r plant ysgol i ddiddori'r pensiynnwyr, gyda chaneuon ac adroddiadau. Diolchwyd i'r plant a'r prifathro gan Mr. Ted Thomas, Pant On.

Trefnwyd adloniant 'Sion a Sian' dan arweiniad Mr. Cledwyn Jones, gyda aelodau o'r pwyllgor yn cymryd rhan, wedi gwisgo yn llwigar a doniol iawn.

Bu canu emynau yn dilyn dan arweiniad Mr. Cledwyn Jones a Mr. Idwal Roberts yn cyfeilio. Diolchwyd eto gan Mr. Eurwyn Jones i'r pwyllgor am drefnu'r wledd, yr ysgrifenyddes yn arbennig, rheolwr Gwesty Victoria a'i weithwyr am ddarparu'r wledd, ac i bawb a fu'n rhoi unrhyw help er llwyddiant y dyd.

Diolchodd y Parch Alun Hawkins i'r Pwyllgor am y gwahoddiad, a sicrhaodd pawb ei fod wedi cael mwynhad mawr ymysg y pensiynnwyr.

Bu amryw o gyfeillion yn cludo rhai o'r pensiynnwyr yn ôl a blaen. Diolch yn fawr iddynt eto eleni am y gymwynas.

Yr actorion yn yr adloniant ydoedd:-
Mrs. Morfudd Jones
Mrs. Betty Williams
Mrs. Megan Jones
Mrs. Doris Hughes
Mrs. Enid Jones
Mrs. Helen Morris
Mrs. Gwerfyl Jones
Mrs. Betty Jones
Mrs. Glenys Jones

MARWOLAETH-Evan Edward Jones
Mewn cartref preifat ym Mae Colwyn ychydig wythnosau yn ôl bu farw Evan E. Jones, mab y diweddar Mr. a Mrs. Edward Jones, gynt o Stryd Newton a chyn hynny o Ben y Gilfach. Bu ei dad yn glerc gyda chwmni Chwarel Glynrhonwy am flynyddoedd hyd amser cau'r chwarel.

Priododd Evan â Mary, unig ferch y diweddar Mr. a Mrs. Robert Closs, Nant Peris, ac wedi gadael Nant Peris, fe adeiladodd Evan a Mary gartref dymunol dros ben ym Methel. Rhyw ychydig dros flwyddyn a hanner yn ôl bu farw Mary, ac roedd ei cholli yn ergyd drom iawn i'w phriod, a theimlai na fedrai aros gartref ar ei ben ei hun. Cartrefodd mewn cartref preifat dymunol iawn ond ni chafod fawr iechyd – roedd hiraeth yn ei lethu, a dirywio a wnaeth ei iechyd.

Cydymdeimlir a'i frawd a'i chwaer yn eu colled.


**GWYNETH ROBERTS**
(Siop E. Wilson Hughes gynt)
**84 Stryd Fawr, Llanberis**
**Ffôn: 870491**
PAENT, PAPUR WAL
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION





Teisennau
Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati,
Peis, Rholiau Sosej,
Pasteiod, Teisennau Hufen,
Teisennau Plât, Torth Gyrains etc.
**BECWS ERYRI**
**Stryd Fawr, Llanberis 870491**


**DWYLO DROS Y MÔR**

**Record Band Aid Cymru**

Er mwyn codi arian ar gyfer y newynog yn Ethiopia.

Os hoffech brynu'r record er mwyn yr achos teilwng hwn, cysylltwch â Mrs. Jane Roberts, 3 Rallt Isaf, Ffordd Capel Coch neu yn yr Ysgol Gynradd.

# Llanberis Parhad

LLONGYFARCHIADAU – i Mrs. Enid Lloyd Roberts ar fod yn hen nain am y seithfed gwaith ar enedigaeth merch fach i Linda a Nigel, 12 Stryd Turner ar Fawrth 6, ac am yr wythfed gwaith ar enedigaeth merch fach i Gwynedd a Lesley yn Inverness ar Fawrth 21. ac hefyd

I Linda a Nigel, 12 Stryd Turner ar enediageth eu merch fach, Caryl Wyn, wyres fach gyntaf i Mr. a Mrs. Gordon Davies, Maes Padarn, a Mr. a Mrs. D. Williams, Caernarfon.

DIOLCH – Dymuna Linda a Nigel, 12 Stryd Turner ddiolch yn fawr i bawb am fu mor garedig wrthynt ar achlysur genedigaeth eu merch fach Caryl Wyn. Diolch am y llu cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd. Diolch hefyd i'r meddygon a'r gweinyddesau yn Llanberis ac yn Ysbyty Dewi Sant am eu gofal.

Dymuna Mrs. Enis Lloyd Roberts, 56 Maes Padarn ddiolch yn fawr i bawb a fu mor garedig wrthi tra bu yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar, a hefyd ar ôl iddi ddod adref.

Newyddion o Ysgol Dolbadarn

DIDDORI'R HENOED – Ar brynhawn dydd Iau, Mawrth 7 aeth parti o blant o'r ysgol gyda Mrs. E. Pierce a'r prifathro, i Westy'r Fictoria i ddiddori Aleodau o Glwb yr Henoed yno yn ystod eu cinio blynyddol. Treuliwyd amser difyr iawn yng nghwmni aelodau'r Clwb, ac fel arfer, mwynhawyd y plant yn canu ac adrodd.

EISTEDDFOD YR URDD – Ar ddydd Sadwrn, Mawrth 9 aeth dau barti Cerdd Dant o Adran yr Ysgol i gystadlu i'r eisteddfod yn Llanrug. Llwyddodd y ddau barti i gael llwyfan, a bu i'r Parti Bechgyn ddod yn ail yn y gystadleuaeth. Llongyfarchiadau i'r plant ac hefyd i Mrs. E. Pierce am eu hyfforddi.

YR YMGYRCH LYFRAU – Y mae'r Ymgyrch Lyfrau yn dal i barhau a bydd Mrs. Jane Roberts yn falch o dderbyn archebion.

DWYLO DROS Y MÔR – Gwnaed record gan gantorion a cherddorion y byd Roc Gwerin Cymraeg i godi arian ar gyfer y newynog yn Ethiopia. Pris y record yw £1.15c (15c. i'r llywodraeth a'r cyfan o'r gweddill i'r Apel.) Gellir archebu'r record drwy'r ysgol, neu drwy Mrs. Jane Roberts, 'Rallt Isaf, Ffordd Capel Coch, Llanberis.

GWAELEDD – Drwg gennym yw deall for Mrs. Rita Morris, Staff y Gegin, wedi cael damwain ac wedi torri ei braich. Dymunwn iddi adferiad llwyr a buan.

YN GWELLA – Balch iawn ydym o glywed fod Mr. O.W.Humphreys, Gwastadnant, Nant Peris, sef un o Lywodraethwyr yr Ysgol, wedi dychwelyd gartref ar ôl derbyn triniaeth llawfeddygol mewn Ysbyty yng Nghaerdydd, a'i fod yn gwella'n foddhaol.

Wedi gwella croeso'n ôl i Mrs. Gwen Hughes, Athrawes, a Mr. Wilbert Davies, Gofalwr, ar ôl cyfnod o absenoldeb oherwydd gwaeledd.

PELRWYD – Ennil fu hanes tîm yr Ysgol yn erbyn Ysgol Bontnewydd ar ddydd mawrth, Mawrth 12. Ond mewn gêm galed iawn yn Llanrug ar ddydd Llun, Mawrth 18, tîm Ysgol Llanrug a enillodd o 17 pwynt i 15 pwynt.

PELDROED – Ennill fu hanes y tîm yn erbyn Ysgol Bontnewydd ar Fawrth 12 o ddwy gôl i ddim. Hefyd yr un modd yn erbyn Ysgol Llanrug ar Fawrth 18 o bedair gôl i un. Llongyfarchiadau fechgyn, yr ydych yn cael hwyl dda ar chwarae yn awr.

LLONGYFARCHIADAU – i Ian Lloyd Hughes am annill y wobr aur yn y 'Coco Cola Super Skills' mewn peldroed.

I Linda Prydderch a Dylan Davies am ennill medalau am redeg yn Rhiwlas yn ddiweddar.

CWIS DIOGELWCH Y FFYRDD – Ar brynhawn dydd Iau, Mawrth 21, daeth tîm o Ysgol Maesincla, Caernarfon i gystadlu yn erbyn tîm yr Ysgol yn y rownd gyntaf o'r gystadleuaeth eleni. Tîm Ysgol Dolbadarn a orfu o 40 i 32 pwynt. Llongyfarchiadau i aelodau'r tim ac hefyd i Mr. Selwyn Pritchard, Dirprwy Bennaeth, am eu hyfforddi.

Dymuna Elizabeth a Peredur Roberts, 4 Fron Goch, ddiolch i'r teulu a ffrindiau am y cardiau o gydymdeimlad a'r arian a dderbyniodd Elizabeth ar farwolaeth ei mam yn Sir Fôn y mis diwethaf. Mae yr arian wedi ei drosglwyddo i adran y Meddygon ym Miwmares.

DIOLCH – Dymuna Mrs. Dilys Roberts, Dakota, ddiolch i'w theulu, ffrindiau a'i chymdogion am bob caredigrwydd a dderbyniodd tra yn Ysbyty Gwynedd, hefyd i'r meddygon ac i nyrsus Ward Conwy.

BEDYDD – Ar Chwefror 17 bedyddiwyd Ruth Menna, merch fach Hefin ac Elisabeth Jones, Balaclava yng Nghapel Coch.

PENBLWYDD – Ar Fawrth 30, fe dathla Mr. Hugh Peris Pritchard, Dinorwic House ei benblwydd yn 70 oed. Pewnblwydd hapus iawn yw dymuniad ei deulu. Llongyfarchiadau a'n dymuniadau gorau ninnau hefyd.

LLONGYFARCHIADAU – I Amanda Sellars, 13 Dol Elidir, ar ei dyweddiad â Peter Welsby, Brynrefail.

I Andrew Williams, 23 Stryd Fawr ar ei benblwydd yn 18 oed ar Fawrth 15.

I Mrs Vera Griffith, Llwyn Piod ar ei hymddeoliad fel athrawes.

# ACHUB Y TORGOCH

Er fy mhlentyndod, rwyf wedi ymddiddori ym myd 'Y Torgoch, wedi gwrando dadleuon pysgotwyr brwd, wedi gweld helfa dda yn dod i'r lan ambell dro, a thro arall helfa wael – dim ond rhyw dri neu bedwar torgoch ar ôl pwygota llonnydd a distaw am oriau , ac ambell dro o doriad gwawr hyd hanner dydd. Amal i bryd blasus o'r torgoch a gafwyd yn nhŷ fy nain pan fyddai 'hwyl' ar y dal, a thybiaf hyd heddiw nad oes bysgodyn mwy blasus i'w gael mewn dŵr afon neu ddŵr y môr.

Rhai blynyddoedd yn ôl byddai mwy o lawer o bysgotwyr lleol yn dal y torgoch. Pysgotwyr Brynrefail a Chwm-y-Glo yn angori eu cychod ger ceg y twnel ym mhen isaf Llyn Padarn a phystogwyr Llanberis wedi angori ychydig lathenni o geg yr afon ger y Dolydd. Nid un neu ddau o gychod fyddai ar y llyn ar doriad gwawr, ond rhyw naw neu ddeg, ac yna codi angor a mynd i weithio diwrnod ar wyneb y graig yn y chwarel. Byddai fy ewythr yn pysgota drwy'r dydd ambell dro, gan wylio yn dra gofalus y deg neu ddeuddeg genwair fyddai wedi eu gosod bob ochr i'r cwch., (Erbyn heddiw mae rhif y genweiriau wedi eu cwtogi)

Pan ddaeth y gwaith trydan i Chwarel Dinorwig rai blynyddoedd yn ôl cri y pysgotwyr ydoedd 'Maent am ladd y torgoch, yn sicr yn Llyn Peris.' Ond i'r gwrthwyneb, mae'r Bwrdd Canolog Cynhyrchu Trydan wedi sicrhau dyfodol y torgoch, nid yma yn Llanberis, ond mewn amryw o lynnoedd eraill, ac mae'r pysgodyn mewn cyflwr ardderchog. Cefais y wybodaeth yma mewn erthygl yn y papur 'Power News' ym mis Ionawr, erthygl a ysgrifennwyd gan Jeanette Hudson, a chredaf y bydd y pysgotwyr lleol yn ddiolchgar iawn iddi am y wybodaeth.



Yn ystod y blynyddoedd diwethaf yma mae'r Bwrdd Canolog Gynhyrchu Trydan wedi gwenud ymdrech neilltuol i sicrhau na fyddai'r torgoch yn diflannu o'r llynnoedd. Rhoddwyd y cyfrifoldeb o'r ymchwil arbennig yma ar ysgwyddau Dr. Alistair Rogers, Biolegydd Adran Orllewinol y Bwrdd Canolog Cynhyrchu Trydan, ac mae ef a'i gynorthwywyr, Alan Paul Middlehurst a Michael Sullivan Cane, wedi gwneud ymchwil manwl iawn ar filoedd o'r torgochiaid.

Yng nghanol misoedd y gaeaf gedy'r torgoch y mannau dyfnion yn y llyn a symud i fyny at geg yr afon, i'r lle bas ger y dolydd i fwrw'r grawn, a dyma lle bu'r arbennigwyr yn gosod rhwydi gefn nos a'u codi yn y bore bach i archwilio'r rhif, maint a chyflwr y pysgod. Ar ôl tair wythnos o rwydo 771 o dorgochiaid, a'u harchwilio yn fanwl yn y labordy, y dyfarniad ydoedd fod y torgoch wedi ennill tir, ac mewn gwell cyflwr nac y bu erioed.



*Dr. Rogers yn silio'r wyau o'r torgoch*

Pysgodyn o ddyfroedd Pegwn y Gogledd yw'r torgoch, a daeth i lawr i'n llynnoedd ni yn ystod Oes y Rhew, ac aros yn nyfnderoedd y llynnoedd. Rhaid iddynt gael y dŵr oeraf posibl. Ceir torgoch mewn rhyw ddwsin o lynnoedd yn yr Iwerddon, mewn tua cant a hanner o lynnoedd yn yr Alban, wyth o lynnoedd Lloegr a phedwar llyn yng Nghymru. Ar ddechrau'r gwaith yn Ninorwig roedd Dr. Rogers yn bryderus iawn y byddai sychu'r dŵr o Lyn Peris, y dŵr symudol a thymheredd y dŵr yn effeithio yn ddrwg ar y torgoch, hefyd ar y brithyll a'r eog oedd yn arfer bwrw'r grawn yn afon Nant Peris. Symudodd Dr. Rogers y pysgod i Ffynnon Llugwy, llyn o ddyfnder mawr yng nghrombil mynyddoedd yr Wyddfa, ac hefyd anfonwyd wyau i Ddeorfa Pysgod Cynrig ac i ddau lyn aral, Llyn Dolwaenedd a Llyn Dulyn. Yn 1982 rhoddwyd 20,000 o bysgod ifanc yn Llyn Dulyn.

Erbyn heddiw mae Dr. Rogers yn hyderus iawn fod y torgoch yn hapus ar wely'r afon sy'n cysylltu Peris a Phadarn, ac maent yn trymhau yn eu pwysa ac yn fwy eu maint. Dangoswyd cynnydd o 3 neu 4 centimedr – a rhai o'r pysgod yn 30 centimedr o hyd, ac ambell un yn pwyso pwys.


Mawr yw ein diolch i'r Biolegydd Dr. Rogers am ei ddyfalbarhad a llongyfarchwn ef ar ei lwyddiant i achub y torgoch.

## DIOLCH

Dymuna Pwyllgor Apêl Rhiwlas a Phentir, Eisteddfod yr Urdd, Dyffryn Ogwen a'r Cylch, ddiolch i nifer o ddarllenwyr Eco'r Wyddfa am ymuno yn y Clwb Cant, sydd bellach wedi dirwyn i ben.

Mae'r pentref wedi cyrraedd eu targed o £900, ond am gario ymlaen i gyrraedd y £1,000. Da gallu adrodd fod nifer o wobrwyon y Clwb Cant wedi cael eu hennill gan drigolion ardal Eco'r Wyddfa.


AM DRIP CYFFYRDDUS, DIOGEL A RHAD
I BLE BYNNAG Y BO . . .



BWSIAU ARFON
LLANRUG
(ERIC MORRIS)
Ffôn: Caernarfon 5175
neu Bangor 51981

NORMAN JONES
4 Tai Disgwylfa
LLANRUG
Ffôn:
CAERNARFON 3476
GLANHAWR FFENESTRI
∗ Siopau ∗ Tai ∗
∗ Swyddfeydd ∗
Gwestai ∗ Ffatrioedd
Yswiriant Llawn
Hefyd peintio – tu fewn a thu allan

WELDIO OFFER FFERM
A PHEIRIANNAU
DIWYDIANNOL
GWNEUD GIATIAU,
FFENSYS AC ATI
AR GYFER Y CARTREF
ATGYWEIRIO TAI
GWAIR
E. PUGH
WELDING &
FABRICATING
32 GLANFFYNNON
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 5394

# ECO'R IFANC

## CAERDYDD DYMA NI!

**Bydd bysus bach y wlad yn tyrru tua'r brif-ddinas dros gyfnod y Sulgwyn. Daeth deg ar hugain o wobrau i gystadleuwyr o ardal yr Eco yn Eisteddfodau Sir yr Urdd a gynhaliwyd yn ddiweddar – gan gynnwys tair-ar-ddeg o wobrau cyntaf! I'r rhai buddugol, mae'r ymweliad â'r Eisteddfod Genedlaethol yn wobr deilwng am ymroddiad a gwaith caled plant, pobl ifanc a hyfforddwyr ein bro. Llongyfarchiadau i bawb a fu'n cystadlu am gyrraedd safon mor uchel yn eu gwaith, ac am lwyddo i adlewyrchu'r cyfoeth o dalent sydd mor amlwg yn eu meddiant. Pob hwyl i'r llu ohonoch fydd yn ein cynrychioli yng Nghaerdydd.**

## CANLYNIADAU

CYNTAF
Parti Adrodd i Gyfeiliant (15-19 oed) Ysgol Brynrefail
Côr Blwyddyn 1,2 a 3, Ysgol Brynrefail
Parti Merched (Blwyddyn 1,2,a 3) Ysgol Brynrefail
Unawd Prês (12-15 oed) – Graham Williams (Ysgol Brynrefail)
Côr Adran Bentref Bethel (Dan 12 oed)
Côr Dan 12 oed Ysgol Gynradd, Llanrug
Côr Cerdd Dant Dan 12 oed Ysgol Gynradd, Llanrug
Parti Dawns Dan 10, Ysgol Gynradd, Llanrug
Deuawd Dan 12 oed – Lowri a Gwenan (Llanrug)
Parti Unsain Dan 15 – Adran Bentref Waunfawr
Parti Cerdd Dant Dan 15 – Adran Bentref Waunfawr
Unawd Chwythbrennau Dan 15 – Elliw Haf Iwan (Waunfawr)
Unawd Prês Dan 15 – Susan Jacobs (Waunfawr)
AIL
Cyflwyniad Llafar (15-19 oed) Ysgol Brynrefail
Parti Adrodd (12-15 oed) Ysgol Brynrefail
Parti Adrodd i Gyfeiliant (12-15 oed) Ysgol Brynrefail
Parti Recordyddion Dan 12 oed – Adran Bentref Waunfawr
Parti Cerdd Dand Dan 12 oed – Adran Bentref Waunfawr
Adrodd 8-10 oed – Elin Gwilym (Waunfawr)
Unawd Prês Dan 12 oed – Kevin Tame (Waunfawr)
Unawd Llinynnol Dan 12 oed – Gwenan Mair Roberts (Ysgol Gynradd Llanrug)
Unawd Chwythbrennau – Telor Hedd Iwan (Waunfawr)
TRYDYDD
Parti Cerdd Dant (15-19 oed) Ysgol Brynrefail
Deuawd (15-19 oed) – Jane Parry ac Alison Edwards (Ysgol Brynrefail)
Adrodd (15-19 oed) Manon Williams
Parti Cerdd Dant (12-15 oed) Ysgol Brynrefail
Deuawd (12-15 oed) – Ffion a Meinir (Ysgol Brynrefail)
Unawd Merched (12-15 oed) – Ffion Williams (Ysgol Brynrefail)
Parti Unsain Dan 12 oed – Adran Bentref Waunfawr
Parti Unsain Dan 12 oed – Ysgol Gynradd Llanrug
Unawd Piano Dan 12 oed – Bryn Cerion Jones (Ysgol Gynradd Llanrug)

## DEUAWD



*Lowri Angharad a Gwennan Mair (Ysgol Gynradd Llanrug) yn fuddugol ar y Ddeuawd Dan 12 oed.*

## PEDWAR CÔR



*Côr Blwyddyn 1,2 a 3 Ysgol Brynrefail*



*Côr Adran Bentref Bethel ar eu ffordd i Gaerdydd — gyda Mrs. Glenys Griffith yn eu harwain.*

## PARTI DAWNS



*Parti Merched buddugol Ysgol Brynrefail.*

**Eisteddfod Gadeiriol Bontnewydd**
**Nos Iau a Nos Wener y Groglith**
**EBRILL 4ydd a 5ed**
**Manylion pellach oddi wrth yr Ysgrifenyddes:**
**Mrs Meinir Williams, Maldwyn, Glan Beuno, Bontnewydd.**
**Ffôn: Caernarfon 77218**


**D.W. DAVIES**
CONTRACTWR CLUDO
LLWYTHI BYCHAIN
5 STRYD THOMAS
LLANBERIS
Tel: 872556
Llogi Cymysgwyr Concrit
Clirio Safleoedd
Clirio Tai
am brisiau cystadleuol

STORFA
Mace
John a Roberta
Griffith
Sgwâr
Llanrug
Caernarfon 2790
Dewis hael o fwydydd, llysiau a diodydd
Archebion at eich drws
Ffilmiau fideo £1 y noson

Ar gyfer pob parti . . .
I ddathlu pob achlysur . . .

Gwesty'r Foelas
(Richard a Meirwen Thomas)
Llanrug
Ffôn: CAERNARFON 4652

# BUDDUGOL



*Côr Cerdd Dant Ysgol Gynradd Llanrug sydd yn awyddus iawn i rannu 'Cyfrinach'.*



*Côr Lowri — Ysgol Gynradd Llanrug sydd am ganu am eu ffrind mynwesol — 'Robin Goch Cochyn'.*

## PARTI UNSAIN



*Parti Dawns Dan 10 oed Ysgol Gynradd Llanrug yn dawnsio'r holl ffordd i Gaerdydd!*

## LLWYDDIANT ADRAN BENTREF WAUNFAWR



*Dyma blant amryddawn Adran Bentref Waunfawr yn arddangos Tlws Adrannau Pentref Cylch Arfon.*



*Susan Jacobs fydd yn cynrychioli Adran Bentref Waunfawr ar yr Unawd Prês. Daeth Kevin Tame yn ail.*



*Elin Gwilym (Adran Bentref Waunfawr) — 2il am adrodd 8-10 oed*


**W.H. JONES**
TRYDANWR
**Green Bank**
**Stryd Fawr**
**LLANBERIS**
**FFÔN:**
**LLANBERIS 871470**
Contractau
Weirio Tai
Cawodydd Trydan
ac ati

Y Bistro
**45 Stryd Fawr**
**LLANBERIS**
*Ffôn: LLANBERIS 871 278*
(Danny a Nerys Roberts)
**Pryd gorau'r fro a mwy o le i'w fwyta**

**SCIPIAU TIM**

**o £16**
CYTUNDEB DYDDIOL NEU WYTHNOSOL
**TIM FRAZER JONES**
**BUARTH BERAN, DEINIOLEN**
LLANBERIS 871354

# DIWRNOD MAM

## Buddugol mewn cystadleuaeth yn Eisteddfod Clwb y Graig, Cwm y Glo gan Llew Hughes, 'Hyfrydle'

"Mam! Ga'i godi?"

'Roedd Robyn wedi ei gaethiwo i'w wely ers tri diwrnod gan anhwyldeb, a'r botel bridd bellach wedi colli ei gwres a'i phwrpas, ac fel talp o rêw wrth droed y gwely. Meddyliai mor hyfryd fuasai newid ei wely am gornel gynnes yr aelwyd.

Jane Evans, ei fam, yn ôl ei harfer, yn gyntaf i godi o'i gwely bob bore. Gwraig ganol oed, gwallt yn dechrau britho, wyneb glan bochgoch, a dau lygad glas. Wedi colli ei mesurau cynnar ac yn dechrau ymledu, ond er hynny, yn ymdrechu trwy ddirgel ffyrdd i gadw ei hunan-barch. Oherwydd anhwyldeb y frest oedd wedi datblygu yn ddiweddar, pan ddeuai peswch neu chwerthin iach, eisteddai yn ei chadair bron llewygu, a swn fel organ yn dilyn yr ymdrech.

Wrth droi a throsi yn anniddig clywai Robyn swn y fegin yn byrlymu gwynt i'r tân, a meddyliai am y fflamau lliwgar oedd yn ymestyn ac yn darfod yn y simne agored.

"Mae'n nhraed i'n oer, Mam," gwaeddai Robyn.

"Mi roi ddwr poeth yn dy botel di ar ôl i'r hogia fynd i'w gwaith", meddai ei fam.

Nid oedd Robyn wedi sylweddoli nad oedd ei dad a thri o'i frodyr wedi codi i fynd at eu gwaith, a'i fam yn llawn helbul yn darparu eu brecwast, torri bara menyn gogyfer tun bwyd, llaeth yn y poteli, a the a siwgr yn y tuniau *Oxo*, gorchwyl a oedd yn ei derbyn fel rhan o'i dyletswydd, a hynny yn gydwybodol a dirwgnach.

Clywai Robyn sŵn clocsiau'r chwarelwyr ar y ffordd oedd yn arwain heibio'r tŷ i gyfeiriad arosfa y trên chwarel, ac yna "Rwyn mynd!" gan ei dad a'i frodyr wrth ymadael i ymuno a'r fintai. Ychydig yn ddiweddarach clywai chwiban y trên yn agoshau at yr arosfa, a'r ychydig oedd wedi codi'n hwyr yn carlamu i geisio dal y trên.

"Mam! Ga'i ddwad rwan ta?" meddai Robyn.

'Roedd aelwyd Bryn Eithin yn dderbyniol a chysurus ar unrhyw amser, ond y bore hwn i Robyn yr oedd yn baradwys. Sylwai fod carreg yr aelwyd wedi ei glanhau yn lân fel arfer, a chysgod fflamau'r tân yn dawnsio arni, tân wedi ei ddarparu o dan y popty oedd yn gyfochrog a'r grât, a dau neu dri o gricedau yn cystadlu a'i gilydd i glodfori'r gwres.

"Agor dy geg i mi weld sut mae dy donsils di" meddai ei fam, ac yna yn gwthio llwy i eithaf ei gêg – gorchwyl oedd yn ennyn protestiadau gan Robyn. Wedi ei ddiddosi mewn cadair esmwyth, prysurai ei fam i ddarparu gogyfer pobi bara, estyn padell bridd fawr, ac yna rhoi'r blawd, y burum a'r dŵr, ei foldio a'i blethu, ac yna rhoi llian gwyn glan trosto a'i adael wrth ochr y tân. Estyn y tuniau a'u gosod yn rhes ar garreg yr aelwyd. Ni raid dweud for arogl hyfryd tra roedd y bara yn crasu.

"Ga'i gacen does, mam" meddai Robyn.

Pwy sydd heb flasu'r fath gacen, a menyn fferm yn ymdoddi trwyddi? Un o orchwylion wythnosol oedd pobi bara i Jane Evans. Yr oedd eisoes wedi darparu'r dillad ar gyfer eu golchi; sŵn rwbio a sgwrio'r dillad ar y pren golchi, a gwichian y mangl wrth eu gwasgu, ac yna yn cerdded yn ôl a blaen yn rhoi'r dillad ar y lein i sychu.

Cnoc ar y drws, a'r meddyg yn cerdded i mewn, eistedd am ennyd, ac yna yn archwilio Robyn.

"Gadewch iddo aros gartref hyd ddiwedd yr wythnos, Mrs. Evans, ac mi anfonaf botel o ffisig iddo'r p'nawn 'ma" meddai'r meddyg.

Wedi iddo ymadael, prysurodd Jane Evans i gwblhau'r orchwyl o bobi, tynnu'r bara a oedd eisoes wedi crasu ac yn eu gosod yn rhes ar garreg yr aelwyd. Ychwanegu toes i'r tuniau gwag, ac i mewn i'r ffwrn a hwy.

"Peidiwch anghofio fy nghacen does, mam!" meddai Robyn. Yr oedd eisoes wedi ei blasu yn ei feddwl.

"Fe wna'i baned i ni'n dau" meddai Jane Evans, ac yna clywodd "Oes 'ma bobol?" a'i chwaer yn cerdded i mewn.

"'Rwyt ti wedi dewis amser iawn – mynd i wneud paned i Robyn a minnau".

Wedi cwblhau'r mân orchwylion eraill, prysurai Jane Evans i ddarparu gogyfer swper chwarel. Gan fod y popty ar fynd, beth yn well na thatws popty, a phwdin reis a chyrens ynddo i ddenu unrhyw un at y bwrdd cinio?

"Well i ti fynd i dy wely rwan Robyn", meddai ei fam.

Ond nid hawdd fyddai ei gael i'w wely, gan ei fod wedi sylwi ar ychydig o blu o eira yn disgyn yn araf ac yn ddistaw orchuddio y lawnt y tu ôl i'r tŷ. Ond mynd y bu raid iddo.

Jane Evans yn edrych ar y cloc. "Bydd y tren ym Mhenllyn ymhen hanner awr", meddai, gan brysuro i ddarparu y ford gogyfer y swper.

Ynghanol ei thrafferthion, gofalai fod y bwrdd wedi ei osod yn barod bob amser i dderbyn ei gŵr a'r hogia o'r chwarel. Llian gwyn, glan; cyllyll a ffyrc wedi eu gosod yn daclus, ac yna y llestri pwrpasol i wneud y cyfan yn hynod ddeniadol.

'Roedd arogl y tatws popty yn llenwi'r ystafell fwyta, a chroeso arferol i'r gweithwyr wedi diwrnod blin o dynnu a naddu'r llechi rhewog.

Wedi cwblhau'r pryd bwyd, golchi'r llestri a'r gwahanol ddarpariadau gogyfer y bore dilynol, eisteddai Jane Evans yn ei chadair, estyn y gwaith trwsio, ac yna yn raddol bendwmpian wrth y tân. Deffro'n sydyn, ac yn rhoi rhyw ocheraid o flinder, ac yn ymddiheuro fel pe na bai ganddi hawl i flino.

'Roedd distawrwydd wedi disgyn ar yr ystafell; y meibion wedi mynd at eu diddordebau, a'r gŵr yn darllen y papur dyddiol. Nid oedd gofynion y dydd yn ennyn unrhyw bryder i Jane Evans, gan ei bod mor gydwybodol yn ei gwaith, a gofalon y teulu ar ei meddwl yn feunyddiol, ac ai i orffwyso gyda gorchwylion dydd yfory ar ei meddwl.

# HANES GWAEN GYNFI

Ble mae 'troell-goryn' yn tyfu? Beth yw 'tanalch'? Pa gysylltiad oedd rhwng canhwyllwr o Gaernarfon â Chlwt-y-Bont? Pwy fu'n byw yn Ogof Cae-rhedyn? Pa gymeriad 'nad oedd ei feddwl erioed wedi bod fawr o'r tu allan i gylch ei flwch tobacco'? Beth oedd achos y dadlau ynglŷn â therfynau plwyfi Llanddeiniolen a Llandegai? A pha bryd y sefydlwyd Argraffdy yn Ebenezer?

Dyna rai o'r cwestiynau diddorol sy'n cael eu hateb mewn argraffiad newydd o gasglied o draethodau ar 'Gwaen Gynfi' – cynnyrch cystadleuaeth dan nawdd Undeb Llenyddol Deiniolen yn 1868 – ac a gyhoeddir fis Mawrth eleni gan Siop y Pentan, Caernarfon. Pris y gyfrol wreiddiol, a argraffwyd gan W.R. Hughes, Llyfr-rwymydd, Ebenezer, oedd wyth geiniog. Mae'r argraffiad newydd, clawr caled yn costio £3.95.

Mae'n amlwg fod cystadleuaeth debyg wedi ei gosod yn 1867 hefyd, oherwydd Mae'n amlwg for cystadleuaeth debyg wedi ei gosod yn 1867 hefyd, oherwydd mae'r beirniaid (tri o weinidogion ardal Gwaen Gynfi) yn taflu un ymgeisydd allan o'r gystadleuaeth am iddo eisoes gyhoeddi ei draethawd, a'i anfon yn ei ffurf argraffedig i'w feirniadu! Mae'r ddau draethawd arall – ar wahan i rai gwendidau – yn cael canmoliaeth, sef eiddo 'Hanesydd' (David M. Jones, Clwt y Bont) a 'Pedr' (John Roberts, Y Felinheli). Dyma'r ddau draethawd a gynhwysir yn yr argraffiad newydd, ynghŷd â'r feirniadaeth.

Yn naturiol, gan mai dau draethawd ar yr un testun sydd yma, mae peth ail-adrodd, ond mae 'Hanesydd' yn llawer mwy manwl ei astudiaeth, gan olrhain dyddiadau adeiladu tai ar y Waen Gynfi, ac olrhain achau cyfran helaeth o'r boblogaeth. Os am olwg arwynebol ar hanes Gwaen Gynfi, yna darllener draethawd 'Pedr' gyntaf, ac yna fynd i'r afael â chrib mân 'Hanesydd'.

Mae'r beirniaid eu hunain yn nodi rhai camgymeriadau, felly peidied neb â derbyn fod yr holl ffeithiau hanesyddol yn yr un o'r ddau draethawd yn hollol gywir. Mae eu dadansoddiad o ystyron enwau lleoedd yn swnio braidd yn ddigrif i ni erbyn heddiw, ond ar y llaw arall, maent yn adlewyrchiad o'r cyfoeth o draddodiad llafar ynglŷn â gwahanol nodweddion naturiol.

Gyda'r diddordeb cynyddol mewn hanes lleol, dyma gyfraniad gwerthfawr i gasgliad unrhyw un sy'n ymddiddori yn hanes bro'r 'Eco', ac y mae'r siaced lwch yn werthfawr ynddi ei hun – dyma un o'r lluniau cynharaf sydd ar gael o Gapel Tabernacl, Ebenezer.

Awgrym i'r cyhoeddwyr, rhag ofn fod bwriad ganddynt i roi argraffiadau newydd eraill i ni o draethodau tebyg am y fro, beth am ychwanegu rhagymadrodd byr i roi mwy o wybodaeth i'r darllenwr am awduron y traethodau, am Undeb Llenyddol Deiniolen, neu unrhyw wybodaeth arall a allai ychwanegu at bleser y darllenydd wrth deithio'n ôl i'r gorffennol.

Yn sicr, gwnaeth Siop y Pentan gymwynas â'r fro yn cyhoeddi'r llyfr hwn, ac y mae'n werth mwy na dau alwyn o betrol i gael taith mor ddiddorol i ymweld â bywyd ein hynafiaid. Brysied i gyhoeddi mwy o'r math hwn o lyfr!


AM WAITH
PAENTIO
A PHAPURO
O BOB MATH
LEN
ROBERTS
WAUN HOWEL
LLANRUG
Ffôn Llanberis
870971
PRISIAU RHESYMOL

Wavell Roberts
CIGYDD
LONDON HOUSE
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 3574
*PEN CIGYDD Y FRO!*
Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref, cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNNWCH Y GORAU
A DEWCH ATOM NI!

POBL DEINIOLEN!!
Ail Argraffiad!
TRAETHODAU AR WAUN GYNFI
(Cyhoeddwyd yn gyntaf 1869)
£3.95
Siop y Pentan, Porth Mawr, Caernarfon - 5262
Siop Pendref, 77 Stryd Fawr, Bangor

# CWM-Y-GLO

**Gohebydd: Mrs Iris Rowlands, Glanrafon, 872275.**



PRIODAS – Ar Fawrth 9fed, yn Eglwys Sant Mihangel, Llanrug a'r Rhiethor, y Parch Aled Jones Williams yn gweinyddu, priodwyd Susan, merch Mr. E.G. Owen, a'r diweddar Mrs. E. Owen, Talgwynedd ac Alan, mab Mr. a mrs. R.E. Roberts, 10 Stryd Gelert, Caernarfon.

Y gwas oedd Mr. Thomas Brynley Morris, a'r morwynion oedd Julie Morris, Rhian Morris a Carys Williams.

Cafwyd y wledd briodas yng Ngwesty Dingles, Dinas Dinlle. Mae'r pâr ifanc am gartrefu yn Nhalgwynedd.

DIOLCH – Dymuna Eifion ac Avril, Glan y Don, ddiolch o galon i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniasant ar enedigaeth eu merch fach Carys.

DIOLCH – Dymuna Evie, Mair, Sarah ac Olwen ddiolch o galon i'w cymdogion a chyfeillion am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli eu brawd, Mr. Owen Davies, Stryd y Wyddfa, Llanberis.

GWELLA – Da iawn yw deall for Mr. Geraint Pritchard, Bryn Difyr wedi dychwelyd adref o Ysbyty Gwynedd. Dymunwn wellhad llwyr a buan iddo, hefyd i Mr. Richard Hughes, 10 Dol Afon, yntau wedi derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

YN YR YSBYTY – Anfonwn ein cofion a dymuno llwyr wellhad buan i Mrs. Catherine Foulkes, 2 Tan y Bryn, sydd yn derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

CYDYMDEIMLAD – Estynnir cydymdeimlad â Mrs. Rose Fowler, Bodlondeb yn ei phrofedigaeth o golli brawd yng nghyfraith yn Llanberis.

LLONGYFARCHIADAU – I Doreen Price, Stryd Newydd ar gyrraedd ei phen blwydd yn ddeunaw oed.

LLONGYFARCHIADAU – i Gôr plant yr Ysgol Gynradd a ddaeth yn gyntaf yn y gystadleuaeth Côr Adran Bentref dan 12 oed, ac hefyd i'r Parti Dawns Werin a ddaeth yn 3ydd. Pob llwyddiant iddynt yn yr Eisteddfod ym Mangor.

CLWB POBOL Y CWM

Pnawn Iau, Chwefror 19, caswom gyfarfod difyr yng nghwmni Mrs. K .Watkins, Dolwen, yn rhoi hanes ei ymweliad â gwahanol fannau diddorol a hanesyddol pan ar ei gwyliau yn ddiweddar. Diolchwyd iddi gan y llywydd. Cydymdeimlwyd â Mrs. Mair Williams, Elidir View a Mr. E.G. Owen, Talgwynedd a'r teuluoedd yn eu profedigaeth ddiweddar. Rhoddwyd y te gan Mr. Tom Owen, 1 Maes Gerddi a Mrs. Watkins, Dolwen, a'r raffl gan Miss E. Hughes, Tanygraig, enillwyd y raffl gan Mrs E. Hughes, Hyfrydle.

Mawrth 6, croesawyd y gwr gwadd, y Parch Aled Williams, B.A., Rheithor y Plwyf am y tro cyntaf i'r Clwb. Tra yn diulyn cwrs paratoad gogyfer â'r Offeiriadaeth yn Llundain, dewisodd fel rhan o'r cwrs ymweld â charchardai nodedig, a chyd fyw am gyfnod byr a'r carcharorion, er ceisio dirnad eu hymddygiad tuag at gymdeithas yn gyffredinol. Roedd yn ddiddorol gwrando arno yn disgrifio gwahanol gymeriadau a'u hadwaith 'w holi ac ateb. Diolchwyd iddo gan Mr. R.H. Parry. Rhoddwyd y te gan Miss Megan Davies a Mrs. R. Parry, a'r raffl gan Mrs. E. Hughes. Enillwyd y raffl gan Mrs. E. Jones, Seiont House.

DIOLCH – Dymuna Wardeniaid Eglwys Sant Gabriel, ddiolch i bwyllgor Clwb-y-Graig am eu cyfraniad o £100 tuag at gostau'r Eglwys.

DIOLCH – Dymuna Judith a Glyn ddiolch i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am yr anrhegion a'r cardiau a dderbyniwyd ar achlysur eu dyweddïad.

DIOLCH – Dymuna Cynthia ddiolch i'r teulu, cymdogion a ffrindiau am yr anrhegion, arian, a'r cardiau a dderbyniodd ar achlysur ei phenblwydd yn ddeunaw oed.

undeb y mamau 8 nos Iau, 7fed o Fawrth, gweinyddwyd y Cymun Bendigaid gan y Rheithor, Y Parch Aled Jones Williams i aelodau Undeb y Mamau yn Eglwys Sant Mihangel, Llanrug. Yn ystod y gwasanaeth, derbyniwyd aelodau newydd, Mrs. Iris Rowlands a Mrs. Sylvia Williams o Gwm-y-Glo, a thair aelod newydd o Lanrug. Ar ôl y gwasanaeth cynhaliwyd cyfarfod yn Hafan Elan. Mrs. Dilys Jones a Miss Roberts 'Fron' oedd yn gyfrifol am y lluniaeth a'r raffl. Diolchwyd iddynt gan Mrs. Marjorie Roberts, Cwm, a hi hefyd a ennillodd y raffl. Cynhelir y cyfarfod nesaf yn yr Ysgol Gymuned, Cwm-y-Glo, nos Fawrth Ebrill 9ed am 7 o'r gloch.

EISTEDDFOD – Cynhaliwyd Eisteddfod Iwyddiannus yn y ganolfan dan nawdd Clwb-y-Grig, cyfyngedig i ardaloedd Cwm-y-Glo a Brynrefail, nos Wener, Chwefror 23.

Y BEIRNIAID OEDD:- Adrodd a Llên - Mr. W. Lloyd Davies, Bangor a Mr. G. Hughes, Llandwrog; Cerdd - Mrs. Ann Evans, Penisarwaun; Arlunio - Mr. Leslie jones, Penisarwaun; Gwau a Choginio - Miss Anita Jones, Brynrefail; Cyfeilyddion - Mrs. E. Howells a Mrs. Mair Hughes. Y Llywydd oedd Mrs. Eirlys Ellis, Llanberis a'r arweinydd oedd Mr. Llew Hughes.

Y buddugwyr oedd:

Adrodd dan 5: 1. Jessica, 2. Sera a Kelly, 3. Melonie a Kevin.
Dan 6: 1. Bethan, 2. Ellen, 3. Darren
O 6-8: 1. Terry a Gareth,
O 8-10: 1. Nicola, 2. Marian ac Owain
10-12: 1. Nia, 2. Carys
Dan 16: Catrin a Joanne
Parti cyd-adrodd: 1. Parti Kelvin
Traethodau a storiau dan 10: 1. Owain a Nicola, 2. Darren, 3. Debbie
Dan 12: 1. Eira, 2. Paul, 3. Rhian
Dan 16: 1. Einir, 2. Alison, 3. Joanne, Catrin, Glenda.
Brawddeg gyda llythyren 'D': 1. Mrs. K. Watkins.
Parodi: 1,Mrs. K. WATKINS.
Stori Fer: 1. Mr. Llew Hughes
Llinell Goll: 1. Mrs. K. Watkins
Canu dan 5: 1. Jessica, 2. Melony a Sera, 3. Kevin a Kelly
Dan 6: 1. Ellen, 2. Sera a Donna, 3. Darren a Bryn
0 6-8: 1. Terry, 2. Gareth, 3. Darren
0 8-10 1. Gareth, 2. Debbie, 3. Cheryl ac Owain
0 10-12 1. Nia, 2. Carys
Dan 16: 1. Catrin.
Côr plant: 1. Côr yr Ysgol
Cwpan unawd piano dan 12: 1. Eira Wynn
Cwpan Unawd piano dan 16: 1. Catrin Gwyn
Dawns Werin: 1. Parti Kelvin, 2. Parti Paul
Parti Cerdd Dant: 1. Parti Rhian
Cwpan Can Werin: 1. Parti Alwen, Brynrefail.
Arlunio dan 5: 1. Kevin, 2. Glyn a Sera, 3. Kelly a luke
Dan 6: 1. Gwenan, 2. SARA, 3. David a Tony
Dan 7: 1. Ellen, 2. Bryn, 3. Darren a Martin
Dan 9: 1. Terry ac Arnold, 2. Carwyn, 3. Gareth
Dan 12: 1. Nia, 2. Rhian ac Eira Wyn, 3. Cenwyn a William
Dan 16: 1. Sally, 2. Nerys a Joanne
Siwmper 'Fair Isle' i blentyn: 1. Mrs. Margaret Williams
Gorchudd Clustog: 1. Mrs. Carol Houston
Tegan Meddal: 1. Miss Judith Orritt, 2. Miss Karen Foulkes
Cacen Dundee: 1. Mrs. Marjorie Roberts, 2. Mrs. Evans, 3. Mrs. Carol Houston

Gwnaed y diolchiadau gan Mr. Dafydd Ellis, Brynrefail. Dymuna'r pwyllgor ddiolch i'r canlynol am y cwpannau a'r gadair, Mrs. K. Watkins, Mrs. Eryl Roberts, Mr. Berwyn Hughes, ac i bawb a roddodd gefnogaeth hael i'r Eisteddfod.

# DINORWIG

**GOHEBYDD- Mr. O.R. Williams, 2 Bro Elidir (Llanberis 870671)**

CYNDEITHAS LENYDDOL UNDEBOL – Nos Iau, Chwefror 21 cafwyd Noson Lawen gan Barti Ceris. Llywydd y noson oedd Mr. Hugh Thomas, Bro Elidir. Ef a gyflwynodd y Parti i'r aelodau. Yr arweinydd oedd Mrs. Betty Peris Roberts, Maes Eilian. Mwynhawyd y noson yn fawr a thalwyd diolchiadau gan Mrs. Megan Williams, Môn.

CYFARFOD GWEDDI BYD EANG Y CHWIORYDD – Cynhaliwyd Cyfarfod Gweddi Byd Eang y Chwiorydd yng Nghapel Sardis (B) bnawn Gwener, Mawrth 1. Y Thema oedd 'Tangnefedd Trwy Weddi a Gweithred'. Yr arweinydd oedd Mrs. Eileen Thomas, Bwlch Gwynt. Cymerwyd rhan mewn myfyrdod, darllen a gweddi gan y canlynol: Mrs. Alice Griffith, Tan y Bwlch; Mrs. Nellie Williams, Bro Elidir; Mrs. Annie Roberts, Maes Eilian; Miss Ellen W. Jones, Tŷ'n Fawnog; Mrs. Megan Morris, Minffordd; Mrs. Medwen Griffith, Foel; Miss Lizzie Thomas, Llidiard y Clo; Mrs. Elizabeth Jones, Foel Farm; Mrs. Irene Morris a Mrs. Betty Peris Roberts, Maes Eilian. Gwnaed y casgliad gan Mrs. Betty Roberts, Maes Eilian. Y gyfeilyddes oedd Mrs. Jennie Williams, Maes Eilian.

CAWL A CHAWS – Mawrth 7 yn y Ganolfan cynhaliwyd noson o Gawl a Chaws wedi ei drefnu gan Mr. Hugh Williams, Paradwys, Môn. Gwnaed trefniadau'r Cawl gan chwiorydd y pwyllgor. Offrymwyd y fendith gan y Parch Ifor L. Williams (B) Bangor. Dewiswyd y canlynol yn bwyllgor am y tynor nesaf.

Llywydd – Mrs. Irene Morris, Maes Eilian; Trysorydd – Miss Marian Jones, Bro Elidir; Ysgrifenyddes – Miss Olwen B. Roberts, Tŷ'r Ysgol;

Pwyllgor: Mrs. Alice Griffith, Tan y Bwlch; Mr. David J. Thomas, Maes Eilian; Mrs. Betty Peris Roberts, Maes Eilian; Mrs. Alice Thomas, Bro Eilidir; Mrs. Megan Morris, Minffordd; Miss Ellen W. Jones, Tŷ'n Fawnog; Mr. a Mrs. Hugh Williams, Paradwys Môn.

TE'R CHWIORYDD – Dydd Iau, Mawrth 7, cynhaliwyd Te'r Chwiorydd yn Festri Dinorwig M.C. Rhoddwyd y te gan Mrs. Irene Morris, Maes Eilian.

YN GWELLA – Da gennym ddeall for Mrs. Rita Wood, Fronheulog yn gwella wedi triniaeth yn Ysbyty Dewi Sant yn ddiweddar

DIOLCH – Dymuna Mrs. Maggie Evans, Dublin House, Dinorwig, ddiolch o galon i'r teulu, cymdogion a ffrindiau am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phen blwydd yn ddiweddar yn 87 mlwydd oed. Diolch yn fawr.

YN YR YSBYTY – Drwg gennym ddeall fod Mrs. Katie Griffith, Arwelfa, Dinorwig yn Ysbyty Gwyned. Dymunir gwellhad buan iddi.

CYDYMDEIMLO – Cydymdeimlir â Mrs. Katie Hughes a Mrs. David Hughes, 2 Maes Eilian, Dinorwig wedi marwolaeth ei chwaer Mrs. Gaynor Roberts, Y Rhyl yn ddiweddar. Derbynied ei chwiorydd Mabel, Mary ac Elsie, a'r cysylltiadau teuluol eraill ein cydymdeimlad llwyraf â hwy yn eu profedigaeth.

DR. BARNADO – Dymuna Mrs. Megan Morris, Minffordd, ddiolch o galon i'r casglwyr canlynol am eu gwaith yn casglui ar Apêl Cartrefi Dr. Barnado. Gwnaed casgliad o £30.00. Y casglyddion oedd Mrs. Batty L. Roberts, 11 Maes Eilian; Mrs. Irene Morris, 4 Maes Eilian; Mrs. Nellie Willims, 2 Bro Elidir; Mrs. Dilys Willims, Tŷ Capel Dinorwigg; Miss Elizabeth Thomas, Llidiart y Clo; Mrs. Elizabeth Jones, Foel Gron; Mrs. Megan Morris, Minffordd.

CYDYMDEIMLO – Cydymdeimlir â Mrs. Megan Morris, Minffordd yn ei anffawd o anafu ei throed. Brysied i wella.

DIOLCH – Dymuna Mrs. Mair Jones, 8 Victoria Street, Caernarfon, ddatgan ei diolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl garedigrwydd a ddangoswyd iddi tra yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar.

DIOLCH – Dymuna Dorothy a Gwenda Roberts, 8 Maude Street, Rhyl, a'r chwiorydd Mabel, Mary, Elsie a Katie ddatgan eu diolchgarwch cynhesaf i berthnasau a chyfeillion yn Ninorwig a Deiniolen am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd iddynt yn ystod cyfnod gwaeledd eu mam, ac yn ystod y brofedigaeth lem o'i cholli. Diolch yn fawr iawn am y rhoddion, y cardiau a'r llythyrau. Cafwyd dros £200 o bunnoedd at offer meddygol i Ysbyty Lluesty, Treffynnon.

I'R YSBYTY – Dymunir adferiad buan i Mrs. Alice Griffith, Tan y Bwlch, un o ddosbarthwyr yr 'Eco', ar ôl bod yn Ysbyty Dewi Sant, Bangor.

TE'R CHWIORYDD (eto)
Dydd Iau, Mawrth 21, cynhaliwyd Te'r Chwiorydd yn Festri Dinorwig M.C. Rhoddwyd y te gan Mrs. Betty L. Roberts, 11 Maes Eilian.

COFION – Ein cofion at y rhai sy'n cwyno yn yr Ysbytai ac yn eu cartrefi

**CRIST GERBRON PEILAT**

**Dros fai nas haeddai, mae'n syn – ei weled**
**Yn nwylaw Rhufeinddyn:**
**A'i brofi gan wael bryfyn,**
**A barnu Duw gerbron dyn.**

**Robert ap Gwilym Ddu**

AM FFENESTRI
DRYSAU
GRISIAU

neu unrhyw fath
o gynnyrch coed
ffoniwch

**BRYN**

**LLANBERIS 870793**

**B & K WILLIAMS**
**TANRALLT**
**CWM-Y-GLO**

# Agor Ffiniau'r Gorffennol

Gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

## COFIO GŴYL DDEWI 1971

Cefais ganiatad Pobl Telefisiwn Harlech i ddweud hanes dathlu Gŵyl Ddewi Sant ym Mhontcanna, Caerdydd ym 1971. Efallai fod rhai ohonoch yn cofio gweld y rhaglen ar y teledu. Wedi derbyn caniatad dywedais yr hanes yn fy ngholofn yn Yr Herald Cymraeg.

Mr. Gwilym Owen, Pennaeth Newyddion a Materion Cyfoes a roddodd wahoddiad i chwech ohonom fynd i Gaerdydd i gael cinio Gŵyl Ddewi a chymryd rhan ar raglen 'Yr Wythnos'. Yr oeddem i ateb gwahanol gwestiynau ar destun 'Yr Iaith Gymraeg'.

Cyfranwyr cyson i bapurau Cymraeg yng Nghymru oeddem i gyd. Nid newyddiadurwur proffesiynol deallwch, ond colofnwyr sy'n mwynhau rhoi eu syniadau ar bapur. Mewn gair anrhydedd oedd y gwahoddiad i chwech o bobl y werin fydd yn arfer sgrifennu ar gyfer y werin.

Yr oedd staff Teledu Harlech wedi paratoi croeso mawr a gwledd odidog ar ein cyfer! Rwy'n siwr y caniatewch i mi ddiolch unwaith eto yn gynnes iawn iddynt am drefnu ymweliad a roddodd gymaint o foddhad i mi. Nid a'n ango!

Dyma enwau'r gwesteion: David Wyn Owen, Aberdaron; John Llewelyn Roberts, Penygroes; Myrfyn Owen, Rhyl; Abiah Roderick o'r De; Jac Oliver, Llanbedr, a minnau yn cynrychioli'r Herald Cymraeg. Pedwar o'r Gogledd a dau o'r De. Cawsom hwyl a digon o ffraethineb. Trist yw meddwl fod rhai ohonynt erbyn hyn wedi mynd at eu gwobr.

Y Swyddogion

Yr oed saith o swyddogion Harlech yn eistedd wrth y bwrdd cinio gyda ni. Ar ben y bwrdd yr oedd Mr. Gwilym Owen. Ar ben y bwrdd yr ochr arall yr oedd Mr. Gwyn Llewelyn. Yn eistedd wrth fy ochr i yr oedd Mrs. Eleanor Mathias, golygydd 'Y Dydd'(o Sir Benfro). Yr oedd Mr. Peter Elias Jones, Cyfarwyddwr Rhaglenni Newyddion yno, a Mr. Cenwyn Edwards, holwr o Langennech, Sir Gaerfyrddin. Mr. Vaughan Hughes a Mrs. David Meredith. Gwelwch felly fod yno saith o swyddogion, a chwech o'r gwesteion. Yr oedd tri ar ddeg wrth y bwrdd cinio.

Yr oedd rhai o aelodau'r staff oddi cartref. Yr oedd Mr. Wynford Vaughan Thomas yn siarad gyda'r Gymdeithas Gymraeg ym Mharis.

Un arall yr edrychais ymlaen am ei weld oedd Gwyn Erfyl ond yr oedd gyda Chymrodorion Bristol. Yr oedd Mr. David Meredith yn mynd oddi wrthym i Gasnewydd.

Y Wledd

Daliwyd fi mewn syfrdan wrth edrych ar y bwrdd wedi ei osod yn berffaith, a'i addurno yn hardd â Chennin Pedr, ac wedi ei lenwi i'r ymylon gyda bwydydd Cymreig blasus a maethlon. Cefais yr anrhydedd o ofyn bendith Duw ar y bwyd. Eisteddodd pawb wedyn i fwyta, sgwrsio, rhannu profiadau ac atgofion.

Pan ofynnwyd i mi beth gymerwn i'w yfed, atebais heb oedi, 'Cwpaned o ddwfr oer os gwelwch yn dda', ac ychwanegu
'Da i bawb yw diod bur
Un eto o win natur'.

Meddai Mr. Gwyn Llewelyn, 'Wel wir, Mari Lewis, mae'r ffordd yn rhy bell i fynd i nôl dwfr i chwi i Ffynnon Felin Fach, felly a gymerwch chwi ddwfr o Loegr, a pheth arall i beth yda chi eisiau cwpan i ddal y dwr?'

Atebais innau
'Am mai cwpan oedd gan Dewi Sant i yfed dwr ohoni'.

Meddai Gwyn Llewelyn wrth roi cwpaned o ddwr i mi,
'Yr ydym yn cynnig gwin gorau'r byd i chwi, ond mae'n well ganddo chi win Adda, a dyma fo.'

Cododd Mr. Meredith ar ei draed a dweud
'Ysgwydwch law Mari Lewis, yr wyf yn hollol gydweld â chwi.'

Gwenodd pawb ac aed ymlaen gyda'r cinio.

Ar ôl y wledd aethom i lawr i'r stiwdio a chawsom gwpaned o goffi a bisgedi ar y bwrdd mawr crwn.

Y Rhaglen

Dywedodd Mr. Gwilym Owen mai'r Iaith Gymraeg fyddai testun y drafodaeth a chawsom ymarfer un waith.

Yr oedd cant a mil o bethau i'w gwneud gyda'r peiriannau oedd o'n cwmpas ac uwch ein pennau.

Atebion o'r frest ar y foment i raddau oedd ateb pob un ohonom. Dyna ddisgwylidi ni wneud, sef rhoi ein barn bersonol ein hunain heb flewyn ar dafod. Bu pob un ohonom yn onest ei farn hefyd.

Pan ddywedais i fod angen cefnogi hen fwydydd Cymreig, dywedais yr hyn a gredaf, a byddaf yn gwneud hynny. Bwyta mel, bara ceirch, caws, llaeth enwyn, a thatws trwy'i crwyn, a gwisgo dillad o frethyn cartref o ffatri wlân Cymru. Mewn geiriau eraill os am iechyd da, rhaid cael cynhesrwydd oddi fewn mewn bwydydd a chynhesrwydd oddi allan gyda gwlan y ddafad.

SWYN

**Rhyw fyd geir o yfed gwin - difesur**
**Hud wefusau cyfrin:**
**O wynfyd! bod yn fin-fin**
**Â'r angel oedd ar 'y nglin.**

**T. Jones Parry**
**Dinorwig**

## GŴYL GYHOEDDI EISTEDDFOD YR URDD 1986
## DYFFRYN OGWEN A'R CYLCH

Dramau, gala nofio, noson roc, rasus rhedeg, cymanfa ganu a 'Swper Chwarel': dyna rai o'r gweithgareddau a gynhelir yn ystod Wythnos Cyhoeddi Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru Dyffryn Ogwen a'r Cylch, 1986.

Bydd yr Ŵyl Gyhoeddi yn cychwyn ar ddydd Sadwrn, 27 Ebrill ac yn gorffen gyda Seremoni y Cyhoeddi ar gaeau Ysgol Dyffryn Ogwen, Bethesda brynhawn Llun, 6ed o Fai.

Agorir yr Ŵyl yn swyddogol gan Faer Cyngor Dinas Bangor, y Cynghorydd Miss Iris M. Parry, a fu'n drefnydd yr Urdd yn Eryri am gyfnod, mewn seremoni yng nghaeau Hirael brynhawn Sadwrn, 27 Ebrill. Cyn hynny, bydd aelodau Adrannau yr Urdd ym mro'r Eisteddfod yn gorymdeithio i lawr Stryd Fawr, Bangor, gyda Seindorf Arian Llanrug yn arwain. Yna ceir adloniant yng nghwmni Edward Morus Jones, a chwaraeir gemau terfynol cystadlaethau pêl droed pump bob ochr a phêl rwyd pump bob ochr.

Nos Sadwrn, bydd Gala Nofio i aelodau'r adrannau ym Mhwll Nofio Bangor. Yng Nghapel Pendref, Bangor y cynhelir y Gwasanaeth Ieuenctid fore Sul, 28 Ebrill am 11.30 o'r gloch, dan arweiniad y Parch John Gwilym Jones, a bydd disgyblion o Ysgolion Uwchradd Friars, Tryfan a Dyffryn Ogwen yn gwasanaethu.

'Swpar Chwaral' yw teitl y noson a gynhelir yn Ysgol Penybryn, Bethesda, nos Lun, 29 Ebrill, pryd y cewch luniaeth ynghŷd â'ch swyno gan y grŵp Traed Wadin, ac yna cyfle i ddawnsio mewn Twmpath Dawns dan ofal Mr. Len Jones, Penisarwaun. Dechreuir am 7 o'r gloch a phris y tocynnau yw £ 1yr un.

Noson o ddramau a geir nos Fawrth, 30 Ebrill, gyda pherfformiadau gan dri chwmni lleol mewn tair canolfan wahanol. Bydd Cwmni Drama Tregarth yn perfformio yn y Felinheli; Cwmni Llechen Las yn perfformio yn Rhiwlas, a Chwmni Penrhosgarnedd yn performio yn Nhregarth.

Cynhelir Disgo i ddisgyblion cynradd y cylch yn Neuadd Ysgol Dyffryn Ogwen, Bethesda nos Fercher, Mai 1, gyda'r mynediad yn rhad ac am ddim, a chwaraeir gêm bêl-droed ar gae Parc Meurig, Bethesda nos Iau Mai 2, gydag enwogion fel John Ogwen, John Hardy a Ffrancon Roberts yn dangos eu dawn gyda'r bêl.

'Chwarel a Chei' yw thema cyngerdd plant ysgolion cynradd bro'r Eisteddfod a gynhelir yn Neuadd Pritcahrd Jones, Coleg y Brifysgol, Bangor nos Wener, Mai 3. Ni fydd tâl mynediad ond gwneir casgliad yn ystod y noson i dalu'r costau.

Cynhelir Râs y Cyhoeddi yn Ysgol Dyffryn Ogwen ddydd Sadwrn, 4 Mai, am 1 o'r gloch. Bydd Rasus ar wahan (2.5. milltir) i fechgyn a genethod dan 11 oed, dan 13 oed, a than 15 oed, a rasus 8.2 milltir i rai dan 18 oed, dynion dros 40 oed a merched dros 35 oed. Cyflwynir tlysau i enillwyr pob dosbarth, a bydd tystysgrif i bob rhedwe fydd yn cwblhau'r cwrs.

Ceir ffurflenni cystadlu oddi wrth O.G. Jones, 1 Erw Las, Bethesda, a rhaid eu dychwelyd cyn 27 Ebrill.

Cynhelir Noson Roc gyda Maffia Mr Huws a Ffenestri yn Neuadd John Phillips, Bangor, nos Sadwrn 4 Mai.

Cymanfa Ganu dan arweiniad Mr. Arwel Jones (Hogia'r Wyddfa) a gynhelir nos Sul, 5 Mai, yn Nghapel Jeriwsalem, Bethesda, a'r organydd fydd Mr. Ieuan Llewelyn Jones.

Dydd Llun, 6 Mai, fydd pinacl yr Ŵyl pan gynhelir Seremoni'r Cyhoeddi. Bydd holl adrannau'r Urdd ym mro'r Eisteddfod yn gorymdeithio i lawr Stryd Fawr Bethesda ac i fyny Lon Newydd Coetmor i gaeau chwarae Ysgol Dyffryn Ogwen. Yn y Seremoni am 2 o'r gloch cyflwynir copi cyntaf o Restr Testunau'r Eisteddfod i Mr. Ifan Prys Edwards, Llywydd yr Urdd.

Ceir eitemau gan ddisgyblion Ysgolion Friars a Tryfan, a chennir y Cywydd Croeso o waith Ieuan Wyn, gan barti o Ysgol Dyffryn Ogwen. Wedi'r Seremoni bydd stondinau y pwyllgor apêl lleol ar agor, a chynhelir Râs Llew Llechan pan fydd timau o bob un o'r pwyllgorau apêl yn cystadlu yn erbyn ei gilydd.


M. ROWLANDS
MONUMENTAL MASONS
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 2898
(Sefydlwyd ers dros 35 mlynedd)
Crefftwaith llaw, e.e., Old English/Gothic gan un â thros 32 o flynyddoedd o brofiad
Cerrig newydd a gwaith adnewyddu: dim ots pa mor bell
Stoc helaeth o'r cerrig gorau: dyfynbris am ddim
AR AGOR 6 DIWRNOD YR WYTHNOS

W.J.GRIFFITH
PLYMAR
A GOSODWR
GWRES CANOLOG
PANT TIRION, LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 3248
GOSODWR SWYDDOGOL
SYSTEMAU
GWRESOGI OLEW
GWRES BP
Aelod o'r National Association of Plumbing and Mechanical Services Contractors.
Dim un dasg rhy fychan,
Dim un dasg rhy fawr..

Dysgwch yrru'r car gydag
Y.Y.O.
YSGOL YRRU OFALUS
* Gwasanaeth 7 diwnod
* O ddrws i ddrws
* Control Deuol
D L
PRITCHARD
43 glanffynnon
LLANRUG
CAERNARFON 5112
Cymeradwyir gan yr Adran Drafnidiaeth

# WAUNFAWR

**Gohebydd: Mrs. G. Jones, Rhandir Mwyn (Waunfawr 626)**

MAWRTH 1af – Daeth chwiorydd y pentref i gapel Croesywaun dan nawdd Gwasanaeth Dydd Gweddi Byd Eang y Chwiorydd. Cafwyd cyfarfod gwefreiddiol a bendithiol iawn, a'r rhaglen yn cynnwys cynrychiolaeth o Eglwys St., Ioan, yr Annibynwyr a'r Methodistiaid Calfinaidd, capel Bethel a Chroesywaun. Arweinydd y cyfarfod oedd Miss B.M. Jones ac yn ei ffordd hynaws ei hun diolchodd i bawb oedd yn cymryd rhan, ac hefyd yr aelodau ffyddlon am eu presenoldeb eleni.

CANGEN PLAID CYMRU, WAUNFAWR –
Dyddiadau i'w cofio ym 1985
Ebrill – Canfasio
Mai 2il – Etholiadau'r Cyngor Sir
Mai 24ain – Yn y Ganolfan, 7.30 o'r gloch:- 'Hwyl, Paned a Sgwrs' 'Siona Sian' dan ofal Norman Williams a sgwrs gan Elfed Roberts, Tryfnydd y Blaid
Mehefin – Gwibdaith ddifyr ac addysgiadol i'r teulu yng nghwmni John Huws
Gorffennaf 20fed – Barbaciw dan ofal Dic Jones
Medi 20fed – Noson Goffi yn y Ganolfan am 6.30 o'r gloch yng nghwmni'r Aelod Seneddol
Rhagfyr 6 – Ffair Nadolig yn y Ganolfan am 6.30 o'r gloch
Swyddogion y Gangen
Cadeirydd – Dafydd Iwan
Is-Gadeirydd – Mrs. Mary V. Jones
Trysorydd – John Gwynedd Jones
Ysgrifennydd – Irene Roberts
Ysgrifennydd Aelodaeth – Dic Jones
Os am ragor o fanylion ynglŷn â'r dyddiadau uchod cysyllter ag Irene Roberts (ffôn: Waunfawr 545)
Cofiwch nodi'r dyddiadau uchod – dyma eich rhaglen tan y Nadolig

Mae cyfranidau hael gan ŵyr busnes o Waunfawr wedi galluogi tîm pêl droed dan 16 oed yn y pentref i brynu set o grysau newydd sbon. Mae'r pwyllgor yn hynod ddiolchgar i Swyddfa Bost, Waunfawr, Storfa Tŷ Newydd a Thafarn Bryneirian am eu cyfraniadau gwethfawr.
Penodwyd y pwyllgor canlynol i redeg y clwb: Cadeirydd – Eurig Wyn; Ysgrifennydd – Pat Skidmore; Trysorydd – Don Roberts; Pwyllgor – Anthony Dean, Huw Ynyr, Rob Jones, Rol Williams, Gareth Jones, Gerald Rowlands, Gari Davies, John Gwqynedd.
Gwneir ymholiadau erbyn y pwyllgor nesa ynglŷn â chôst goleuadau i ymarfer ar gae'r Ganolfan.

CRONFA CANOLFAN WAUNFAWR – Dyma restr o enillwyr y Clwb 300 am fis Chwefror:
1. £40 I.Bracegirdle, 23 Bro Waun, 2. £25 Mrs. Parry Williams, Gwynfa, 3. £10 Mrs. Gweneirys Jones, Cartrefle.

LLONGYFARCHIADAU – I Christopher Raymond Owen, 'Heathfield', ar ei briodas â Iona Pritchard o Gaeathro.
I Marlene Roberts, Ael y Bryn, ar ei dyweddïad ag Adrian Williams, Maes Tryfan, Y Groeslon.
I Gwyneth Ellis, Glyn Awel, ar ei phenblwydd yn ddeunaw oed.
I Adrian Owen, Dol Erdd, am fod y gorau yn ei ddosbarth dan 15 oed fel rhedwr yn yr Eryri Harriers. Cyflwynwyd tarian iddo yng Ngwesty Victoria, Llanberis.
I Mr. a Mrs. O.T. Jones, 13 Bryn Goleu, ar fod yn daid a nain unwaith eto. Ganwyd mab i Alwyn a Helen yng Nghaernarfon.
I Mr. Humphrey Jones, Tŷ Coch, ar ei lwyddiant yn ennill yr ail wobr a tharian ar yr emyn dôn dros 50 yn Eisteddfod Trawsfynydd yn ddiweddar.
Hefyd llongyfarchiadau i Alun Williams, Bro Waun, ar ennill y wobr gyntaf ar yr Unawd Baritone, yr ail wobr ar y Brif Unawd, cydradd ail yn y Gân Werin a'r cyntaf gyda Humphrey ar y ddeuawd. Hefyd enillodd Mrs. Meira Turner y wobr gyntaf a chwpan ar y Brif Adroddiad, yr oll yn Eisteddfod Marian Glas, Ynys Môn.

CYDYMDEIMLWN â Mr. W.O. Williams, Rhes Cefn Du ar golli brawd, sef Mr. John Williams, Hendre.

CLWB 100 PLAID CYMRU – Dyma restr o enillwyr y Clwb 100 am fis Chwefror:
1. Emlyn Williams, Aneddle
2. Dic Jones, Llwyn Onn
3. Iris Owen, Stâd Tŷ Hen.

ADREF O'R YSBYTY – Da iawn yw deeall fod amryw o'r pentrefwyr yn gwella ar ôl eu arhosiad yn yr Ysbyty, sef Mrs. Glenys Williams, Plas Glyn Afon; Mr. Raymond Williams, Garej Whiteways; Mr. Glyn Owen, Glan Gors; Mr. R.W. Roberts, 9 bryn Golau; Mrs. Hugh Parry, Bro Waun; Mr. Arfon Hughes, Manchester House; Mrs. Roberts, Elwy House; Ifan MOrgan, Pen y Graig a Mr. T.A. Thomas, Gilfach.

CRWYDRO – Y mae pedwar aelod cerddorol o'r pentref wedi cael gwahoddiad i ymuno â Cherddorfa Siambr Gwynedd i ymweld â gwlad Ffindir. Bydd Sian a Bridget Barnes, Fach Goch, ac Anthony a Joanna Marston, Blaen y Nant, yn ymadael o Faes Awyr Heathrow am Helsinki ar ddydd Gwener, Mawrth 29. Ar ôl aros noson yno, byddant yn trafaelio 350 milltir i'r gogledd bron i ddiffeithwch Lapland, cyn cyrraedd Kajaani ac yn aros fel gwestai i deuluoedd lleol. Bydd y Gerddorfa yn rhoi dau gyngerdd yno, ac hefyd yn chwarae yn yr ysgol leol.
Fel rhan o'u rhaglen byddant yn chwarae cerddoriaeth dau gyfansoddwr Cymreig, sef Wiliam Mathias ac Alun Hoddinott.

YR YSGOL – Mawrth 1af - Gŵyl Ddei cafwyd gwasanaeth arbennig yn y bore a chyngerdd yn y prynhawn i ddathlu'r Ŵyl. Prynhawn Iau, 7ed o Fawrth, rhoddwyd cyngerdd i aelodau Clwb Gwyrfai. Yn dilyn y cyngerdd eisteddodd yr aelodau i de moethus wedi ei roddi gan rieni plant Safon 4 ac wedi ei baratoi gan Staff y Gegin. Diolchwyd i bawb gan gadeirydd Clwb Gwyrfai, y Parch Barry Thomas.

TÎM PÊL DROED – Waunfawr 6 - Rhosgadfan 0.
Dyna ganlyniad y gêm bêl droed a chwaraewyd ar gae'r Ganolfan bnawn Mercher, 13 Mawrth. Sgoriwyd 4 gôl gan Kevin Tame a gôl yr un gan Gareth James ac Osian Gwynedd.

CÔR PLANT YR YSGOL – Gwahoddwyd y côr, dan arweiniad Mrs. E. Eames i roi cyngerdd ym Mryn y Castell, Llanfairfechan, nos Wener 8 Mawrth. Daeth nifer dda o rieni a ffrindiau gyda'r plant a chafwyd noson lwyddiannus iawn.

RADIO CYMRU – Clywyd Côr yr Ysgol a lleisiau Ella Wyn Jones, Gwenan Jones, Bethan Wyn, a Rhys Sion ar y rhaglen 'Cerddwn Ymlaen' nos lau 6 Mawrth. Llongyfarchiadau iddynt am wneud eu gwaith mor rhagorol.

THEATR MEWN ADDYSG GWYNEDD – Ymwelodd y cwmni newydd yma â'r ysgol brynhawn Mawrth, 12 o Fawrth a rhoddwyd perfformiad addysgiadol ar Lygru'r Amgylchedd i blant Safon 3 a 4. Mwynhaodd y plant y perfformiad yn fawr.

MERCHED Y WAWR – Cynhaliwyd cyfarfod mis Chwefror yn y Ganolfan nos Iau, Chwefror 28. Croesawyd Mrs. Pat Skidmore yn aelod newydd gan y llywydd Mrs. Olwen Williams a chydymdeimlwyd a Mrs. Parry, Clydfan, a Mrs. Edith Ellis a oedd yn absennol oherwydd gwaeledd. Cafwyd adroddiad gan Mrs. Catherine Jones, Bryn Derwen o'r Pwyllgor Rhanbarth. Bydd y gangen yn cymryd rhan ym Miri Mai yn Ysgol Syr Hugh Owen ar Fai 17. Bydd angen rhai i gymryd rhan i ganu, actio, a.y.b. – enwau i Mrs. Cadi Jones neu Mrs. Nan Hughes Roberts. Atgoffwyd aelodau y bydd yr Ŵyl Wanwyn Mai 11 – enwau a thâl o £6 i Margaret Wyn Ellis, Arfryn, Trefor cyn Ebrill 1. Gofynnwyd i Mrs. Gillian Brown a Mrs. Eluned Roberts gynrychioli'r gangen ar Bwyllgor Rhanbarth Celf a Chrefft.
Mrs. M. Awstin Jones a Mrs. K. Wyn Jones fydd y cynrychiolwyr i'r Cyngor Cenedlaethol ar Mai 4.
Llongyfarchwyd Mrs. Catherine A. Jones, Bryn Gwenallt ar enedigaeth ŵyr arall – y plentyn cyntaf i Alwyn a'i wraig.

Bydd rali'n cael ei threfnu gan Bwyllgor Rhanbarth yr Anabl yng Nglynllifon ar Mai 25 – yr elw at blant â nam corfforol.

Cafwyd swper Gŵyl Ddewi ardderchog wedi ei drefnu gan y Pwyllgor, a chystadleuaeth Anagram gan Mrs. Gweneirys jones. Yr enillydd oedd Mrs. Mary Vaughan Jones.

Diolchwyd i Mrs. Gweneirys Jones ac hefyd i Mrs. Catherine Jones, Bryn Derwen, a oedd yn gyfrifol am drefniadau'r noson. Rhoddwyd y raffl, a enillwyd gan Mrs. Annie Roberts, gan Mrs. Nan Hughes Roberts.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL – Cynhaliwyd swper yn y Ganolfan nos Lun, Mawrth 11 i gloi tymor llwyddiannus o'r Gymdeithas Lenyddol. Roedd nifer o ferched y Gymdeithas wedi trefnu danteithion hynod, a chalondid oedd gweld dros 50 o aelodau yn eistedd wrth y byrddau i fwynhau'r wledd. Y gŵr gwadd oedd Mr. Dei Tomos, Nant Peris, gynt o Fryn Elen. Yn dilyn y swper cafwyd noson o adloniant hwyliog o dan arweiniad Mr. Rol Williams, a chafwyd eitemau gan Mr. Alun Williams, Mr. Humphrey O. Jones gyda Mrs. Myra C. Turner ar y piano. Talwyd y diolchiadau gan Mr. R. Gwynn Davies a'r arweinydd. Cytunwyd yn unfrydol i gael gwibdaith hanesyddol fin nos yn ystod mis Mehefin – bydd manylion yn yr Eco yn nes ymlaen yn y flwyddyn.

SEFYDLIAD Y MERCHED – Dathlwyd Gŵyl Ddewi gan aelodau Sefydliad y Merched yn Festri Croesywaun nos Iau diwethaf. Cafwyd swper ardderchog wedi ei baratoi gan aelodau'r pwyllgor. Croesawodd Mrs. Pat Parry, y Llywydd, Mr. Emyr Jones o Gaernarfon, y gŵr gwadd. Cyfeiriodd Mrs. Parry ato fel un o'r Waun, a hefyd ei longyfarch am yr holl wobrwyon a enillod trwy ysgrifennu. Siaradodd Mr. Jones yn ddiddorol iawn am yr amser pan yn gweithio yn chwarel Dinorwig. Adroddodd hanesion doniol a hefyd dynwared rhai o'r'cymeriadau' a oedd yn gweithio yn y chwarel yr amser honno. Diolchwyd i Mr. Jones gan Mrs. M. Morgan Jones. Cydymdeimlodd y Llywydd â Mrs. Buddug Rowlands, a oedd yn absennol oherwydd gwaeledd. Croesawodd hefyd Miss Eirlys Jones, chwaer Mr. Jones, i'r cyfarfod. Enillwyd y raffl, oedd wedi ei roi gan Mrs. Overy, gan Mrs. Pat Parry. Rhoddwyd y blodau ar fwrdd y Llywydd gan Mrs. Peggy Jones.

YR URDD – Daeth mis Mawrth â llawer o brysurdeb i aelodau o'r Adran unwaith eto. Cafwyd cyfarfod yng nghwmni'r heddlu nos Fercher, Chwefror 27 ond ar Fawrth 6, cafwyd noson gan rai o'n haelodau yn ymarfer ar gyfer yr Eisteddfod Gylch. Rydym yn falch iawn o'r plant fu'n cystadlu, ac mae nifer wedi llwyddo i gyrraedd yr Eisteddfod Sir, sef Elin ar adrodd, Gwennan ar y ffliwt. Kevin a Suzanne ar y corn a'r baritone, y parti recordyddion, y parti cerdd dant a pharti unsain y genod. Pob hwyl iddynt yn yr Eisteddfod Sir. Rhaid llongyfarch y plant hŷn hefyd, sef Telor ac Elliw am eu llwyddiant ar y ffliwt a'r obo, ac mae Elliw wedi llwyddo i gyrraedd yr Eisteddfod Genedlaethol. Da iawn wir! Bydd y parti unsain a'r parti cerdd dant dan 15 oed yn cystadlu yng Nghaerdydd hefyd.

Oherwydd yr holl weithgarwch yma, enillod yr Adran darian yn yr Eisteddfod Gylch ym Mrynrefail ac un arall yn yr Eisteddfod Sir ym Mhenygroes.

Gobeithio y cawn gymorth pawb i anfon y plant i'r Eisteddfod yng Nghaerdydd.

CLWB GWYRFAI – Ar Fawrth 7 cafodd aelodau'r Clwb bnawn difyr iawn, ar wahoddiad y prifathro, i ymuno a'r plant yn yr ysgol i ddathlu Gŵyl Ddewi. Dechreuwyd gyda gwasanaeth gan y plant hŷn, ac i ddilyn, cyngerdd ardderchog gan bob dosbarth, yn cynnwys cân actol effeithiol iawn gan blant bach yr Hafod wedi eu hyfforddi gan Mrs. Hughes a Mrs. Williams. Roed yn amlwg fod gwaith trwyadl ar bob agwedd o gerddoriaeth wedi ei wneud gan Mrs. Eames a Mrs. Ellis. Diolchodd y llywydd y Parchedig Barry Thomas i'r prifathro a'r athrawon ar ein rhan. Hefyd i staff y gegin oedd wedi paratoi te blasus, wedi ei gyfrannu gan blant dosbarth 4.

Mae'r ymweliad blynyddol yma i'r ysgol yn un o uchafbwyntiau ein cyfarfodydd ac yn pwysleisio'r cysylltiad cynnes rhwng yr Ysgol a Chlwb yr Henoed.
Mawrth 14 – Cyfarfu y Clwb yn y Ganolfan a dymunwyd adferiad buan i rai aelodau oedd yn analluog i fod yn bresennol. Mae cysylltiad agos 'r Waun a'n gwraig wadd, sef Miss Lyn Roberts, ar hyn o bryd yn byw yn y Bontnewydd. Bu yn gweithio yn Llundain am 30 mlynedd, a'i gwaith anarferol i ni, oedd ditectif yn rhai o'r siopau mawr yno. Rhoddodd Miss Roberts hanes ei hyfforddiant a'i phrofiadau arswydus ar adegau ym mhob agwedd o'i gwaith, ar wahan i droseddau fel dwyn – sy'n golygu colledion anhygoel bob dydd. Bydd yn dychwelyd i Lundain yn fuan i hyfforddi hrai yn yr un gwaith mewn siopau fel Harrods a Selfridges. Diolchwyd i Miss Roberts gan Mrs. Morgan Jones. Enillwyd y raffl, rhodd Miss Gladys Lewis, gan Mrs. Pritchard, Tref Eilian.

**Cefnogwch ein Hysbysebwyr**

MAE'R
**SAMARIAID**
YN GWRANDO,
YN ABBEY ROAD
**BANGOR**
**354646**

# TALWRN Y BEIRDD

Bu tîm Llanrug yn cystadlu yn erbyn Bro Alaw, Ynys Môn yn Llangefni yn ystod y mis diwethaf. Colli fu eu hanes o 45 a hanner i 43a hanner pwynt.

1. Cywydd: Abaty Cwm Hir

I weled – dim ond olion
Y graith yn y fangre hon;
Beddrod dirgel Llywelyn,
Yn oer glai daear y glyn.

Suon dwyster offeren
Fwria hud ar furiau hen
Ar fynwes cysegr-feini,
Yn oer ei sawr a'i hias hi.
Rhyw ysbrydion aflonydd,
Sarnant hedd diwedd y dydd;
A hen Abaty yno,
A dagrau oes hyd y gro.

Harri Jones

Limrig: Hen Hosan

Mae trwsio y tyllau'n drafferthus,
Dileu'r arogleuon yn gostus;
Bu'n gyfaill nodedig
Mi cadwa'i am 'chydig
I ddal presant 'dolig y musus.

Glyn Parri

3. Day Englyn Cil-dwrn: Y Cynffonwr

I'w 'frawd' mae hwn yn fradwr, -a'i wen ffals
Er ffafr ei gyflogwr:
Cachwr.

Plygu glin, llyfu tinau – ei 'Yes-sir'
Yn hisian o'i enau:
Ninnau?

Len Jones

4. Cân gyda geiriau mwys
Annwyd

Gwcw annwyl bydd yn gennad,
Dos yn llatai at fy nghariad;
Dos yn fuan, dywed wrthi –
Dos o annwyd gefais ganddi.

Annwyd cas ac annwyd creulon,
Annwyd tanbaid dan fy nwyfron;
Annwyd wna i'm calon frifo
Ac a roes i'm gusan bopo.

Dolur annwyd yn fy nghalon,
Dolur am ei chael yn union;
Ond mae annwyd yn fy nghadw
Rhag mynd ati – dos di gwcw.

Dafydd Whiteside Thomas

5. Ateb llinell

Islwyn fu'n gwylio'r Reslo
Orig ei hun i'w wraig o.

Dafydd Whiteside Thomas

6. Telyneg: Bai

O nef yr oedfa dont yn ôl i'r byd
Ffyddlon griw y betws ar fore Sul;
Yr hen, hen hanes sydd yn dal o hyd
I'w hannog i dramwyo'u llwybrau cul:
Codant goleri -parchus rhag y gwynt
Sy'n bygwth anesmwythyd ar eu hynt.

Mor felys nodau'r organ yn y clwb
A churiad 'Calon Lan' wrth bympiau'r bir;
Criw'r oedfa arall sydd yn ceisio hwb
Ar eu dyrys daith i ryw Ganan dir;

Os ydyw tynfa Seion heddiw'n llai
Pwy ydyw'r pechaduriaid mawr eu bai?

Twrog Jones

7. Hir-a-thoddaid: Ynys Enlli

Un nos o hunllef am Ynys Enlli,
Nid saint a welais, nid swnt a heli,
Na hudol dristwch hen chwedlau – drosti
Yn hysio i fol heb y gras i foli,
Bywtalwr, hen boteli. Wedi'r moch,
Heddiw a wyddoch beth ddigwydd iddi?

John Roberts

8. Cyfarchiad Pen-blwydd i Aelod Seneddol
I un o aelodau'r SDP

Wel dyma ddydd i lawenhau
I foi mnor hoff o barti,
Sawl un a gefaist erbyn hyn?
'Ry'm ni 'di stopio cyfri.
Ai oed 'r addewid heddiw ddaeth?
Yn wir, gobeithio'n arw
Na chawn ein siomi, onid hwn
Fai'r cyntaf iti gadw.
Ol-nodiad
Os nad yw'r cerdyn wrth dy fodd,
'Rwy'n siwr na fyddi'n becso
Defnyddia'r amlen, neu gefn stamp
I sgwennu'th faniffesto.

Twrog Jones

9. Englyn yn cynnwys y llinell:
Corrach ymysg y cewri –
Castell Dolwyddelan
(Castell Cymreig yng nghanol rhai Edward)

Corrach ymysg y cewri – yn arwydd
O ddewrion Eryri;
A'r fan lle rhoed ar feini
Waed eu nerth, a'n rhyddid ni.

Glyn Parri

10. Pennill Ymson: Ysbryd

Yn gnawd ac asgwrn fe leddais i
Gan dywallt gwaed yn ddugoch li;
Fe'm crogwyd yma ger Llyn y Rhos
I ddychryn teithwyr 'nhrymder nos
Dwy ganrif bellach o fwynhau fy hun
Yn codi arswyd ar bob dyn –
Bw-hw, bw-hw;
–Rwy'n drist ac unig erbyn hyn
Ers agor 'by-pass' 'rochr draw i'r llyn.

Dafydd Whiteside Thomas

11. Englyn: Miaren
(sef torpido Mrs. Thatcher)

Gwaed hawdd oedd ei phigiad hi – yn ystlys
Y bostlawn Galtieri;
Trodd cyfog swyddog a'i si,
Fiaren yn fieri.

John Roberts

Bydd tîm Llanrug yn cystadlu yn erbyn tîm Dinbych yn y rownd nesaf, a darlledir y rhaglen yn ystod mis Ebrill.


**CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR**



**IEUAN WILLIAMS**

Glanffrwd
**DEINIOLEN**
**Llanberis 870484**

* Bysus o 12 i 53 sedd
* Teithiau Lleol a Thramor
* Gwaith Contract
* Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol


## GALW TEULUOEDD

Mae HTV ar gychwyn recordio cyfres newydd o gwisiau Cymraeg, i'w recordio yng Nghroes Cwrlwys, Caerdydd yn ystod y misoedd nesaf (gweler y dyddiadau isod). Cwis ar gyfer timau o deuluoedd fydd y gyfres hon; sef gŵr a gwraig ac un plentyn, (rhwng 11 a 14 mlwydd oed).Nid oes rhagor o fanylion am y rhaglen ei hun ar hyn o bryd.

Bydd HTV yn talu costau teithio'r cystadleuwyr, a lle bo angen trenfu llety, oherwydd pellter teithio ac fe delir costau'r llety gan HTV.

Dyma'r dyddiadau recordio: dyddiau Llun a Mawrth, Mai 13 a 14; dyddiau Mawrth a Mercher, Mai 28 a 29; dyddiau Iau a Gwener, Mehefin 13 a 14.

Os ydych a diddordeb anfonwch eich enwau'n llawn, oedran, rhifau ffôn (cartref a gwaith), cyfeiriad a'ch gwaith i Marc Evans (Ymchwilydd) HTV, Y Ganolfan Deledu, Croes Cwrlwys, Caerdydd, CF5 6XJ

# GŴR Y GADAIR



Os gwyliwch chi S4C nos Fercher, Ebrill 10, am 7.30 o'r gloch, fe welwch chi'r wyneb cyfarwydd yma – Hywel Roberts, Hafod Llan, Bethel. Hywel yw testun rhaglen hanner awr o'r enw 'Gŵr y Gadair' a ddarlledir y noson honno. Ynddi, dilynwn gyfnod yn ei hanes yr haf diwethaf.

Gweithiwr gyda'r Comisiwn Coedwigaeth oedd Hywel nes iddo gael damwain ddifrifol wrth ei waith 15 mlynedd yn ôl a'i parlysodd o'r wasg i lawr. Er ei fod yn gaeth i'w gadair cawn weld nad creadur segur mo Hywel o bell ffordd. Fe'i gwelwn yn cymryd rhan mewn treialon cŵn defaid lleol (bu'n hyfforddi cŵn defaid ers blynyddoedd), yn saethu gyda'i feibion yng nghyfraith ac yn rhoi'r byd yn ei le gyda'i ffrindiau ffraeth. Daw'r rhaglen i ben gyda golygfeydd o briodas ei ferch ieuengaf lle y tynnwyd y llun hwn.

Cymydog i Hywel am saith mlynedd, Dewi Huws – is-gyfarwyddwr gyda Ffilmiau'r Tŷ Gwyn, Llanllyfni, fu'n gyfrifol am gyfarwyddo'r rhaglen ddogfen hon. Bu'r ffaith i Dewi gael y cyfle y adnabod ei destun yn dda dros gyfnod felly yn fantais amlwg wrth baratoi'r portread hoffus yma. Gwyliwch y canlyniad nos Fercher, Ebrill 10.


**Padarn Lake Hotel**

Perchnogion
Terry a Val Skilki
**STRYD FAWR**
**LLANBERIS**
**870260**

- Beth am bryd o fwyd yn ein Bar Lolfa newydd, hardd a chyfforddus, sydd ar agor amser cinio a fin nos, saith diwrnod yr wythnos.
- Yn ein ystafell fwyta hefyd cewch ddewis rhagorol o brydau Table d'Hote ac À la Carte. Croesewir plant.
- Mae ein llofftydd newydd gael eu hadnewyddu'n foethus, llawer gyda bathrwm, teledu lliw ac offer gwneud te a choffi. Gellir gweld y llyn neu'r mynyddoedd o'r rhan fwyaf ohonynt.
- Ceir adloniant yn ein Bar Lolfa bob nos Sul, yn aml yn cynnwys talentau Cymraeg lleol.



# DEINIOLEN

**GOHEBYDD: W.O. Williams, 6 Rhydfadog (Llanberis 871259)**

CLWB ELIDIR – Cynhaliwyd cyfarfod o'r uchod dydd Mawrth, Chwefror 26ain. Llywydd oedd Mrs. C. Marren. Rhoddwyd y te gan Mrs. Mary Jones, 4 Y Bwthyn. Pasiwyd i gydymdeimlo â'r aelodau canlynol yn eu profedigaeth yn ddiweddar; Mrs. Hannah J. Thomas, Mrs. Mary Thomas, Mrs. Elsie Davies a Mrs. Jane Eirlys Williams. Anfonwyd cofion hefyd at Mrs. Maggie Jones a Mrs. Nellie Hughes, y ddwy yn wael eu hiechyd. Paratowyd cwis gan Mrs. Nancy Rowlands. Enillodd Tîm A 46 o farciau a thîm B 47 o farciau. Yn gofalu am y cyfrif oedd Mrs. Megan Morris. Dymunwyd y gorau i Mrs. Mary Jones, oedd yn dathlu ei phenblwydd yn 80 oed. Estynwyd gwahoddiad i aelod newydd, sef Miss Eileen Williams. Enillwyd y raffl rhoddedig gan y Llywydd, gan Miss Lizzie Thomas, Dinorwig.

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Clwb ar Fawrth 12fed yn y Clinic. Treuliwyd prynhawn hynod o ddifyr yn gwrando ar Mr. JOHN Elwyn Thomas yn cyfeirio at hanes ei blentyndod. Diolchwyd iddo gan Mrs. C. Marren a Mrs. E. Williams. Dymunwyd penblwydd hapus i'r aelodau ar eu penblwydd yn ddiweddar:- Mrs. Nancy Rowlands; Mrs. Jane Jones; Mrs. Idwen Thomas; Mrs. Katie Lewis a Mrs. Ellen Williams. Cydymdeimlwyd â Mrs. Grace Williams ar golli ei brawd-yng-nghyfraith. Rhoddwyd te gan aelodau'r pwyllgor. Dymunwyd adferiad buan i Mrs. Katie Griffith a Mrs. Nellie Hughes, dwy aelod o'r Clwb sydd yn Ysbyty Gwynedd. Rhoddwyd y raffl gan Mrs. Sally Lewis ac fe'i enillwyd gan Mrs. Betty Wyn Davies.

DIOLCH – Dymuna Sion Roberts, 47 Rhydfadog, Deiniolen ddiolch o galon i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am eu caredigrwydd tuag ato tra bu yn Ysbyty Gwynedd ac ar ôl dod adref. Hefyd i'r meddygon a'r gweinyddesau yn Wardiau Cybi a Dulas am eu gofal caredig.

DIOLCH – Dymuna Mrs. Mary Price, Porth Gogledd ddatgan ei diolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl garedigrwydd a ddangoswyd tuag ati tra yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar.

DIOLCH – Dymuna Mrs. Nellie Hughes, 4 Gwyrfai Terrace, Clwt-y-Bont, ddiolch yn gynnes iawn i'r perthnasau, cyfeillion a chymdogion am eu holl garedigrwydd tuag ati yn ystod ei harosiad yn yr Ysbyty, ac hefyd wedi iddi ddod adref.

DIOLCH – Dymuna Mrs. Elsie Davies, 1 Gwyrfai Terrace, Clwt-y-Bont ddiolch i'r doctor a'r nyrsus a'r cyfeillion oll am eu gofal a'u caredigrwydd tra bu'n derbyn triniaeth lawfeddygol yn yr ysbyty yn Lerpwl. Hefyd cydymdeimlwn â hi ar ôl colli ei chwaer yn y Rhyl yn ystod y mis.

LLONGYFARCHIADAU i Malcolm Allen, 16 Caradog Place ar gyrraedd ei benblwydd yn ddeunaw oed ar Fawrth 21. Hefyd am ennill ei ail gap am chwarae peldroed i dîm ieuenctid Cymru. Mae Malcolm ar hyn o bryd yn aelod o Glwb Peldroed Watford.

DIOLCH – Dymuna Dylan Trefor Lewis, 36 Rhydfadog ddiolch o galon i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau, anrhegion ac arian a dderbyniodd tra bu yn yr ysbyty yn ddiweddar ac ar ôl dychwelyd adref. Diolch o galon i bawb.

CYDYMDEIMLAD – Drwg oedd gennym glywed am farwolaeth Mrs. Catherine Mary Williams, 15 Rhydfadog, gweddw y diweddar John Samuel Williams a mam Gareth a Tecwyn.
Un o Gwmaman, Aberdâr oedd Miss Williams yn wreiddiol a daeth i fyw i dŷ capel Fachwen 52 o flynyddoedd yn ôl. Yr oedd yn aelod ffyddlon o Gapel Cefn-y-Waen.
Claddwyd ei gweddillion ym Mynwent Macpela st Chwefror 27. Gwasanaethwyd gan y Parch Trefor Lewis a'r Ficer, y Parch Aled Edwards.

NEWYDDION Y SEINDORF – Enillwyr Clwb 200 am fis Mawrth:
1. £25 - Mr. R. Arfon Lewis, Waen Fro, Deiniolen
2. £15 - Mr. E.B. Roberts, Ty'r Ysgol, Dinorwig
3. £5 - Mrs. Jennie Roberts, 96 Pentre Helen, Deiniolen

Ar Chwefror 16 aeth unarddeg o aelodau o'r Seindorf lau i gystadlu ym Mhencampwriaeth Gogledd Cymru ym Mangor.
Llongyfarchiadau i Iwan Williams a Dylan Williams an ennill y wobr gyntaf ar y ddeuawd o dan 16 oed. Hefyd i'r aelodau eraill am eu cyfraniad ardderchog.
Dymunwn hefyd adferiad buan i Maldwyn Morris a fu yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Mae Maldwyn yn aelod o'r Seindorf lau. Cofiwch am Gyngerdd Dathlu y Seindorf ar nos Wener, Ebrill 19. Does dim llawer o docynau ar ôl.

CYMDEITHAS Y CHWIORYDD DISGWYLFA (MC)
– Nos Iau, Mawrth 7fed, cynhaliwyd cyfarfod o Gymdeithas y Chwiorydd. Croesawodd y Llywydd Mrs. Miriam Cydymdeimlwyd â Mrs. Elsie Davies a Mrs. Eirlys Williams yn eu profedigaeth o golli eu chwiorydd. Hefyd Mrs. Evie Williams ar golli brawd-yng-nghyfraith. Anfonwyd cofion cynhesaf hefyd, at yr oll o aelodau Eglwys Disgwylfa, sydd yn wael eu hiechyd.

Bu Mrs. Miriam Lewis ym Mhwyllgor y Genhadaeth yng Nghaernarfon yn ddiweddar, a dywedodd Mrs. Lewis for Mrs. Menna Green, y Trefnydd Gwaith Cenhadol yn dod i Ddeiniolen ar Ebrill 16 i siarad am, ac i egluro gwaith y Genhadaeth.

Bydd Pasiant blynyddol yn cael ei gynnal ar nos Wener, Mawrth 29 ynSeilo, Caernarfon. Pris tocyn yw £1.00. Enwau i'r Gweinidog, Mr. Trefor Lewis, Llys Myfyr.

Diolchwyd am y tê y mis hwn, a roddwyd gan Mrs. Jane Thorman Jones a Mrs. Eirlys Williams.

Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar yr ail nos lau o fis Ebrill, sef Ebrill 11eg.

Croeso i chwi ymuno â ni.

CYDYMDEIMLO – Bore Sadwrn, Mawrth 23ain, daeth y newydd trist am farwolaeth sydyn Mrs. Morris, priod ffyddlon Mr. J.E. Morris, Clwt y Bont, Deiniolen. Fis yn ôl roedd y ddau yn dathlu eu priodas aur, a threfnodd y teulu ddiwrnod arbennig iddynt i ddthlu'r achlysur hapus. Estynnir cydymdeimlad dwysaf â Mr. Morris, Meinir, Eirian, Irfon a'r teulu oll yn eu profedigaeth o golli gwraig a mam mor annwyl.

DIOLCH – Dymuna Shadrach a Glyn, Caernarfon, hefyd Katie, Nell, Eirlys a Now ddatgan eu diolchgarwch i bawb am bob cydymdeimlad a ddangoswyd atynt ymhob ffordd. Hefyd am y rhoddion at Uned y 'Gofal dyddiol' yn Ysbyty Bryn Seiont er côf am y ddiweddar annwyl Gwyneth Jones, gynt o Ddeiniolen.

YN YR YSBYTY – Drwg gennym glywed fod Mrs. Nellie Hughes (Neli Erw Fair) yn Ysbyty Gwynedd. Da deall ei bod yn gwella.
Yr un yw ein dymuniadau i James Grindley, Clwt-y-Bont, ac i John Trebor, Caradog Place, ar ôl derbyn triniaeth lawfedygol yn Ysbyty Gwynedd.

DIOLCH – Dymuna Gwenlli, Crud yr Awel, Porth y Gogledd, ddiolch yn garedig i'w ffrindiau a'r teulu am yr anrhegion a'r cardiau a dderbyniodd ar achlysur dathlu ei phenblwydd yn ddeunaw oed ar Fawrth 17.

PLAID CYMRU – Cynhaliwyd y cinio gŵyl Ddewi eleni yng Ngwesty Plas Tan Dinas, Dinas Dinlle, ar Fawrth yr ail.
Roedd dros ddeugain o aelodau ac eraill yn y cinio. Cafwyd noson hwyliog dros ben, a'r adloniant wedi ei ddarparu gan aelodau'r gangen. Cafwyd eitem annisgwyl gan John Eifion o Garndolbenmaen.
Yn ystod y noson, tynnwyd rhifau Clwb Cant, ac enillwyr mis Chwefror oedd –
£10 - Rhif 53 - Miss L.M. Lewis, 11 Maes Gwylfa
£8.50 - Rhif 44 - Mrs. J.C. Hughes, 26 Pentre Helen
Ar nos Fawrth, Ebrill 9 am 7 o'r gloch, cynhelir noson yng nghwmni Mr. Dafydd Wigley A.S. a'r Cynghorydd Pat Larsen. Mae'r cyfarfod hwn yn y Ganolfan yn agored i'r cyhoedd, a gwahoddir pentrefwyr i fanteisio ar y cyfle arbennig hwn i gyfarfod eu Haelod Seneddol a'u Cynghorydd Sir.
Dyddiadur a dyddiadau i'w cofio
Ebrill 9 – Noson yng nghwmni Mr. Dafydd Wigley a'r Cynghorydd Pat Larsen am 7 o'r gloch yn y Ganolfan (Agored i'r cyhoedd).
Mai 22 – Cynghorydd Dafydd Orwig yn trafod 'Strategaeth Plaid Cymru'. 7 o'r gloch yn y Ganolfan.
Mehefin 8 – Taith ddirgel Plaid Cymru
Gorffennaf 13 – Helfa drysor Plaid Cymru.

SEFYDLIAD Y MERCHED – Cynhaliwyd Swper a Chyngerdd Gŵyl Ddewi i aelodau Clwb Elidir yn Neuadd yr Ysgol ar Fawrth 4ydd. Cafwyd eitemau gan Barti Ceris a rhai o aelodau Sefydliad y Merched. Cawsom noson ddifyr iawn. Enillwyd y raffl gan rai o aelodau Clwb Elidir. Arweiniwyd y noson gan Mrs. Eirlys Lloyd Jones, llywydd Sefydliad y Merched. Diolchwyd i bawb a gymerodd ran gan Mrs. Rita Parri Jones. Diolchwyd ar ran Clwb Elidir gan Mrs. Marren a Mrs. Megan Morris. Carem ddiolch hefyd i Mr. a Mrs. Ieuan Williams am roi benthyg eu bws mini i gludo aelodau Clwb Elidir. Carem ddiolch hefyd i Mrs. Olive Jones am gynorthwyo yn y gegin.
Bydd y cyfarfod nesaf ar Ebrill 1af, pan ddisgwylir Mr. Edward Evans i roi sgwrs am 'Malawi'.


I DRWSIO'R TELEDU NEU'R RADIO FFONIWCH...
**Osmond W. Shaw**
DEINIOLEN
*Ffôn: LLANBERIS 870545*
**Gwasanaeth 'run diwrnod os ffoniwch cyn 10 o'r gloch y bore**

**J.M. JONES A'I FAB**
**GWAITH CERRIG BEDDAU**
**A THREFNWYR ANGLADDAU**
**DEINIOLEN**
**Ffôn: LLANBERIS 872518 (Dydd)**
**Y FELINHELI 670124 (Nos)**





**BECWS DEINIOLEN**
(D.E. & R.P. JONES)
Ffôn: LLANBERIS 870232
BARA FFRES A THEISENNAU BLASUS
Hefyd gwerthwyr CALOR GAS

# LLANRUG

**Gohebydd: Mrs Eirlys Pierce, Swyn-yr-Awel (C'fon 3776)**

GENEDIGAETH – Llongyfarchiadau i Janet a Dafydd Horman ar enedigaeth bachgen bach ar Fawrth 16.
Llongyfarchiadau hefyd i nain a taid, Mr. a Mrs. J. Horman, Venice.
Dydd Llun, Mawrth 18, ganed mab, Sion Rhys, i Linda a Gwynfor Jones, Bryn Eden, ŵyr cyntaf i Mrs. Gwyneth Jones, Cae Hywel, Penisarwaun, ac ŵyr bach arall i Mr. a Mrs. Wavell Roberts, London House.

DIOLCH – Dymuna Miss Annwen Williams, 14 Stryd y Dŵr, Penygroes (3 Tai Minfford gynt) ddiolch o galon i'w pherthnasau a'i ffrindiau am y caredigrwydd a'r llu cardiau a dderbyniodd tra dan driniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Lerpwl. Diolch i bawb.

Y GYMDEITHAS UNDEBOL – I DERFYNU'R tymor ac i ddathlu dydd Gŵyl dewi, mwynhawyd pryd blasus yn Y Foelas, ac yn dilyn, gyda'r Parch John Morris yn llywyddu caed anerchiad pwrpasol gan y Dr. John Gwilym Jones, Y Groeslon.
Diolchwyd iddo gan Miss Megan Humphreys. Anfonwyd cofion at Mr. D. Glynne Owen oedd mewn gwaeledd, a Mrs. Naomi Griffith wedi cael damwain.
Etholwyd swyddogion ar gyfer tymor 1985-86:
Llywydd – Y Parch John Morris B.D.
Trysorydd – Mr. J.Ll. Williams, Bod Fair
Ysgrifenyddes – Mrs. E.Wh. Thomas, Dolwar
Pasiwyd i gael taith hanesyddol yn ôl yr arfer ym mis Mehefin.

CAPEL PONTRHYTHALLT – Bore Sul yng Nghapel Pontrhythallt, derbyniwyd chwech o blant yn gyflawn aelodau yr Eglwys, sef Misses Dianne a Sharon Thomas, Miss Jean Roberts, Mr. Barry Roberts, Mr. Gareth Lloyd Jones a Mr. D. Martin Roberts, yr oll o Bro Rhyddallt.
Gweinyddwyd Sacrament y Cymun. Roedd y gwasanaeth dan ofal y gweinidog, Y Parch John Morris.

GWELLHAD BUAN – Da deall for Mr. D. Glynne Owen wedi gadael yr Ysbyty yn Birmingham, ac yn aros gyda'r mab Y Parch Tudor Owen. Dymunir gwellhad buan iddo.

GIAMOCS GWANWYN – Cynhaliwyd cyfarfod i blant o 7 - 11 oed yng Nghapel Mawr, Llanrug yn ddiweddar. O ddeg y bore hyd at dri y pnawn, bu'r plant wrthi'n brysur iawn yn canu, gwylio ffilm, dysgu adnod, cymryd rhan mewn Helfa Drysor, cwblhau taflenni gwaith a llu o bethau eraill.
Trefnwyd y cyfarfod gan y gweinidog, Y Parch John Morris a Miss Delyth Oswy, Swyddog Datblygu Ysgolion Sul, Arfon.
Daeth 40 o blant ynghŷd, a reoddynt yn amlwg wedi mwynhau eu hunain yn fawr.

GWELLHAD BUAN – Bu Harri Gwyn yn Ysbyty Gwynedd am rai wythnosau ac y mae yn awr yn Ysbyty Eryri, Caernarfon. Cam yn nes at ei gartref yn Nhyddyn Rhuddallt, Llanrug. Gobeithio y bydd yn well yn fuan.

MERCHED Y WAWR – Nos Fawrth, y 12fed cyfisol, cyfarfu'r aelodau yng Nghwesty'r Foelas i ddathlu Gŵyl Ddewi. Llywyddwyd gan Mrs. Bethanne Williams. Croesawyd Mrs. Thomas, Berwyn yn ôl ar ôl gwaeledd a dymunwyd gwellhad buan i fam Mrs. Beryl Thomas. Llongyfarchwyd Mrs. Eirwen Rowlands a Mrs. Joan Griffith ar ddathlu priodas arian a hefyd dymuno'n dda i fab Mrs. Rowlands a briododd yn ddiweddar. Rhoddwyd croeso i'r gwestai, Mrs. Mary Vaughan Jones o'r Waunfawr. Cawsom anerchiad hynod o ddiddorol ganddi am ysgolhaig a naturiaethwr mwyaf ei gyfnod, sef Edward Llwyd (1660 - 1709). Soniodd yn ei dull hamddenol, braf am Edward Llwyd a anwyd yn fab ordderch i Edward Lloyd o Lanforda, Croesoswallt yn mynd i'r Ysgol Ramadeg yno ac wedyn i Goleg Iesu, Rhydychen.
Ei ddiddordeb yn y Gwyddorau a'i arbrofion gwyddonol a'i dug i wneud papur anhylosg o asbestos. Ymddiddorai yn yr Amgueddfa Ashmole drwy'i oes a gwnaed ef yn geidwad y sefydliad am ei lafur dygn drosti. Bu ar deithiau manwl yn holl siroedd Cymru yn chwilio am gerrig a ffosylau a chrwydrodd glogwyni a chilfachau Eryri yn ei ymchwil am lysiau a phlanhigion prin. Bu farw yn 49 oed heb orffen y gwaith mawr a gynllunsai. Dibrisiwyd ei lafur a'i ysgolheictod gan y Brifysgol a gwerthwyd a gwasgarwyd ei lawysgrifau. Collwyd llawer ohonynt mewn tanau yn nhai bonheddig. Dau can mlynedd wedi ei farw rhoed tabled bres ar fur Capel yng Ngholeg Iesu i goffau'r Cymro nodedig nad oedd carreg arysgrif i nodi man ei fedd. Doedd ryfedd i athrawes y gwyddorau ddewis Edward Llwyd fel yr enwocaf o'r Cymry enwog.
Roedd y cinio dydd Gŵyl Dewi eleni, yn achlysur arbennig gan fod y gangen yn dathlu ei degfed penblwydd. Mrs. Evans, 'Lloc', oedd y Llywydd cyntaf, a hi a wahoddwyd i roi inni hanes sefydlu'r gangen a'i datblygiad. Teimlai Mrs. Evans yn falch fod aelodaeth y gangen yn dal ei thir cystal. Trigain a chwech oed yn y tymor cyntaf ond cododd i'r wythdegau. Mae yn ôl i'r chwedegau erbyn hyn. Canmolodd yr aelodau ffyddlon ac anogodd bawb i gael eraill i ymuno fel y gellid cael cangen effeithiol yn yr ardal. Erbyn hyn Mrs. Evans yw ein Llywydd Anrhydeddus ac mae'n gwerthfawrogi'r fraint yn fawr.

## GIAMOCS GWANWYN



## LLYWYDD ANRHYDEDDUS Y GANGEN



*Mrs. M. Evans, Lloc, Llywydd cyntaf Merched y Wawr, Llanrug*

Gwnaeth Mrs. Carrie Owen, Tŷ Fry, deisen hardd ar gyfer y dathliad a Mrs. Evans gafodd y fraint o'i thorri.
Cyflwynwyd tusw o flodau i Mrs. Evans gan y llywydd presennol, Mrs. Bethanne Williams.
Wedi'r gwledda a'r dathlu, cafwyd adloniant i goroni'r noson. 'Merched y Cyfryngau' oedd y thema ac yr oedd y cyfan yn nwylo rhai o aelodau talentog y gangen.

DIOLCH – Ein diolch i Nia Lloyd Hughes, Graianfryn am ddosbarthu'r 'Eco' yn ardal Pontrhythallt a Thal-y-bont. Mae Gwenda Roberts, 4 Tal-y-bont eisoes wedi dechrau ar y gwaith o ddosbarthu'r 'Eco' yn ei lle.

YN EISIAU – Athrawes drwyddedig i ofalu am Ysgol Feithrin, Llanrug, ac i ddechrau y gwaith yn syth ar ôl gwyliau'r Pasg. Am fwy o fanylion, cysyllter â Mrs. F. Roberts, Glyn Awel, Llanrug (Ffôn: Caernarfon 4324)

PROFEDIGAETH – Ein cydymdeimlad llwyraf â Mrs. Eirian Roberts, Glanffynnon, a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth o golli mam

YN 80 OED – Llongyfarchiadau i Mrs. Griffiths, Dolanog, Glanffynnon a fu'n dathlu ei phenblwydd yn bedwarugain yn ddiweddar. Cafodd barti yn y Foelas a dathliad bychan yn y tŷ hefyd. Derbyniodd delegramau a blodau oddi wrth ei mab Howell, a'i deulu o Whyalla, Awstralia. Dymuna Mrs. Griffiths ddiolch i'w theulu a'i ffrindiau i gyd am eu dymuniadau da, yr anrhegion a'r cardiau lu a dderbyniodd.



## GYDA TONY AC ALOMA




*Egwyl yn y Stiwdio — a chôr plant Ysgol Gynradd, Llanrug — yn disgwyl am y cyfle i gyd-ganu â Tony ac Aloma o flaen camerâu Teledu'r Tir Glas.*


Am waith
**Cynllunio**
o bob math
TAI NEWYDD
NEU ESTYNIADAU
**LEN ROBERTS**
**Waun Howel**
**LLANRUG**
**Ffôn: Llanberis**
**870971**
Prisiau rhesymol

**D. LL. OWEN**
**1 BRYN AFON TERRACE, LLANRUG**
**FFÔN C'FON 76699**
**Cludo Llwythi Bychan a Chlirio Safleoedd**
**Llwythi 3 Tunnell**
**Hefyd Trin Gerddi a Thorri Gwair**

# CROESAIR EBRILL



**AR DRAWS**
1. Gwaedd (7)
7. Blentyn Bach (5)
8. Anifail (7)
9. Marw (6)
11. Cri (5)
13. Geneth Fwyn? (4)
14. Llawn dagrau (7)
15. Rhif benywaidd (4)
16. Difrifoli (5)
17. Rhan o Brifysgol (6)
21. Man gwaith (7)
22. Hyd a lled (5)
23. Gofidio (7)

**I LAWR**
2. Awenyddiaeth (10)
3. Gweithiwr llechi (8)
4. Gwaredu (4)
5. Dyn mawr (4)
6. Dedfryd (4)
9. Brawychu (5)
10. Ioan Bowen Rees yw prif un Gwynedd (1)
12. Tony ac .... (5)
13. Eglurhad (8)
18. Nawr (4)
19. Lan (4)
20. Dynion (4)

Atebion Croesair Mawrth

Ar draws: 1. Atyniad, 7. Credu, 8. Drewdod, 9. Swynol, 11. Dylif, 13. Treth, 14. Iawnder, 15. Alto, 16. Echnos, 17. Adlais, 21. Maen Clo, 22. Swper, 23. Lon Bost.

I Lawr: 2. Terfysglyd, 3. Niweidio, 4. Achos, 5. Briw, 6. Odyn, 9. Sawdl, 10. Ofergoelus, 12. Awchus, 13. Trychineb, 18. Lawr, 19. Iddew, 20. Iago.

Enillydd: Gwyneth Lloyd, Fron Deg, Ffrodd Segontium, Caernarfon.
Anfonwch eich cynigion i Gareth Hughes, 27 Bro Rhos, Bethel. Bydd gwbor o £2 i'r cynnig cywir cyntaf i'w dynnu.


SIMNEIAU GWAEL? CRACIAU?
MŴG A HOGLA' TARO PERYGLUS?
Cysylltwch â Dave Wood
'INSULAFLUE'
Yr Arbenigwr ar leinio simneiau
FRON HEULOG, DINORWIG
Ffôn: Llanberis 871376


# DYDDIADUR

EBRILL

1. Llun – LLANBERIS, Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30; DEINIOLEN, Sefydliad y Merched.
3. Mercher – BETHEL, Disgo i blant yr Ysgol Feithrin a'r Ysgol Gynradd am 6.00 yn y Neuadd Goffa.
4. Iau – WAUNFAWR, Clwb Gwyrfai; Sefydliad y Merched.
7. Sul y Pasg – LLANBERIS, Cyngerdd Mawreddog yng Nghapel Coch gyda Chôr Godre'r Garth am 8 o'r gloch.
9. Mawrth – LLANRUG, Cyfarfod Blynyddol Merched y Wawr ac Arddangosfa Celf a Chrefft dan ofal Mrs. Rhiannon Roberts; DEINIOLEN, Clwb Elidir; Cangen Plaid Cymru – Noson yng nghwmni Mr. Dafydd Wigley AS a'r Cynghorydd Pat Larsen yn y Ganolfan; CWM Y GLO, Undeb y Mamau yn yr Ysgol am 7.00
11. Iau – LLANRUG, Clwb Blodau'r Grug; DEINIOLEN, Cymdeithas y Chwiorydd, Capel Disgwylfa
12. Gwener – LLANBERIS, Tê yr Henoed; PENISARWAUN, Gyrfa Chwist yn Neuadd yr Eglwys am 7.30
15. Llun – YR ARDAL, Yr ysgolion yn dechrau tymor newydd; LLANBERIS, Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30.
16. Mawrth – YR ARDAL, Cwmni Theatr Bara Caws yn llwyfannu 'Celwydd' yn Neuadd Ysgol Brynrefail, Llanrug am 7.30; PENISARWAUN, Clwb yr Heulwen - y gŵr gwadd fydd Mr. O.R. Williams, Dinorwig.
17. Mercher – BETHEL, Cyfarfod Cyhoeddus yr Ysgol Feithrin yn y Neuadd Goffa am 8.00; YR ARDAL, Cyfarfod Agoriadol Cymdeithas Hanes Bro Eco'r Wyddfa yn Oriel Eryri am 7.30 - Darlith gan Mr. Maldwyn Thomas M.A., Bangor ar 'Ddiwylliant Bro'.
18. Iau – WAUNFAWR, Clwb Gwyrfai
19. Gwener – DEINIOLEN, Cyngerdd Dathlu y Seindorf yng Nghapel Ebeneser.
22. Llun – LLANBERIS, Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30.
23. Mawrth – DEINIOLEN, Clwb Elidir
24. Mercher – BETHEL, Clwb y Mamau
25. Iau – YR ARDAL, Cwmni Drama Llanberis yn perfformio 'Chwalu'r Nyth' yn Neuadd Ysgol Brynrefail; LLANBERIS, Sefydliad y Merched
26. Gwener – LLANBERIS, Te yr Henoed; PENISARWAUN, Gyrfa Chwist yn Neuadd yr Eglwys am 7.30
27. Sadwrn – 6 Mai, Wythnos Cyhoeddi Esiteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru Dyffryn Ogwen a'r Cylch, 1986
29. Llun – LLANBERIS, Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30; DEINIOLEN, Cwmni Drama Llanberis yn perfformio 'Chwalu'r Nyth' yn Neuadd yr Ysgol.

DYDDIADAU I'W COFIO
Mai 2 – Etholiadau'r Cyngor Sir
Mai 24 a 25 – Treialon Cŵn Defaid Nant Peris
Mehefin 15 – Gwibdaith yr Haf, Clwb Eryri
Mehefin 23 i 29 – Wythnos Garnifal Llanrug
Gorffennaf 7 i 13 – Wythnos Garnifal Bethel

## Datganiad Y.D.N. (C.N.D.) Cristnogol, Gwynedd

Yn ddiweddar ffurfiwyd grŵp Ymgyrch Diarfogi Niwcliar (C.N.D.) Cristnogol yng Ngwynedd. Teimlad yr aelodau wrth ddod at ei gilydd i sefydlu'r grŵp oedd bod cyfrifoldeb arbennig ar Gristnogion i weithio dros heddwch a chariad brawdol ac yn erbyn gallu dieflig arfau niwcliar. Mae'r grŵp yn rhannu'r un amcan a'r Ymgyrch Ddiarfogi Niwcliar (C.N.D.), sef bod rhaid galw am ddiddymu arfau niwcliar yn llwyr, ond ei nod arbennig yw deffro ymwybyddiaeth ymhlith Cristnogion i fygythiad arfau niwcliar a galw Cristnogion at ei gilydd i weddio a gweithredu dros heddwch.

Bwriad y grŵp yw cynnal gwasanaethau heddwch y tu allan i wersyll llu awyr y Fali ar Ynys Môn ar ddydd Llun y Pasg, Ebrill 8fed am 2 o'r gloch y prynhawn. Yn addas iawn, cynhelir y gwasanaeth ar y llain tir yn ymyl y gwersyll, 'Cae Dalar' a bwrcaswyd gan heddychwyr lleol y llynedd. Bydd y Parchedig Rhodri Glyn Tomos yn annerch, a bydd Dafydd Iwan yn canu. Bwriedir gwahodd siaradwr i annerch yn Saesneg hefyd.

Gobaith y grŵp yw y bydd llawer iawn o Gristnogion yn dod at ei gilydd i gydaddoli a chydweddio dros heddwch i'n byd, ac y bydd y gwasanaethau yn fynegiant amlwg o atgasedd Cristnogion trwy'r byd at allu dinistriol arfau niwcliar.


Busnes newydd ym Mro'r Eco . . .
EMYR JONES
PLYMAR
PEIRIANNYDD
GWRESOGI
GWAITH
INSIWLEIDDIO
44 Glanffynnon
LLANRUG
Caernarfon.
3513



GWILYM O. ROBERTS
WEIRGLODD GOCH
PENISARWAUN
Ffôn Llanberis
871407
DOSBARTHWR LLEFRITH
Trwy ardal
ECO'R WYDDFA
Hefyd TATWS, WYAU
ac ati at eich drws



- Jig i Atgyweirio Cyrff
- Tiwnio Crypton
- MOT
- Ail-Sbreo
- Tracio
- Balansio Olwynion
- Gwasanaethu
- Cymysgu Paent
- Gwerthu Ceir Newydd ac Ail-law
- Partiau Renault
- Petrol ESSO a DERV
- Sigarennau a Melysion
- Calor Gas



Perchennog: E.P. Hughes
MODURDY DOLYDD
GROESLON Ffôn: Llanwnda 830562

# CHWARAEON

## Y GOLOFN SNWCER

**gan Aeron Jones**

## CYNGHRAIR BANGOR A'R CYLCH

**ADRAN A**

| Safle | Ch | E | Cyf | Coll | O Bl | Yn Er | Pt |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 Gleision Llanrug | 26 | 19 | 3 | 4 | 111 | 45 | 41 |
| 9 Duon Deiniolen | 26 | 8 | 9 | 9 | 80 | 76 | 25 |
| 14 Gleision Deiniolen | 26 | 2 | 7 | 16 | 48 | 108 | 11 |
| 15 Cochion Llanrug | 25 | 3 | 4 | 18 | 46 | 105 | 10 |

**ADRAN B**

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 4 Gleision Bethel | 22 | 10 | 6 | 6 | 76 | 56 | 26 |
| 7 Duon Bethel | 21 | 8 | 8 | 5 | 67 | 59 | 24 |
| 9 Cochion Deiniolen | 24 | 5 | 11 | 8 | 65 | 76 | 21 |

**Canlyniadau mis Mawrth:**

**Duon Deiniolen**
1:5 Ceidwadwyr Felinheli (duon)
1:5 Llafur Llangefni
3:3 Duon Nantlle
5:1 Gleision Deiniolen
2:4 Duon Porthaethwy

**Gleision Deiniolen**
2:4 Clwb Cymdeithasol Bangor (Duon)
1:5 Gleision Marbryn
4:2 Gleision Nantlle
1:5 Duon Deiniolen
3:3 Ceidwadwyr Bangor (Gleision)

**Gleision Llanrug**
6:0 Gleision Nantlle
6:0 Cochion Llanrug
6:0 Clwb Cymdeithasol Bangor (Duon)
3:3 Duon Porthaethwy
5:1 Crosville C'fon (Gleision)

**Cochion Llanrug**
2:4 Duon Nantlle
0:6 Gleision Llanrug
2:4 Ceidwadwyr Felinheli (Duon)
2:4 Ceidwadwyr Bangor (Gleision)
1:5 Crosville C'fon (Duon)

**ADRAN B**

**Gleision Bethel**
5:1 Nantlle Brown
3:3 Duon Deiniolen
2:4 Duon Llanfair PG
5:1 Duon Bethesda
2:4 Cochion Marbryn

**Duon Bethel**
3:3 Cochion Deiniolen
3:3 Gleision Bethel

**Cochion Deiniolen**
3:3 Duon Bethel
4:2 Nantlle Brown
0-6 Clwb Cymdeithasol Bangor (Gleision)
2-4 Gleision Porthaethwy
4:2 Duon Groeslon

## CLWB DUON BETHEL



*O'r chwith i'r dde: Rhes Gefn: W. Owen, I. Rees, A. Hughes. Rhes flaen: H. Owen, A. Hughes, M. Bennet. Yn absennol o'r llun mae: P. Williams, C. Roberts, C. Thomas, R. Roberts, H. Jones, E. Thomas.*

| | Cynghrair Ennill | Cynghrair Colli | Cwpan Ennill | Cwpan Colli |
|---|---|---|---|---|
| 1. Albert Hughes | 16 | 5 | 3 | 4 |
| 2. William Owen | 9 | 12 | 4 | 2 |
| 3. Harty Owen | 11 | 6 | 1 | 4 |
| 4. Andrew Hughes | 14 | 7 | 5 | 2 |
| 5. Paul Williams | 5 | 9 | 1 | 3 |
| 6. Idris Rees | 10 | 9 | 3 | 2 |
| 7. Colin Roberts | – | 1 | 1 | 1 |
| 8. Cledwyn Thomas | – | – | – | – |
| 9. Richard Roberts | – | – | – | – |
| 10. Harry Jones | – | – | – | – |
| 11. Emlyn Thomas | – | 2 | – | – |
| 12. Mark Bennet | 5 | 4 | 3 | – |

Colli fu hanes Gleision Llanrug yn nghystadleuaeth Gogledd Cymru yn erbyn Clwb Cymdeithasol Albion yng Nghei Connah, 5-1 oedd y sgôr.

Yng nghwpan Adran A, curodd Gleision Llanrug 7-3 yn erbyn Clwb Cymdeithasol Bangor (Duon).

Yn yr Ail Adran collodd tîm Cochion Deiniolen o 6 phwynt i ddim yn erbyn Clwb Duon Porthaethwy.

Cafwyd toriad o 81 gan Clive Griffiths o Glwb Gleision Llanrug roedd Gerald Griffiths a Clive Griffiths yn chwarae mewn cystadleuaeth yn erbyn Huw Edwards â Huw Thomas o glwb Cybi yng Nghaergybi.

Yn y ffrâm gyntaf fe wnaeth Gerald doriad o 30 ac aethant ymlaen i guro'r ffrâm 64 pwynt i 15.

Yn yr ail ffrâm tro Clive oedd i wneud toriad. Yn y dechrau fe wnaeth 32 ac yng nghanol y gêm fe wnaeth 49, i guro'r ffrâm 96 pwynt i 8.

Cafodd y ffrâm olaf ei chwarae'n sydyn iawn. Fe wnaeth Gerald Griffiths doriad o 18, ac yn syth wedyn cafwyd toriad gwych arall ganddo o 42, sef 7 pêl goch, a 7 pêl las. Enillwyd y ffrâm honno 80 pwynt i 6.

## MENTRO I MANSFIELD

Ar y 14eg o Fis Ebrill, bydd nifer o fechgyn o fro'r 'Eco' yn teithio i Mansfield i chwarae peldroed. Byddant yn cymryd rhan mewn cystadleuaeth rhwng pedair o gynghreiriau peldroed i fechgyn dan 16 oed, a'r rheini wedi eu rhannu i dri grŵp oedran, sef bechgyn dan 12 oed, dan 14 oed a than 16 oed. Bydd y bechgyn yn cynrychioli Cynghrair Peldroed Ieuenctid Gwyrfai, ac yn cystadlu yn erbyn Cynghreiriau Caer a'r Cylch, Mansfield a'r Cylch a Wrecsam.

Sefydlwyd y gystadleuaeth hon – yr 'Anglo-Welsh Trophy' y llynedd, ac fe'i chwaraewyd yn Wrecsam. Y bwriad yw ei chwarae bob yn ail blwyddyn yng Nghymru a Lloegr. Felly daw'r gystadleuaeth i gylch Gwyrfai yn 1986.

Ym Mansfield eleni bydd dros 200 o fechgyn yn cymryd rhan. Camp nid bychan i hogiau Gwyrfai yw cael cystadlu yn erbyn y Cynghreiriau eraill – mae pob un ohonynt yn chwarae'r rheolaidd yn erbyn timau tramor – Ffrainc, yr Is-Almaen, Norwy a Gorllewin yr Almaen.

Nid yw swyddogion Cynghrair Gwyrfai yn or-hyderus ynglŷn â gobiethion y timau, ond maent yn gweld gwerth mawr mewn cymryd rhan oherwydd ei fod yn ehangu profiad y bechgyn. Mae gobaith iddynt hefyd gael eu gweld gan sgowtiaid o rai o dimau peldroed proffesiynol Lloegr.

Y bechgyn o ardal yr 'Eco' fydd yn cynrychioli Cynghrair Gwyrfai yw:-

Tim dan 12 oed
Mark Williams, Cai Williams, Daryl Griffiths, Edward Rogers, Tristan Rees, o dîm Llanberis. Geraint Ellis a Rodney Roberts o dîm Cwmyglo, ac Ian Parry o dîm Llanrug.

Tim dan 14 oed
Paul Skidmore o'r Waunfawr, Alan Williams a Patrick McGuiness o Lanrug, Jason Jones o Ddeiniolen, Dewi Morris o Gwmyglo ac Ian Evans o Lanberis

Tim dan 16 oed
Stewart Williams a Gareth Parry o Lanrug, Martin Wiliams o Gwmyglo a Terry Saynor o Lanberis.

Mae gweddill chwaraewyr y Gynghrair yn dod o dimau Caernarfon United, Bontnewydd, Y Felinheli, Mountain Rangers a Morfa Rangers.

Gobeithiwn gael mwy o hanes hynt yr hogiau yn Mansfield yn y rhifyn nesaf. Pob hwyl iddynt yn Lloegr a dowch a'r Tlws yn ôl i Wyrfai!!

## PŴL CYNGHRAIR ARFON



*Dau dîm o fro'r Eco a gyfarfu ddechrau mis Mawrth yn yr ail rownd yn y gystadleuaeth i bedwarawdau.*
*O'r chwith i'r dde:- Mike Roberts, Philip Guy a David Owen yn cynrychioli Dolbadarn, Llanberis a Trefor Jones, Ifan Williams, Gary Evans a Dilwyn Williams, o dîm Penbont, Llanrug. Nid oedd Derek Roberts, Dolbadarn yn bresennol pan dynnwyd y llun. Y tîm o Lanber a enillodd mewn gêm glos iawn.*

## DWY BEL NEWYDD



*Mr. Tony Roberts, Penbont, Llanrug yn cyflwyno Mr. Peter Casey, rheolwr tîm peldroed Llanrug, a Mr. Melfyn Jones, rheolwr tîm peldroed Deiniolen â dwy bêl newydd ar gyfer hanner olaf y tymor.*